



monmouthshire
sir fynwy

Deddf Trwyddedu 2003

Datganiad Polisi Drafft 2025

Adolygiad 1^{af} Gorffennaf 2025

Gellir cael gwybodaeth bellach o:

Adran Trwyddedu

Cyngor Sir Fynwy

Canolfan Addysg Gymunedol Y Fenni

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

NP15 1GA

Ffôn: 01873 735420

Ebost: licensing@monmouthshire.gov.uk

Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk/licensing

Cynnwys

Tudalen

1.	Cyflwyniad.....	5
2.	Proffil y Sir	6
3.	Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr	7
4.	Egwyddorion Sylfaenol	8
5.	Parthau ac oriau trwyddedu.....	10
	Amser gorffen yfed/pwyllo.....	12
6.	Galw masnachol	13
7.	Niweidiau Alcohol	13
8.	Cyffuriau	15
9.	Amcanion Trwyddedu	17
10.	Atal trosedd ac anhrefn.....	18
11.	Atal niwsans cyhoeddus	20
	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	
	Rheoli Sŵn a Seinwedd	23
12.	Diogelwch Cyhoeddus	23
	Cyfraith Martyn.....	26
	Diogelwch Tyrfa.....	27
13.	Diogelu plant rhag niwed	27
	Gwerthu drwy ddirprwy.....	30
	Cyflogi Plant	31
14.	Hawliau i gynrychioliadau.....	31
15.	Awdurdodau cyfrifol.....	32
16.	Personau eraill	33
17.	Integreiddio strategaethau	33

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.....	33
Y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014	33
Deddf Mewnfudo 2016.....	34
Deddf Hawliau Dynol 1998	34
Deddf Cydraddoldeb 2010	34
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	35
Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA neu SSSI) a hysbyswyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd).....	35
Perthynas gyda'r Broses Gynllunio	36
18. Trwydded alcohol bersonol	37
Goruchwylydd Eiddo Dynodedig.....	38
19. Trwydded Safle	39
20. Tystysgrif safle clwb.....	40
Trwyddedau Cysgodol.....	
21. Hysbysiadau Digwyddiad Dros dro.....	41
Digwyddiadau ar Raddfa Fawr.....	43
22. Gwerthu a chyflenwi alcohol	43
23. Adloniant rheoledig	44
Cynulleidfa Gyhoeddus.....	45
Trosolwg o amgylchiadau pan nad oes modd trwyddedu gweithgareddau adloniant	45
Newidiadau dadreoleiddio pan nad oes angen trwydded	46
Trosolwg o amgylchiadau pan nad oes modd trwyddedu gweithgareddau adloniant bellach	
<i>Awdurdodau lleol, darparwyr gofal iechyd ysbyty a pherchnogion ysgol: eithriad gweithgaredd traws adloniant</i>	<i>48</i>
<i>Awdurdod lleol, ysbyty a safle ysgol: adloniant cerddorol trydydd parti</i>	<i>49</i>
<i>Safle cymunedol: adloniant cerddorol</i>	<i>50</i>
<i>Safle cymunedol: arddangos ffilm</i>	<i>50</i>
<i>Syracasau Teithiol</i>	<i>51</i>
<i>Cerddoriaeth Fyw</i>	<i>51</i>
<i>Termau allweddol y'i defnyddir mewn perthynas â cherddoriaeth fyw</i>	<i>52</i>
<i>Cerddoriaeth wedi'i Recordio</i>	<i>53</i>
<i>Dramâu a Dawns</i>	<i>53</i>

<i>Chwaraeon Dan Do</i>	53
Amodau trwydded	
<i>Cerddoriaeth Fyw neu Gerddoriaeth wedi'i Recordio</i>	54
<i>Gerddi Cwrw</i>	55
<i>Dramâu, dawns a chwaraeon dan do</i>	55
<i>Adloniant bocsio neu reslo ac amodau sy'n ymwneud â</i> <i>chwaraeon ymladd cymysg</i>	56
Amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau na ellir eu trwyddedu	57
Cerddoriaeth atodol	57
Cael gwared ar amodau trwyddedu	58
Perfformio yn y stryd	59
Ffilm Atodol.....	59
Gweithgaredd adloniant a gynigir fel rhan o ofal plant	60
Perfformwyr sy'n blant	61
24. Gweinyddiaeth	61
25. Gweithdrefnau ymgeisio	61
Yr Awdurdodau cyfrifol.....	62
26. Amserlen weithredu	65
27. Amodau	66
28. Ceisiadau pan dderbynnir cynrychioliadau	67
29. Ymarfer a dirprwy swyddogaethau	72
30. Adolygiad o drwyddedau	74
31. Asesiad Effaith Gronnus	74
32. Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus	78
33. Gorchmynion cyfyngu yn gynnar yn y bore	78
34. Gwrandawiadau	79
35. Apeliadau	79
36. Gweithredu dyfarniad y Llys Ynadon	81
37. Gorfodaeth	81

38. Ffioedd yn Gyffredinol.....	81
39. Ffioedd Blynyddol ar gyfer Trwyddedu Safle a Thystysgrifau Safle Clwb	82
40. Atal trwydded am beidio â thalu ffioedd blynyddol	82
41. Ardollau hwyrnos	83
42. Gwybodaeth bellach.....	83

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor, wrth gyflawni ei rôl fel yr Awdurdod Trwyddedu, yn cyhoeddi "Polisi Trwyddedu" sy'n gosod y polisiau y bydd y cyngor yn gweithredu'n gyffredinol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau a weir dan y Ddeddf. Datganiad polisi yw hwn wedi'i baratoi yn unol â darpariaethau'r Ddeddf 2003 a fersiwn diweddaraf Canllawiau'r Swyddfa gartref y'i cyflwynwyd dan adran 182 o'r Ddeddf.
- 1.2 Cyngor Sir Fynwy ("y Cyngor") yw'r Awdurdod Trwyddedu dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 ac mae'n gyfrifol am ganiatáu trwyddedu safle, tystysgrifau safle clwb, a thrwyddedu personol o ran gwerthu a/neu gyflenwi alcohol a darparu adloniant rheoledig a lluniaeth hwyrnos. Trwy gydol y ddogfen, cyfeirir at y Cyngor fel yr Awdurdod Trwyddedu lle bo'n briodol er mwyn atal dryswch rhwng y rôl hon a'r swyddogaethau eraill a gyflawnir gan y Cyngor.
- 1.3 Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd ceisiadau am drwyddedau, sydd yn ofynnol dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Trwyddedu.
- 1.4 Wrth ddatblygu'r polisi trwyddedu hwn, ystyriwyd cyngor oddi wrth cyrff megis Llywodraeth Leol (LIL), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a chymdeithasau masnachol gwahanol eraill lle'r oedd yn bosib. Lle bo hynny'n briodol, ystyriwyd Polisiau awdurdodau eraill Gwent, er mwyn cyflawni unfurfiaeth lle bo'n bosib ac i helpu sicrhau integreiddiad y polisiau gwahanol dros ardal ddaearyddol ehangach. Ystyriwyd hefyd polisiau Corfforaethol eraill a fabwysiadwyd gan y Cyngor, a chyfeirir at y rhain trwy gydol y ddogfen hon fel bo'n briodol.
- 1.5 Cyflwynodd y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mesurau i fynd i'r afael â gwahaniaethu y mae pobl anabl yn profi mewn meysydd penodol gan gynnwys cyflogaeth, a'r gallu i gyrchu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Bydd yr ymgeisydd yn rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth hon. Serch hynny, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n defnyddio trwyddedu i fynd ar drywydd materion o'r fath, ac eithrio pan y cefnogir hyn gan ddeddfwriaeth ac arferion da derbyniol.
- 1.6 Mae gan Gyngor Sir Fynwy rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â phob deddfwriaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb. Mae ganddo bolisi yn ei le er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae gan yr Ardal Wasanaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus ei fframwaith cydraddoldeb ei hun sydd ar gael i'w archwilio ar ein gwefan. Bydd trwyddedu pobl a safleoedd dan y Ddeddf

Trwyddedu 2003 yn hyrwyddo cydraddoldeb gwasanaeth a gorfodaeth yn weithredol i bob aelod o'r gymuned.

- 1.7 Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn ei gwneud hi'n anghyfreithiol i awdurdod lleol ymddwyn mewn modd sy'n anghydnaws â hawl felly. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw i'r Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried unrhyw fater trwyddedu, ac yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd yr ystyrir ceisiadau ac y gweithredir gweithgareddau gorfodaeth.
- 1.8 Caiff pob ymgais ei ystyried yn ôl ei deilyngdod unigol, ac wrth ystyried y Polisi hwn.
- 1.9 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod efallai y bydd angen iddo wyro o'r Polisi hwn ac o'r arweiniad y cyflwynir dan y Ddeddf mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol, a pan fo'r achos yn haeddu penderfyniad o'r fath yn niddordebau hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Caiff unrhyw benderfyniad o'r fath ei gymryd gyda'r cynghorwyr cyfreithiol priodol ar gyfer yr Awdurdod Trwyddedu, a chofnodir y rhesymau am unrhyw wyriad felly'n llawn.
- 1.10 Ni fydd y polisi trwyddedu'n ceisio rheoleiddio materion y darperir ar eu cyfer mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall a byddant yn ceisio ategu at gyfundrefnau felly e.e. cynllunio, iechyd a diogelwch, hawliau cyflogaeth, diogelwch tân ayyb.
- 1.11 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n dymuno annog trwyddedigion i gynnig ystod eang o weithgareddau adloniant yn Sir Fynwy trwy gydol eu horiau agor ac i hybu cerddoriaeth fyw, dawn, theatr ayyb er budd diwylliannol ehangach y gymuned.
- 1.12 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n diweddarau ac yn cyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd pryd bynnag sydd ei angen ond o fewn pum mlynedd o ddyddiad y Polisi hwn beth bynnag, a bydd yn ymgynghori'n llawn â phartneriaid, cymdeithasau masnachol a grwpiau preswylion fel sy'n briodol ar yr adeg honno, a chaiff unrhyw gynrychioliadau y derbynnir eu hystyried ar yr adeg honno. Serch hynny, pan fydd angen diweddariadau oherwydd newidiadau yn y ddeddfwriaeth genedlaethol, yn yr arweiniad statudol neu yn y manylion cyswllt, mae'r cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r polisi hwn heb ymgynghoriad pan fod angen er mwyn sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol neu arweiniad statudol.
- 1.13 Bydd yr adolygiad polisi hwn yn ystyried y materion canlynol yn ei ail ddrafft:
 - Diwygiadau i'r Ddeddf Trwyddedu a wneir gan:
 - ❖ Y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

- ❖ Y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012
- ❖ Y Ddeddf Dadreoleiddio 2015
- ❖ Offerynnau statudol a osodir
- ❖ Canllawiau Diwygiedig a gyhoeddwyd dan S182 o'r Ddeddf Trwyddedu
- ❖ Mewnfudiad

2. Proffil y Sir


Sir Fynwy

Mae gan Sir Fynwy boblogaeth o oddeutu 93, 886 ac mae ganddo gymeriad gwledig yn bennaf. Mae'r pum prif dref, Trefynwy, Y Fenni, Cil-y-coed, Casgwent a Brynbuga, wedi'u hamgylchynu gan nifer o bentrefi, pob un â'u cymeriad unigryw eu hun.

Mae yna rhai crynodiadau o safleoedd yn y Sir sy'n cynnig Adloniant Rheoledig a/neu'n gwerthu alcohol. Mae yna rhai clybiau preifat; sinema a nifer o safleoedd sydd ag estyniadau hwyrnos. Serch hynny, mae dangosiadau sinemâu symudol nawr yn gweithredu yn y sir. Mae gennym ni rhai theatrau yn Sir Fynwy. Mae mannau lleol eraill megis neuaddau pentref, cymuned ac ysgol hefyd yn cynnig nifer o'r mannau ar gyfer gweithgareddau diwylliannol. Mae nifer o gyngherddau/sioeau yn darparu am y digwyddiadau diwylliannol mwy o faint.

Mae yna nifer o dai cyhoeddus yn y Sir y tu fas i'r prif Drefi, nifer ohonynt mewn pentrefi bach, gwledig sy'n cynnig y canolbwynt i fywyd cymunedol. Mewn achosion eraill, efallai bydd y canolbwynt hwn yn cael ei gynnig gan siopau bach a siopau sy'n gwerthu alcohol. Mae'r prif safleoedd lluniaeth hwyrnos wedi'u lleoli yn y prif Drefi.

Oherwydd natur wledig y Sir, mae safleoedd a digwyddiadau sydd wedi'u trwyddedu dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 yn cynnig cyfraniad hanfodol i'r economi lleol, trwy dwristiaeth a datblygiad diwylliannol.



3. Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr

- 3.1 Bydd y Cyngor yn apwyntio Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr yn unol â'i gyfansoddiad.
- 3.2 Bydd Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr 'n sefydlu Is-bwyllgorau (paneli) yn cynnwys tri Aelod o'r Pwyllgor, er mwyn ystyried ceisiadau pan dderbynnir cynrychioliadau o unrhyw berson a/neu Awdurdodau Cyfrifol.
- 3.3 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr hefyd yn eistedd er mwyn penderfynu ar geisiadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Ddeddf Trwyddedu 2003, megis trwyddedu tacsis a cherbydau llogi preifat.
- 3.4 Er budd llywodraethu da, pan fod Cynghorydd sy'n Aelod o Bwyllgor Trwyddedu neu Cymhwyster a Chymdeithas Gamblo Is-bwyllgorwedi cael diddordeb ariannol neu bersonol yn unrhyw fater o'u blaen, byddant yn cael eu gwahardd o unrhyw ymglymiad yn y broses benderfynu sy'n effeithio'r drwydded safle. Ni fydd Cynghorydd yn eistedd ar Is-bwyllgor i ystyried ymgais o fewn eu 'Ward'.
- 3.5 Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'n cyfeirio unrhyw fater at y Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr na all ddelio ag ef oherwydd bod llai na thri aelod yn gallu ystyried y mater gerbron yr Is-bwyllgor.
- 3.6 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr 'n cyfeirio unrhyw fater at yr 'Awdurdod Trwyddedu' [Y Cyngor] na all ddelio ag ef oherwydd bod llai na'r cworwm o dri aelod yn gallu ystyried y mater gerbron y Pwyllgor.

- 3.7 Bydd pob dyfarniad o benderfyniad trwyddedu gan y Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr neu Cymhwyster a Chymdeithas Gamblo Is-bwyllgoryn dod gyda rhesymau am y penderfyniad. Hysbysir crynodeb o'r penderfyniad i bartïon y gwrandawriad, gydag amser targed o dri diwrnod, i'w arddangos ar wefan y Cyngor, neu cyn gynted â phosib ar ôl hynny, lle y bydd yn ffurfio rhan o'r gofrestr trwyddedu statudol.
- 3.8 Bydd Swyddogion Trwyddedu'r Cyngor yn delio â phob ymgais trwydded pan naill ai nid oes cynrychioliad perthnasol wedi'i dderbyn, neu pan fod cynrychioliadau wedi'u derbyn a mae'r partïon yn cytuno nad oes angen gwrandawriad.
- 3.9 Caiff adroddiad cyfnodol ei wneud i'r Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr ynglŷn â gweithred pwerau dirprwyedig.
- 3.10 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod aelodau a swyddogion perthnasol wedi'u hyfforddi'n briodol i weithredu eu dyletswyddau dan y Ddeddf.
- 3.11 Mae materion sy'n ymwneud â'r Ddeddf Trwyddedu 2003 i'w delio â fel y nodir yng nghynllun dirprwyo'r cyngor dan ei gyfansoddiad.

4. Egwyddorion sylfaenol

- 4.1 Mae trwyddedu yn ymwneud â rheoli safleoedd trwyddedig, clybiau cymwysedig a digwyddiadau dros dro o fewn termau'r Ddeddf 2003, ac efallai atodir amodau i drwyddedu, tystysgrifau a chaniatâd bydd yn cwmpasu materion sydd o fewn rheol trwyddedigion unigol.
- 4.2 Wrth ystyried yr amodau hyn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ffocysu'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd ar safleoedd trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, sy'n gweithio neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyffredin yn yr ardal dan sylw.
- 4.3 Ynghylch y mater hwn, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod bod yna, ac eithrio'r swyddogaeth trwyddedu, nifer o fecanweithiau ar gael i fynd i'r afael â materion gall ddigwydd i fwrdd o'r safle trwyddedig, gan gynnwys:
- Rheoliadau cynllunio;
 - Mesurau parhaol er mwyn creu awyrgylch diogel a glan yn yr ardaloedd hyn mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr trafnidiaeth ac adrannau eraill o'r Cyngor;

- Dynodi rhannau o Sir Fynwy fel mannau na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus;
- Ymgysylltu'n aml gyda'r heddlu ynglŷn â materion gorfodi'r gyfraith sy'n ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau cost benodedig, erlyn y rheini sy'n gwerthu alcohol i bobl sy'n feddw, atafaelu alcohol o oedolion a phlant mewn mannau penodedig a chau safleoedd trwyddedig neu ddigwyddiadau dros dro yn syth ar sail anhrefn, neu debygrwydd y bydd anhrefn neu sŵn gormodol yn dod o'r safle;
- Pŵer yr heddlu, awdurdod cyfrifol arall neu barti sydd â diddordeb i geisio adolygiad o'r drwydded neu dystysgrif.

5. Parthau ac oriau trwyddedu

5.1 Mae paragraffau 10.13 i 10.15 o Ganllawiau Adran 182 cyfredol y Llywodraeth yn nodi:

Oriau Masnachu

“Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gallai gwahanol strategaethau trwyddedu fod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu mewn gwahanol ardaloedd. Mae Deddf 2003 yn rhoi pŵer i'r awdurdod trwyddedu wneud penderfyniadau am yr oriau y gall mangre gynnal gweithgareddau trwyddedadwy fel rhan o'r gwaith o weithredu ei ddatganiad polisi trwyddedu. Awdurdodau trwyddedu sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau am oriau agor priodol yn eu hardaloedd yn seiliedig ar eu gwybodaeth leol ac mewn ymgynghoriad ag awdurdodau cyfrifol. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau trwyddedu ystyried pob cais bob amser a rhaid iddynt beidio â gosod oriau agor trwyddedig a bennwyd ymlaen llaw, heb roi ystyriaeth unigol i rinweddau pob cais.”

10.14 “Pan fo gwrthwynebiadau i gais i ymestyn oriau pan fydd gweithgareddau trwyddedadwy i'w cynnal a bod yr awdurdod trwyddedu yn penderfynu y byddai hyn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, gall wrthod y cais neu ei ganiatáu gydag amodau priodol a/neu oriau gwahanol. oddi wrth y rhai y gofynnwyd amdanynt. Fel arfer dylai siopau, siopau ac archfarchnadoedd fod yn rhydd i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle ar unrhyw adegau pan fo'r siop ar agor i siopa oni bai bod rhesymau da yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, dros gyfyngu ar yr oriau hynny.”

- 5.2 Wrth ddelio ag oriau trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn adnabod y gofyniad y bydd pob cais yn cael eu delio â ar eu haeddiant unigol. Serch hynny, nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n dymuno rhwystro'n ormodol datblygiad parhaol economïau lleol llewyrchus a diogel yn y nosweithiau a gyda'r nos sy'n bwysig ar gyfer buddsoddiad a chyflogaeth leol. Mae'r Awdurdod yn ystyried ei fod yn hanfodol creu cydbwysedd priodol rhwng anghenion economaidd safleoedd trwyddedig a hawliau preswylwyr lleol i allu mwynhau cyfanswm rhesymol o heddwch a thawelwch ar amserau sy'n sensitif i sŵn ac nad yw personau eraill yn profi goblygiadau cynnar yr economi hwyrnos. I'r perwyl hwn, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n barod i ystyried dynodi parthau yn ei ardal lle bydd oriau gweithredu am weithgareddau trwyddedig yn cael eu sefydlu. Caiff y rhain eu gosod yn yr achos y gwneir cynrychioliadau wrth ymgeisio oni bai bod yr Cymhwyster a Chymdeithas Gamblo Is-bwyllgorwedi'i berswadio na fydd yn briodol eu gosod yn amgylchiadau'r cais.
- 5.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n nodi bod Adran 182 o Ganllawiau'r Llywodraeth yn datgan y dylai "siopau ac archfarchnadoedd fel arfer bod yn rhydd i werthu alcohol i'w hyfed oddi ar y safle ar unrhyw adeg y bydd yr allfa adwerthu ar agor ar gyfer siopa oni bai bod yna rhesymau da, yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, i gyfyngu'r oriau hyn. Serch hynny, oherwydd y problemau a brofir mewn rhai cymunedau lleol yn Sir Fynwy sy'n deillio o argaeledd alcohol sydd ar werth mewn siopau lleol i'w yfed oddi ar y safle, penderfynodd yr Awdurdod hwn na fydd yn mabwysiadu'r safle cyffredinol hwn ond yn hytrach bydd yn disgwyl ymgeiswyr a deiliaid trwydded i fasnachu alcohol yn ystod oriau sy'n addas i'w hamgylchedd lleol unigryw. Felly, dylai ymgeiswyr ystyried yr oriau y maent yn ceisio amdanynt yn ofalus wrth greu eu hamserlen weithredu ac argymhellir trafod cais felly gyda'r Awdurdodau Cyfrifol priodol.
- 5.4 Yn yr achos y cyflwynir ceisiadau nad ydynt wedi dangos bod oriau masnachu alcohol priodol wedi'u hystyried yn gywir, mae'n debygol y gwneir cynrychioliadau gan yr awdurdodau cyfrifol perthnasol a'r cyhoedd. Bydd hyn yn oedi'r penderfyniad ynglŷn â'r cais ac yn arwain at gyfeirio'r cais at Cymhwyster a Chymdeithas Gamblo Is-bwyllgori'w benderfynu.
- 5.5 Unwaith y cyfeirir cais, neu drwydded gyfredol mewn achos adolygiad, i Is-bwyllgor, gellir disgwyl bydd yr Is-bwyllgor yn archwilio'r cais neu drwydded yn ofalus iawn ac yn cyrraedd penderfyniad ynglŷn â'r oriau. Caiff yr oriau priodol eu hystyried er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac efallai byddant hyd yn oed yn arwain at wrthod y cais neu ddirymu trwydded.
- 5.6 Er enghraifft, mewn ardaloedd lleol lle efallai y bydd clwstwr o yfwyr sy'n peri problem neu lle mae'n hysbys bod grwpiau o bobl wedi ymgynnull ac wedi

achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylai ymgeiswyr ystyried addasrwydd gwerthu alcohol yn gynnar yn y bore neu yn hwyr y nos yn ofalus iaw

- 5.7 Bydd oriau hwyrach yn gyffredinol yn fwy priodol o fewn canol trefi nag ardaloedd eraill o'r Sir oherwydd y seilwaith datblygedig o ran rheoli economi hwyr y nos er enghraifft rhwydwaith teledu cylch cyfyng, cynyddu mynediad i gludiant cyhoeddus, gwasanaethau glanhau a phresenoldeb gorfodi mwy gweladwy. Serch hynny, mae llawer o ardaloedd o'r trefi bellach yn datblygu i fod yn amgylchedd hybrid gyda chynnydd mewn caffis, hamdden a thai yn y trefi.
- 5.8 Yn gyffredinol, bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i oriau fod yn briodol ar gyfer yr ardal leol. Lle ceir sylwadau perthnasol, yr is-bwyllgor fydd yn penderfynu a ydynt yn cytuno ag unrhyw nodweddion ardal wrth ystyried cais ger eu bron, gan ystyried y wybodaeth a ddarparwyd iddynt yn ogystal â chymhwyso eu gwybodaeth leol eu hunain.
- 5.9 Ni chaiff oriau eu cwtogi fel arf bargeinio i gyfaddawdu; nid yw man cychwyn y cais yn bwysig - dyma'r canlyniad sy'n gorfod bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Anogir ymgeiswyr yn gryf i wneud cais am yr oriau y maent yn bwriadu eu gweithredu, ac mae'n bosibl y gallai peidio â gwneud cais am oriau hwyrach (digroeso) leihau'r tebygolrwydd o wrthwynebiadau yn erbyn y cais. Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y ffaith bod gan fangreodd eraill yn y cyffiniau oriau tebyg eisoes fel cyfiawnhad dros ganiatáu oriau tebyg neu estynedig.

Er y bydd ansawdd y lleoliad a'r gweithredwr yn ystyriaeth bwysig yn gyffredinol ac y gallai fod yn ystyriaeth berthnasol wrth gyfiawnhau priodoldeb awr derfyn ddiweddarach, yn aml mae y tu hwnt i allu'r gweithredwr i reoli effaith cwsmeriaid ar ôl iddynt adael. y fangre. Bydd hwyrni'r awr derfynol ar gyfer y safle yn aml yn ffactor sy'n cyfrannu at y risg o feddwod a'r posibilrwydd o aflonyddwch, ac felly gellir lleihau oriau trwyddedig i osgoi: Tebygolrwydd niwsans, Uchafbwyntiau gwasgaru. Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn ymwybodol o'r risg o amseroedd cau cyfnodol yn arwain at 'yfed mudol' a phroblemau ar y strydoedd wrth i gwsmeriaid symud o fariau caeedig i rai sydd ar agor.

5.10 **Amser gorffen yfed/pwyllo**

Er nad oedd yr amser gorffen yfed traddodiadol wedi'i gario drosodd i'r Ddeddf, mae'r Cyngor yn argymhell y dylai ymgeiswyr am safleoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol ar y safle ystyried cyfnod gorffen yfed/pwyllo. Yn ystod yr amser hwn gellir lleihau uchder y gerddoriaeth, gall gwsmeriaid gorffen eu diodydd a gallent wneud trefniadau am drafnidiaeth o'r safle. Mae'r Cyngor yn ystyried y

bydd amser gorffen yfed o 30 munud yn helpu gwasgaru cwsmeriaid yn raddol ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol posib i'r ardal o ganlyniad.

6. Galw masnachol

- 6.1 Nid mater i'r Awdurdod Trwyddedu bydd y galw masnachol am safleoedd trwyddedig ychwanegol (sy'n wahanol i effaith gronnus). Ystyriaeth benodol bydd y rhain i'r Awdurdod Lleol i ystyried gofynion y fasnach drwyddedig a gofynion y farchnad

7. Niweidiau Alcohol

- 7.1 Mae Canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol yn argymhell ei bod yn fwyaf diogel peidio yfed mwy na 14 uned yr wythnos yn rheolaidd er mwyn cadw risgiau iechyd o alcohol i lefel isel.

Mae sylfaen tystiolaeth gref dros effaith negyddol defnydd alcohol ar iechyd a llesiant. Cafodd defnydd alcohol ei adnabod fel ffactor achosol mewn mwy na 200 o gyflyrau meddygol, yn cynnwys afiechydon yr afu a'r galon, dementia, strôc, anhwylder sbectwm alcohol y ffetws a sawl math o ganser, yn cynnwys yr afu, ceg, y fron a'r coludd. Gall gael effaith negyddol ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol a bod â goblygiadau cymdeithasol hirdymor. Gall alcohol achosi risgiau ychwanegol i bobl ifanc, yn cynnwys cael effaith negyddol ar eu datblygiad gwybyddol a chymdeithasol.

Gall niweidiau cysylltiedig ac alcohol hefyd gynnwys, ymysg pryderon eraill, risg uwch o droseddu treisgar, heintiau a gaiff eu trosglwyddo'n rhywiol a damweiniau ffordd.

Mae alcohol yn achos sylweddol o farwolaeth a salwch yng Nghymru. Gan ddefnyddio data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a Gofal Iechyd Digidol Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi:

- Roedd 12,236 derbyniad i ysbyty yn benodol oherwydd alcohol yng Nghymru yn 2023/24 a 52,177 o dderbyniadau i ysbyty a briodolwyd i alcohol.
- Yn 2023 cafodd 683 o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol a 562 o farwolaethau penodol oherwydd alcohol eu cofrestru yng Nghymru. Mae hyn yn gynnydd o 10.5 a 15.6 yn yr un drefn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- 7.2 Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn cydnabod fod consensws gwleidyddol bod cymunedau yn cael mwy o broblemau pan mae alcohol yn fwy ar gael.

Er y gall gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac i'w werthu ymaith o'r safle arwain at wahanol fathau o niwediau am wahanol resymau, dangosodd ymchwil dro ar ôl tro bod argaeledd alcohol yn economaidd, daearyddol ac amserol yn cael effaith sylweddol ar lefel mathau o niwed yn gysylltiedig ag alcohol, yn cynnwys niwediau iechyd.

Dangosodd fod yr ystod amserau a dyddiau y mae alcohol ar gael ar werth yn cael effaith sylweddol ar y niweidiau a achosir gan alcohol. Mae hwylustod mynediad daearyddol hefyd yn cael effaith, fel y dangosir gan ymchwil sylweddol i ddwysedd safleoedd. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd yn 2017 fod polisïau Trwyddedu a weithredir yn rhagweithiol yn arwain at ostyngiad mewn derbyniadau yn gysylltiedig ag alcohol i ysbytai. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau y mae fframweithiau trwyddedu lleol a dulliau gorfodaeth trwyddedu yn dylanwadu arnynt.

- 7.3 Dangosodd ymchwil mai'r dull mwyaf effeithlon ac effeithiol o ran cost i fynd i'r afael â'r niwed o ddefnydd alcohol yw gostwng fforddiadwyedd, argaeledd a mynediad i alcohol. Dynododd Sefydliad Iechyd y Byd fod cyfyngu dwysedd safleoedd alcohol yn ddull effeithlon, seiliedig ar dystiolaeth o ostwng y niwed a'r anghyfartaledd sy'n gysylltiedig ag alcohol. Yn yr un modd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried fod gostwng argaeledd a mynediad i alcohol yn allweddol i ostwng niweidiau iechyd cysylltiedig ag alcohol.

Ni chaiff y niweidiau hyn eu profi'n gyfartal gan bobl ledled Cymru. Yn 2022-2023, nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y gyfran o'r holl gleifion a gafodd eu derbyn am gyflyrau penodol i alcohol oedd yn byw yn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru 2.8 gwaith yn uwch na'r rhai o'r ardaloedd lleiaf amddifadus. Mae hyn er bod y poblogaethau o oedolion yn yr ardaloedd hyn yn aml yn yfed tua'r un faint neu lai o alcohol na'r rhai mewn ardaloedd llai amddifadus. Mae'r WHO yn nodi fod mwy o grynhoad o sefydliadau alcohol hefyd yn tueddu i fod mewn ardaloedd mwy amddifadus, a all hefyd wedyn brofi mwy o'r niweidiau cymdeithasol ac amgylcheddol cysylltiedig.

- 7.4 Bwriad Deddf Trwyddedu 2003 yw rheoleiddio'r cyflenwad o alcohol. O'r herwydd, trwyddedu felly yw'r dull allweddol ar gyfer rheoleiddio argaeledd alcohol, drwy reoleiddio'r amserau a'r dyddiau o'r wythnos y gall alcohol gael ei werthu, y safleoedd a all gyflenwi alcohol a'r amodau gwerthu.

- 7.5 Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod yr effaith negyddol sylweddol a gaiff alcohol ar iechyd ein preswylwyr, a chaiff hynny ei adlewyrchu mewn derbyniadau i ysbytai a marwolaethau o salwch ac anafiadau cysylltiedig ag alcohol (gweler isod).

Mae lefelau defnydd alcohol gan oedolion a hefyd bobl ifanc yn Sir Fynwy yr uchaf yng Ngwent ac ymysg yr uchaf yng Nghymru. Dengys data Arolwg Cenedlaethol Cymru safonedig o ran oedran ar gyfer 2021-22 a 2022-23 ar gyfer Sir Fynwy bod:

- 24.2% o unigolion 16+ oed yn adrodd eu bod ar gyfartaledd yn yfed mwy o alcohol yn wythnosol na'r canllawiau. Y cyfartaledd yw 16.8% ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, a 16.4% ar gyfer Cymru.
- 20.3% o unigolion 16+ yn adrodd fod faint o alcohol o yfant ar gyfartaledd yn beryglus a 3.8% yn adrodd eu bod yn yfed i lefelau niweidiol. Y cyfartaleddau ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw 14.5% a 2.2% yn yr un drefn, ac i Gymru yn 13.9% a 2.5% yn yr un drefn.
- 13.1% o unigolion 16+ oed yn adrodd nad ydynt yn yfed unrhyw alcohol bob wythnos ar gyfartaledd. Y cyfartaledd ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw 18.8% a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yw 17.9%.

Dengys data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion ar gyfer Sir Fynwy yn 2023 bod:

- 40% o wrywod 11-16 oed yn adrodd eu bod yn yfed alcohol. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru (33.8%).
- 41.1% o fenywod 11-16 oed yn adrodd eu bod yn yfed alcohol. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru (37.1%).

Roedd 994 derbyniad ysbyty a briodolwyd i alcohol fesul 100,000 o boblogaeth (EASR) yn Sir Fynwy yn 2023-2024. Gostyngodd y gyfradd gan 6% ers data 2018-2019. Cyfradd Cymru yw 1,001, sy'n ostyngiad o 18% ers 2018-2019.

Roedd 208 derbyniad ysbyty penodol oherwydd alcohol fesul 100,000 o'r boblogaeth (EASR) yn Sir Fynwy yn 2022-2023. Mae'r gyfradd wedi gostwng gan 28% ers data 2018-2019. Cyfradd Cymru yw 258, sy'n ostyngiad o 25% ers 2018-2019.

Er y gostyngiadau hyn, mae marwolaethau penodol oherwydd alcohol wedi cynyddu. Roedd 33 farwolaeth penodol oherwydd alcohol yn Sir Fynwy rhwng 2021 a 2023. Mae hyn yn gyfradd safonedig o ran oedran o 10.5 farwolaeth fesul 100,000 o boblogaeth (dros groniad treigl 3-mllynedd). Mae'r gyfradd hon wedi cynyddu o 9.4% ar gyfer 2019 i 2021. Cyfradd Cymru ar gyfer 21-23 oedd 16.

Er fod y cyfraddau uchod o niweidiau alcohol yn Sir Fynwy yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, gellir atal pob derbyniad i ysbyty a marwolaeth penodol oherwydd alcohol.

- 7.6 O fewn cyd-destun hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig amodau trwyddedau i liniaru yr effaith y gall eu safle ei gael ar iechyd a llesiant eu cwsmeriaid, eu cymdogaeth a'r

gymuned ehangach, sydd yn neilltuol o bwysig mewn ardaloedd o ddefnydd uwch o alcohol ac ardaloedd o amddifadedd uwch. I gael enghreifftiau o amodau trwyddedu a all hyrwyddo iechyd a llesiant, gellir cyfeirio at 'Gronfa Model Amodau' Cyngor Sir Fynwy.

- 7.7 Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr ystyried yr effaith y gall eu safle ei gael ar leoliadau sensitif a phobl sy'n fregus i ddefnydd alcohol, yn arbennig i gyfleusterau addysg, plant a phobl ifanc ac i gyfleusterau trin alcohol a phobl gydag anhwylderau defnydd alcohol. Caiff gwasanaethau triniaeth alcohol a gomisiynwyd eu gosod o fewn y cymunedau a wasanaethant. Gall argaeledd alcohol yn agos at wasanaethau triniaeth greu problemau penodol ar gyfer darparwyr triniaeth a derbynwyr, tebyg i gynyddu awydd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr ystyried a lliniaru'r niwed drwy gynnwys amodau trwyddedu pan mae eu safle yn agos i leoliad gwasanaethau triniaeth, ac ardaloedd lle gall plant a phobl ifanc ymgynnull, tebyg i ysgolion, clybiau ieuenctid a pharciau.

8. Cyffuriau

- 8.1 Mae'r niwed o gamddefnyddio cyffuriau yn niferus, ac nid yw'n gyfyngedig i niwed iechyd. Roedd lefelau marwolaethau cyffuriau Cymru ar eu lefel uchaf erioed yn 2018-19 gyda marwolaethau o ganlyniad i wenwyno cyffuriau wedi cynyddu 78% dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n ymddangos bod marwolaethau cyffuriau yn digwydd fwyfwy mewn pobl sy'n defnyddio cyffuriau ar sail hamdden.
- 8.2 Mae marchnad gyffuriau'r DU yn datblygu'n gyflym, gyda chyffuriau stryd cyffredin yn parhau i gynyddu mewn cryfder a phurdeb, ac amrywiaeth gynyddol o sylweddau mewn cylchrediad. Mae gan drwyddedu rôl i leihau'r niwed o gamddefnyddio cyffuriau yn Economi'r Nos a'n safleoedd trwyddedig.
- 8.3 Lle bod materion pryderus, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl gweld tystiolaeth bod y polisi cyffuriau wedi'i weithredu a'i adolygu.
- 8.4 O fewn cyd-destun hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ar gyfer atal trosedd ac anhrefn a sicrhau diogelwch cyhoeddus, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl bod ymgeiswyr a thrwyddedigion yn:
- Cymryd pob cam i atal mynediad cyffuriau i safleoedd trwyddedig
 - Cymryd pob cam rhesymol i atal cyffuriau rhag newid dwylo o fewn y safle

- Hyfforddi staff i adnabod arwyddion camddefnydd cyffuriau mewn pobl fel y gellir cymryd camau ymarferol i ddelio ag achosion sy'n digwydd
- Cael staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas i ddelio ag achosion sy'n ymwneud â chyffuriau
- Arddangos gwybodaeth ymwybyddiaeth cyffuriau i gwsmeriaid
- Cynnig ystafell cymorth cyntaf ac offer cymorth cyntaf, gan gynnwys diffibriliwr mewn lleoliadau mwy
- Defnyddio staff sydd wedi'u hyfforddi i helpu â digwyddiadau meddygol
- Gweithredu polisi gwahardd priodo
- Swabio cyffuriau
- Chwiliadau o'r eiddo
- Mesurau ffisegol i atal y defnydd o gyffuriau ar y safle
- Arwyddion a gwybodaeth lles yn y lleoliad

- 8.5 Ar gais Heddlu Gwent, bydd angen i safleoedd atafaelu, cadw a dogfennu unrhyw gyffuriau sy'n cael eu darganfod, gyda llwybr archwilio clir a phroses ildio yn unol â pholisi ysgrifenedig Heddlu Gwent. Yn ogystal, yn niddordeb Trosedd ac Anhrefn, bydd Heddlu Gwent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod safleoedd trwyddedig yn caniatáu defnydd y peiriant ION Track ar eu safle er mwyn helpu gydag adnabod y mannau lle efallai y defnyddir cyffuriau ar y safle.
- 8.6 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod nad rhywbeth sy'n berthnasol i bob safle trwyddedig yw camddefnydd cyffuriau. Serch hynny, mae wedi'i ymrwymo i leihau a cael gwared ar gyffuriau lle bo'n bosibl o safleoedd trwyddedig fel rhan o'i rôl yn hyrwyddo'r amcan trwyddedu trosedd ac anhrefn. Mae'r awdurdod trwyddedu'n disgwyl bod pob deiliad trwydded yn cefnogi'r nod hwn yn weithredol yn y ffordd yr ydynt yn cynllunio, yn rheoli ac yn gweithredu safleoedd.
- 8.7 Os dderbynnir cynrychioliadau perthnasol i gais am grant neu amrywiad i drwydded efallai y sefydlir amodau arbennig er mwyn helpu atal cyflenwad neu ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau rheoledig. Gofynnir am gyngor ynglŷn ag amodau gan yr heddlu neu unrhyw sefydliad perthnasol arall sy'n cymryd rhan mewn rheoli cyffuriau rheoledig neu yng nghymorth a/ neu driniaeth defnyddwyr cyffuriau.
- 8.8 Mewn safleoedd lle bod camddefnyddio cyffuriau'n peri problem a lle bod unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson arall yn ceisio adolygiad o'r drwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried bod hyn yn ddifrifol iawn a bydd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r ystod eang o opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys atal a dirymu'r drwydded yn unol â'r canllaw statudol y cyflwynwyd gan yr ysgrifennydd gwladol. Mae'r awdurdod trwyddedu'n adnabod bod pob achos yn unigryw a byddant yn cael eu penderfynu ar eu ffeithiau a haeddiannau penodol eu hunain.

8.9 Mae Sir Fynwy wedi ymrwymo i sicrhau bod Sir Fynwy yn Sir ddiogel a chroesawgar i bawb, waeth beth fo'u rhyw, ethnigrwydd, rhywioldeb, credoau neu gefndir. Yn anffodus, nid yw hyn bob amser yn wir. Mae'r cynnydd yn yr adroddiadau am sbeicio diodydd yn genedlaethol a'r galw am wasanaethau lles a'r heddlu yn dangos bod gwaith partneriaeth sylweddol yn parhau i ddatblygu economi nos Sir Fynwy ymhellach i wella diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig i'r holl ymwelwyr, preswylwyr a'r rhai sy'n gweithio yn y Sir yn nos.

Mae'r polisi hwn yn anelu at sicrhau bod bregusrwydd a diogelwch personol yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniadau yn economi'r nos ac yn hwyr y nos ledled y Sir. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n parhau i adolygu nifer yr achosion o aflonyddu rhywiol a chamymddwyn a thrais ar sail rhywedd a'u hatal ac adrodd arnynt.

Anogir gweithredwyr yn gryf i ddatblygu polisi lleihau niwed ar gyfer eu busnes a sicrhau mesurau digonol i amddiffyn a darparu cefnogaeth i gwsmeriaid mewn digwyddiadau sbeicio a bregusrwydd.

Ein nod yw hyrwyddo arferion gorau, gan gynnwys [safonau arfer da Cymdeithas y Diwydiant Liw Nos \(NTIA\)](#) ar gyfer ymdrin â sbeicio a chael dyletswydd gofal ar gyfer cwsmeriaid (gweler y camau i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu) yn ogystal ag integreiddio ag eraill sy'n ymwneud â diogelwch. mentrau yn y Sir.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn hyrwyddo ymgyrchoedd sy'n helpu i ddileu risgiau i bobl agored i niwed sy'n ymweld neu'n gweithio mewn eiddo trwyddedig. Enghreifftiau o hyn fyddai'r cynllun 'lle diogel' a'r cynlluniau 'gofynnwch am Angela'. Mae Swyddogion Trwyddedu yn ceisio gweithio'n agos gyda deiliaid trwyddedau i annog ymgysylltiad cadarnhaol ag ymgyrchoedd o'r fath ac i helpu i hyrwyddo ac egluro pwysigrwydd cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

9. Amcanion Trwyddedu

9.1 Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu dyletswydd dan y Ddeddf i weithredu ei swyddogaethau gyda golwg ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yr amcanion trwyddedu (lle bod gan bob un pwysigrwydd cyfartal) yw:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch cyhoeddus;
- Atal niwsans cyhoeddus;
- Diogelu plant rhag niwed.

- 9.2 Adnabyddir nad y prif ddull er mwyn diogelu gweithrediad yr amcanion hyn yw'r swyddogaeth drwyddedu. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu felly'n parhau i weithio mewn partneriaeth â'u hawdurdodau cyfagos, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Mewnffudo, Grŵp Sir Fynwy Saffach, busnesau lleol, trwyddedigion a phobl leol tuag at hyrwyddo'r amcanion.

10. Atal trosedd ac anhrefn

- 10.1 Gall safleoedd trwyddedig, yn enwedig y rheini sy'n cynnig adloniant hwyrnos/yn gynnar yn y bore, alcohol a lluniaeth ar gyfer niferoedd mawr o bobl, bod yn ffynhonnell i broblemau trosedd ac anhrefn.
- 10.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl bod amserlenni gweithredu (gweler adran 27) yn mynd i'r afael mewn ffordd foddhaol â'r materion hyn, o ddyluniad y safle i weithred y busnes o ddydd i ddydd. Rhodir manylion o'r ffactorau y bydd angen eu hystyried fel rhan o'r amserlenni gweithredu yn y Polisiâu Trwyddedu yn ogystal â materion i'w hystyried wrth benderfynu ceisiadau, sydd ynghlwm yn yr atodiad i'r polisi hwn ac yn y nodiadau Canllawiau i ymgeiswyr.
- 10.3 Argymhellir bod ymgeiswyr yn ceisio cyngor swyddogion trwyddedu'r Awdurdod Lleol a'r heddlu, yn ogystal ag ystyried, lle bo'n briodol, polisiâu cynllunio a thrafnidiaeth leol, twristiaeth a strategaethau diwylliannol ac atal trosedd, wrth baratoi eu cynlluniau a'u hamserlenni gweithredu.
- 10.4 Dylai'r Trwyddedai/ymgeisydd hefyd defnyddio eu profiad eu hun ac adnabyddiaeth o'u cwsmeriaid a'u lleoliad wrth ddrafftio eu hamserlen gweithredu, sy'n dod yn sail yr amodau ar y drwydded wedi hynny. Gall methu â gwneud hyn arwain at gynrychioliad o'r Awdurdod, yr awdurdod cyfrifol neu berson arall. Efallai bydd ymgeiswyr yn dymuno ystyried y canlynol a chynghorir eu bod yn cyfeirio at 'Gronfa Amodau Model' yr Awdurdod wrth ystyried cais.
- Oes yna CCTV, ac os oes, beth yw'r manau dan sylw, oes ganddo'r gallu i weld recordiad gydag wyneb llawn o gwsmeriaid sy'n dod i mewn, a yw'n recordio'r man chwilio cwsmeriaid ar y fynedfa? Beth yw cyfnod cadw'r recordiadau, pa mor hawdd ydyn nhw i'w cyrchu, i greu copïau ohonynt neu i lawrlwytho delweddau os y gofynnir amdanynt gan yr Heddlu a Thrwyddedu?
 - A oes staff drws yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) wedi'u cyflogi a pha wiriadau a wneir i ddilysrwydd y drwydded SIA? Pa gofnodion a gedwir o wiriadau SIA, o'r polisi chwilio, y polisi mynediad, o gyfyngu cwsmeriaid rhag defnyddio manau awyr agored megis manau ysmegu, o amserau cyflogi'r SIA a'u hyfforddiant?

- Oes gweithdrefn sganio ID wrth fynd i mewn i'r safle? A fydd yna bolisi 'Dim ID Dim Mynediad' yn gweithredu?
- Oes yna bolisi cyffuriau ac arfau clir? Oes yna hyfforddiant rheolaidd wedi'i ddogfennu o'r polisi hwn a weithredir â staff pan fydd cyffuriau/arfau'n cael eu hatafaelu neu storio? A yw mannau neu arwynebau wedi'u dylunio er mwyn atal tebygolrwydd defnydd cyffuriau ar y safle?
- A yw defnydd plastig neu wydr gwydn ar gyfer cynnig alcohol wedi'u hystyried, a fydd poteli plastig yn cael eu pasio dros y bar? A oes gyfyngiadau ynglŷn â chymryd diodydd tu fas?
- A oes gynllun profi oedran, a oes gan y safle polisi her 25? A yw staff yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd ynglŷn â'r polisi hwn ac a yw wedi'i ddogfennu?

10.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod, er bod Heddlu Gwent a gwasanaethau cyfiawnder troseddol eraill yn dioddef y baich adnoddau mwyaf o drosedd ac anhrefn meddir eu hatal sy'n ymwneud ag alcohol, mae yna effaith hefyd ar y system iechyd. Mae gan bresenoldeb a derbyniadau sy'n ymwneud ag alcohol effaith negyddol ar adnoddau cyfyngedig y GIG, ar staff ac ar gleifion eraill. Mae anaf corfforol ac effeithiau seicolegol digwyddiadau treisgar yn effeithio iechyd a lles unigolion, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u cydweithwyr, ein staff gwasanaeth cyhoeddus a staff safleoedd trwyddedig sy'n delio â'r digwyddiadau hyn, a'r gymuned leol yn uniongyrchol. Bydd Awdurdodau Cyfrifol yn gweithio gyda'i gilydd, yn rhannu'r data lleol sydd ar gael i gyd, ac yn defnyddio ffynonellau data'r GIG er mwyn hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwn.

10.6 Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i leihau trosedd ac anhrefn ledled y Sir yn unol â'i ddyletswydd statudol dan a.17 o'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

10.7 Mae Cyngor Sir Fynwy, trwy asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth, yn bwriadu nodi ac atal camfanteisio rhywiol, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Gall deiliaid trwydded helpu oherwydd efallai byddant yn dod yn ymwybodol o neu'n dod mewn cysylltiad â dioddefwyr felly. Gall hyn fod mewn gwestai, bariau a bwytai, bwytai parod hwyrnos, siopau sy'n gwerthu alcohol neu safleoedd trwyddedig eraill. Mae deiliaid trwydded, a staff sydd wedi'u cyflogi mewn safleoedd trwyddedig, mewn safle delfrydol i helpu diogelu pobl.

Mae caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn droseddau ac yn torri hawliau dynol sylfaenol, a gallent gymryd ffurfiau gwahanol megis caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol. Dylai'r deiliad trwydded a staff sy'n gweithio mewn safleoedd trwyddedig edrych am a gofyn y canlynol i'w hunain:

- A oes gan y person unrhyw arwyddion corfforol o gamdriniaeth neu esgeulustod? Heb fwyd, dŵr, gofal meddygol neu angenrheidiau bywyd eraill?
- Rydych yn gweld ymddygiad pryderus tuag at rywun.
- A oes gan y dioddefwr basbort, dogfen adnabod neu ddogfennau teithio? A yw'r dogfennau hyn ym meddiant rhywun arall?
- A yw'r dioddefwr yn ymddwyn fel eu bod wedi cael eu cyfarwyddo neu eu hyfforddi gan rywun arall? A ydynt yn gadael i bobl eraill siarad pan fyddant yn cael eu siarad â'n uniongyrchol?
- A oedd y dioddefwr wedi'i recriwtio am un diben a'u gorfodi i ymgymryd â swydd arall? A dalwyd am eu cludiant gan hwyluswyr, y mae'n rhaid iddynt dalu yn ôl trwy gynnig gwasanaethau?
- A yw'r dioddefwr yn derbyn ychydig neu ddim taliad am eu gwaith? A yw rhywun arall yn rheoli eu henillion?
- A orfodwyd y dioddefwr i wneud gweithredoedd rhywiol?
- A oes gan y dioddefwr y rhyddhad i symud? Oes modd rhydd iddynt gysylltu â ffrindiau a theulu? A oes ganddynt ryngweithiad cymdeithasol cyfyngedig?
- A yw'r dioddefwr neu'r teulu wedi cael eu bygwth gan niwed os yw'r dioddefwr yn ceisio dianc?
- A yw'r dioddefwr wedi'i glymu gan ddyled, neu mewn sefyllfa o ddibyniaeth?

Os oes unrhyw bryder, rhaid i'r deiliad trwydded adrodd y mater i'r llinell cymorth Caethwasiaeth Fodern ar 08000 121 700 neu ymweld â'r wefan <https://www.modernslaveryhelpline.org/report> neu gallant adrodd i Drwyddedu ar 01873 735420 neu ebost licensing@monmouthshire.gov.uk. Os yw rhywun mewn perygl enbyd, i alw'r heddlu ar 999.

Yn ogystal, rhaid bod gan bob staff sydd wedi'u cyflogi yn y DU yr hawl i weithio yn y DU. Gall cyflogi rhywun yn anghyfreithlon heb weithredu'r gwiriadau rhagnodedig arwain at sancsiynau cadarn yn erbyn y deiliad trwydded.

11. Atal niwsans cyhoeddus

- 11.1 Mae gan safleoedd trwyddedig potensial sylweddol i gael effaith negyddol ar bobl sy'n byw ac yn gweithio (gan gynnwys y rheini sy'n parhau â busnes) yn yr ardal o amgylch eu safle, yn ogystal ag yn fwy eang trwy niwsans cyhoeddus sy'n deillio o'u gweithrediad. Mae felly'n bwysig bod, wrth ystyried hyrwyddiad yr amcan trwyddedu hwn, mae'r Awdurdodau Trwyddedu a'r Awdurdodau Cyfrifol yn ffocysu ar effaith gweithgareddau trwyddedadwy ar y safle penodol ar y partion hyn efallai sy'n anghyfartal ac yn afresymol.

- 11.2 Mae diffiniad yr hyn y gellir ei ystyried fel 'niwsans cyhoeddus' posib neu wir i'w ddehongli yn unol â chyfraith gyffredin eang sy'n golygu ei fod wedi'i sefydlu trwy gyfraith achos berthnasol. Hwn yw'r dehongliad bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gweithredu wrth ystyried materion felly. Derbynnir bod materion sy'n arwain at 'niwsans cyhoeddus' yn bennaf yn cynnwys materion sy'n ymwneud â sŵn, llygredd golau, drewdod a sbwriel. Gall hefyd godi oherwydd effeithiau negyddol llwch, pryfed, croniadau neu unrhyw fater arall y penderfynir ei fod yn cael effaith negyddol ar amgylchedd byw a gweithio pobl eraill sy'n byw ac yn gweithio yn ardal y safle trwyddedig.

Yn amlwg, mae gan eiddo trwyddedig gyfrifoldeb o dan yr amcan Niwsans Cyhoeddus i glirio sbwriel a achosir gan gwsmeriaid yn agos at y safle trwyddedig. Cynghorir eiddo i godi sbwriel yn rheolaidd a darparu biniau digonol ar gyfer eu cwsmeriaid. Anogir ymgeiswyr i ddangos yn eu Hamserlen Weithredu pa fesurau addas a digonol sydd wedi'u nodi ac a fydd yn cael eu gweithredu a'u cynnal i atal niwsans cyhoeddus gan gynnwys sbwriel.

Gall safleoedd trwyddedig o bob math achosi niwsans cyhoeddus oherwydd sbwriel a gwastraff. [Yng Nghymru mae'r gyfraith wedi newid, yn ymwneud â chasglu gwastraff yn briodol a'i waredu i'w ailgylchu](#). Mae 'dyletswydd gofal' i sicrhau bod unrhyw wastraff yn cael ei gadw a'i reoli'n briodol tra ym meddiant y gweithredwr, a'i fod yn cael ei gasglu gan gludwr gwastraff ag enw da. Nid yw'r Ddeddf Trwyddedu yn dyblygu'r gyfraith hon, ond bydd angen i ddeiliaid trwydded ddefnyddio arferion rheoli gwastraff da er mwyn atal niwsans cyhoeddus. Mae sbwriel heb ei reoli, gwastraff a baw stryd yn hyll a gall arwain at ddelwedd negyddol o'r ardal. Gall achosi arogl annymunol, gall ddenu llygod mawr a phryfed ac felly gall fod yn risg i iechyd y cyhoedd, gall achosi i bobl lithro, baglu ac anafu eu hunain, a gall niweidio enw da busnes deiliad y drwydded. Mae enghreifftiau nodweddiadol o sbwriel, gwastraff a baw stryd a all achosi problemau yn cynnwys pecynnau tecawê a bwyd a ollyngir gan gwsmeriaid, gwastraff a chwythwyd gan y gwynt a sbwriel o ardaloedd storio sbwriel, poteli wedi'u taflu a'u torri, gwydrau a chaniau, taflenni hyrwyddo (taflenni) a posterï, bonion sigarêts a gwm cnoi wedi'u taflu gan gwsmeriaid a phobl sydd wedi yfed gormod o alcohol yn troethi ac yn chwydu ar y stryd.

Dylid cymryd camau i atal gosod posterï'n anghyfreithlon a phroblemau sbwriel sy'n codi o ddosbarthu taflenni hysbysebu'r safle neu ddigwyddiadau yn y safle. Dylai'r ymgeisydd geisio lleihau'r defnydd o daflenni hyrwyddo a dim ond dosbarthu taflenni yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Ni ddylid gadael taflenni ar sgriniau gwynt cerbydau. Sicrhewch fod bin sbwriel yn agos at y pwynt dosbarthu a chliriwch daflenni wedi'u taflu wedyn. Dylai'r ymgeisydd hefyd

symud unrhyw graffiti a phosteri anghyfreithlon oddi ar eu harwynebau cyn gynted ag y mae'n ymddangos.

- 11.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod efallai taw ffactor bwysig ar gyfer iechyd a lles bydd cyfyngu'r niwsans cyhoeddus sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig a'u gweithrediad.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod y cysylltiadau allweddol gydag iechyd a lles o niwsans cyhoeddus sy'n ymwneud â chwsg aflonydd, straen a achosir gan niwsans a llygredd. Gall chwsg aflonydd a straen ychwanegu at broblemau iechyd meddyliol a chorfforol preswylwyr, a'u lles ehangach. Gall diffyg cwsg gael effaith ar y system imiwnedd a gall gyfrannu at glefyd y galon a diabetes. Gall diffyg cwsg hefyd gyfrannu at bryder ac iselder. Gall straen gyfrannu at bryder ac iselder, ac at glefydau cardiofasgwlaidd.

Dylai ymgeiswyr ystyried yr effaith bosib y bydd ei safle'n ei chael ar niwsans cyhoeddus yn enwedig o sŵn a dylent osod mesurau lliniaru.

- 11.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl bod ymgeiswyr am drwyddedau safleoedd a thystysgrifau safleoedd clwb wedi gwneud ymholiadau ac ystyriaethau perthnasol ynglŷn â'r ardal leol cyn cyflwyno eu cais. Bwriad hyn yw galluogi'r ymgeisydd i ystyried y rheoliadau mwyaf addas i'w cynnwys efallai yn yr amserlen weithredu gyda golwg ar sicrhau nad yw eu gweithgareddau'n tanseilio'r amcan trwyddedu mewn perthynas ag atal niwsans cyhoeddus. Mae'n bwysig adnabod nad yw effeithiau gweithred trwyddedig wedi'u cyfyngu o fewn adeilad. Mae'n anochel bod effaith ehangach wrth i bobl teithio i ac o'r safle neu wrth iddynt ymgynnull tu fas wrth iddo weithredu. Rheolir niwsans yn y modd gorau trwy ystyriaeth ofalus, addasrwydd y safle sy'n cael ei ddewis ac unrhyw lliniaru sydd ei angen yn gynnwys yn y broses.

- 11.5 Caiff ymgeiswyr eu hannog i ddangos yn eu Hamserlen Weithredu bod mesurau addas a digonol wedi cael eu hadnabod ac y byddant yn cael eu gweithredu a'u cynnal er mwyn atal niwsans cyhoeddus. Pan fydd safle addas yn cael ei adnabod, dylid paratoi amserlenni gweithredu ar sail asesiad risg y ffynonellau niwsans posib a berir gan weithred y safle i'r rheini efallai sy'n cael eu heffeithio gan eu gweithgareddau. Dylai'r amserlen weithredu dangos dealltwriaeth o lefel risg y niwsans a chynnwys mesurau positif i reoli unrhyw risg bosib.

- 11.6 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n argymhell bod trwyddedigion yn gosod safon uchel o reolaeth er mwyn lleihau'r potensial am unrhyw niwsans cyhoeddus efallai bydd yn deillio o'u gweithred o'r safle, yn enwedig pan:
- ydynt wedi'u lleoli mewn ardal breswyl neu sy'n sensitif i sŵn; neu
 - y cynigir oriau agor estynedig.

- 11.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod bod y rheolaeth y gall deiliad trwydded ei chael dros ei gwsmeriaid yn lleihau y tu hwnt i'r ardal gyfagos o amgylch y safle trwyddedig a bod unigolion sy'n ymgymryd ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn atebol ynddynt eu hunain. Serch hynny, anogir ymgeiswyr i ystyried y gweithrediadau gallent eu cymryd fel deiliad cyfrifol er mwyn lliniaru effaith negyddol posib eu cwsmeriaid. Dylai'r amserlen weithredu eto cael ei defnyddio er mwyn dangos dealltwriaeth o'r risgiau sy'n bosib a'r mesurau positif y gellir eu gweithredu er mwyn rheoli materion o'r fath.
- 11.8 Anogir ymgeiswyr i ymgysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu ac Awdurdodau Cyfrifol perthnasol eraill (megis Iechyd Amgylcheddol) yn gynnwys yn y broses a cyn cyflwyno cais, lle bynnag y bo hynny'n rhesymol yn ymarferol. Bydd modd i'r Awdurdodau hyn cynnig cyngor sy'n ymwneud â mesurau rheolaeth priodol y gellir eu gosod a'u cynnwys yn yr amserlen weithredu, er mwyn lliniaru'r risg bosib bod niwsans cyhoeddus yn digwydd.
- 11.9 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoli Sŵn a Seinwedd.**
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y cyfeirir ati wedi hyn fel Deddf LICD 2015) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol gan gynnwys yr Awdurdod Trwyddedu i ymgorffori egwyddorion datblygiad cynaliadwy sydd â'r nod o gyflawni saith amcan lles rhagnodedig fel rhan o'u gweithred sylfaenol; mae hyn yn cynnwys cyflawni eu swyddogaeth Drwyddedu. Un o'r manau conglafen i ystyried yw rheoli sŵn a'i effaith ar iechyd a lles.
- 11.10 Nid yw'r canllaw Trwyddedu Statudol a gyflwynwyd dan Adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn cynnig unrhyw gyfeirnod ar hyn o bryd ynglŷn â sut ddylai Awdurdodau Trwyddedu rhoi sylw'n weithredol i anghenion Deddf LICD 2015 yn benodol fel y gall ymwneud â hyrwyddiad yr Amcan Trwyddedu, sef Atal Niwsans Cyhoeddus. Mae'n glir serch hynny yng 'Nghynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd' Llywodraeth Cymru bod yna gydnabyddiaeth o effaith sŵn. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw i'r cynllun gweithredu hwn wrth benderfynu ynglŷn â cheisiadau (cyfeiriwch at adran 17 Integreiddio strategaethau isod, os gwelwch yn dda).

12. Diogelwch cyhoeddus

- 12.1 Mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i sicrhau nad yw diogelwch unrhyw berson sy'n ymweld â neu'n gweithio mewn safle trwyddedig dan fygythiad. Disgwylir bod ymgeiswyr yn dangos yn eu Hamserlen Weithredu bod mesurau addas a digonol wedi cael eu hadnabod a byddant yn cael eu gweithredu a'u cynnal er

mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, yn ôl steil a chymeriad unigryw eu safle a'u digwyddiadau. Argymhellir bod ymgeiswyr yn ceisio cyngor o wahanol sefydliadau, megis swyddogion gorfodi iechyd a diogelwch Sir Fynwy, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ayyb cyn paratoi eu cynlluniau a'u hamserlenni, yn enwedig mewn achosion lle y cynigir adloniant rheoledig.

12.2 Cyflwynodd Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Diogelwch Tân) 2005 gofyniad y dylai unrhyw berson sy'n gyfrifol am reoli safle gymryd asesiad addas a digonol o'r risgiau efallai y bydd pobl yn agored iddynt at ddiben nodi'r rhagofalon tân cyffredinol bod angen eu cymryd. Felly, ni chaniateir gosod unrhyw amod ar awdurdodiad pan mae'n ymwneud â diogelwch tân yn uniongyrchol. Disgwylir felly y bydd deiliaid awdurdodiad yn gweithredu asesiad risg trylwyr caiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n aml. Dylid cadw'r asesiad risg ar y safle ac ar gael ar gais gan unrhyw swyddog Cyngor awdurdodedig.

12.3 Lle bod ymgeisydd yn adnabod problem yn ymwneud â diogelwch cyhoeddus, sydd heb ei chwmpasu gan ddeddfwriaeth gyfredol, dylai'r ymgeisydd nodi'r camau caiff eu cymryd er mwyn sicrhau diogelwch cyhoeddus yn yr amserlen weithredu.

Efallai bydd y materion canlynol yn berthnasol, yn dibynnu ar steil a chymeriad unigol y safle a/neu ddigwyddiadau:

- Y nifer o bobl sy'n mynychu'r safle/y lefelau o bobl sy'n ddiogel (gall ffactorau gynnwys mynediad ac allanfa, llif o amgylch y safle, lefelau cysur, darpariaethau eistedd, mannau dawnsio, hygyrchedd bariau ayyb);
- Oedran, cyflwr, dyluniad a chynllun y safle, gan gynnwys modd dianc mewn achos argyfwng;
- Natur y gweithgareddau i'w cynnig, yn benodol gwerthu neu gyflenwi alcohol a/neu ddarpariaeth cerddoriaeth a dawnsio gan gynnwys os yw'r gweithgareddau hynny o natur dros dro neu barhaol;
- Oriau gweithredu, yn gwahaniaethu oriau agor oddi wrth yr oriau y cynigir gweithgareddau trwyddedig;
- Proffil cwsmeriaid (e.e. oedran, anabledd ayyb);
- Defnydd effeithiau arbennig megis laserau, pyrotechnegau, peiriannau mwg, peiriannau swigod ayyb;
- Trydanwaith a gwresogi fel rhan o'r asesiad risg.

12.4 Ystyrir bod yr esiamplau canlynol o fesurau rheoli yn bwysig a dylai ymgeiswyr eu hystyried yn eu Hamserlenni Gweithredu, gan roi sylw i'r fath benodol o safle a/neu ddigwyddiadau -

- Asesiadau risg addas a digonol;

- Rheolaeth effeithiol a chyfrifol o safleoedd;
- Darpariaeth nifer digonol o bobl sydd wedi'u cyflogi neu eu hymgysylltu i sicrhau diogelwch pawb sy'n mynychu'r safle neu'r digwyddiad;
- Cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth priodol o'r rheini sydd wedi'u cyflogi neu eu hymgysylltu er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n mynychu'r safle;
- Mabwysiadu'r canllawiau arferion gorau (gellir cael cymorth trwy gysylltu â sefydliadau megis Iechyd Amgylcheddol, Diogelwch Tân a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch);
- Darpariaeth CCTV effeithiol tu fewn ac o amgylch y safle;
- Gweithredu mesurau rheoli torf;
- Profi rheolaidd (ac ardystiad lle bo'n briodol) o weithdrefnau, offer, systemau ayyb sy'n ymwneud â diogelwch;
- Cyfleusterau Cymorth Cyntaf a hyfforddiant staff priodol ynglŷn â phryd i/pryd i beidio â rhoi Cymorth Cyntaf.

12.5 Mae'r awdurdod yn argymhell y dylid ymgynghori ag arbenigwyr e.e. swyddog diogelwch cymwysedig er mwyn helpu ag asesiad o faterion diogelwch cyhoeddus (ac eithrio diogelwch tân oherwydd taw gofyniad gorfodol yw asesiad risg o'r fath).

12.6 Mae Heddlu Gwent yn hyrwyddo defnydd llestri yfed polycarbonad er mwyn lleihau anafiadau a achosir naill ai'n fwriadol neu ar ddamwain oherwydd llestri yfed gwydr. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r fenter hon a buasai'n cynghori unrhyw ymgeisydd neu ddeiliad awdurdodiad bod gwydrau sydd wedi'u cryfhau yn aml yn colli eu tymheru trwy ddefnydd parhaol, ac y dylent ystyried cyflwyno llestri yfed polycarbonad neu blastig yn unig. Pan fod safleoedd yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, efallai bydd y Cyngor hefyd yn argymhell na ddylid caniatáu poteli gwydr agored i'w hyfed ar y safle ac y dylid ardywallt y cynnwys cyn eu gweini i gwsmeriaid. Pwrpas hyn yw lleihau unrhyw ddigwyddiad lle y gellir defnyddio poteli fel arfau.

12.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod bod yna gysylltiadau rhwng diogelwch cyhoeddus ac iechyd, er enghraifft anafiadau a achosir mewn safleoedd trwyddedig sydd angen triniaeth feddygol. Mae cwympo'n cyfrannu at dderbyniadau ysbyty sy'n ymwneud ag alcohol.

Gall ystyried a nodi materion sy'n ymwneud â diogelwch cyhoeddus mewn ymateb i gais trwyddedu bod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael a'r problemau hyn trwy osod amodau ar drwydded neu, mewn achosion mwy eithafol, peidio â chaniatáu trwydded. Efallai bydd modd i'r Bwrdd Iechyd, fel Awdurdod Cyfrifol,

cynnig tystiolaeth o gyffredinolrwydd, costau ac effeithiau materion diogelwch cyhoeddus fel bo'n briodol

12.8 Cyfraith Martyn

Derbyniodd Deddf Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) 2025, a elwir hefyd yn Gyfraith Martyn, Gydsyniad Brenhinol ar ddydd Iau, 3ydd Ebrill 2025. Yr Awdurdod Llywodraethu Cynradd ar gyfer y Ddeddf yw'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA). Mae'r Ddeddf hon yn cyflawni ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth i gryfhau diogelwch mangreoedd a digwyddiadau cyhoeddus. Disgwylir y bydd mangreoedd trwyddedig yn cydymffurfio'n llawn â'r Canllawiau a'r Rheoliadau yn y dyfodol.

Er mwyn hyrwyddo mabwysiadu Cyfraith Martyn, anogir yn gryf i fangreoedd trwyddedig ymgymryd â chysiau hyfforddi ymwybyddiaeth GET ([Gweithredu yn Erbyn Terfysgaeth](#)) am ddim ar gyfer gweithredwyr lleoliadau, Goruchwylwyr Mangreoedd Dynodedig, a'r rhai mewn swyddi rheoli.

Ceir rhagor o fanylion am Gyfraith Martyn ar wefannau'r Swyddfa Gartref a'r Awdurdod Diogelwch. <https://www.gov.uk/government/news/martyns-law-to-ensure-stronger-protections-against-terrorism-in-public-places>

Diogelwch Tyrfa

Dylai fod gan leoliadau bolisi clir ar gyfer rheoli torfeydd mawr, megis yn ystod cyngherddau neu ddigwyddiadau chwaraeon. Gall hyn gynnwys gweithredu terfyn cynhwysedd, rheoli pwyntiau mynediad ac ymadael, a hyfforddi aelodau staff mewn technegau rheoli tyrfaoedd.

13. Diogelu plant rhag niwed

- 13.1 Ni fydd unrhyw beth yn y datganiad polisi hwn yn cyfyngu neu'n gorfodi mynediad plant i safleoedd oni bai bod gofyniad o angen gor-redol er mwyn atal niwed i blant. Amlygir mannau bydd yn peri pryder penodol mewn man arall yn y polisi hwn.
- 13.2 Ac eithrio'r cyfyngiadau a nodir yn Adran 145, nid yw'r Ddeddf 2003 yn gwahardd plant rhag cael mynediad rhydd i unrhyw safle trwyddedig. Serch hynny, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod efallai bydd angen ystyried cyfyngiadau lle mae'n ymddangos yn angenrheidiol er mwyn diogelu plant rhag niwed.

- 13.3 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gorfodi unrhyw amod sy'n gofyn yn benodol bod mynediad i blant yn cael ei gynnig ar unrhyw safle. Lle nid oes gyfyngiad wedi'i gosod, mater am ddisgresiwn y safle neu glwb unigol bydd mater mynediad.
- 13.4 Mae'r Ddeddf 2003 yn manylu nifer o droseddau wedi'u creu er mwyn diogelu plant mewn safleoedd trwyddedig a bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gweithio'n agos â'r heddlu er mwyn sicrhau gorfodaeth briodol y gyfraith, yn enwedig yn ymwneud â gwerthu a chyflenwi alcohol i blant.
- 13.5 Ymgynghorir â'r Prif Swyddog dros Ofal Cymdeithasol a Thai ar gyfer yr awdurdod ynglŷn â materion sy'n ymwneud â diogelu plant rhag niwed.
- 13.6 Cyfrifoldeb pawb yw diogelu plant. Trosedd gall effeithio unrhyw blentyn, ar unrhyw adeg, unrhyw le yw camfanteisio rhywiol ar blant – waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol neu ethnig. Mae camfanteisio rhywiol ar blant yn cynnwys tramgwyddwyr sy'n paratoi pobl ifanc ac sy'n defnyddio eu pwerau, a gall gymryd nifer o ffurf, p'un a yw'n digwydd trwy berthynas sy'n ymddangos yn 'gydsyniol' gyda phartner hŷn, trwy gael rhyw i'w gyfnewid am sylw, anrhegion, arian, alcohol a sigarennau. Ffurfiau cyffredin o gamfanteisio yw trais, gorfodaeth a bygythiad, gyda rhai plant bregus yn derbyn cyffuriau neu'n cael eu gorfodi i werthu cyffuriau a/neu'n cael eu gorfodi i fod yn rhan o rwydwaith llinellau sirol.

Gall gwestai, bariau a bwytai, bwytai parod hwyrnos, siopau sy'n gwerthu alcohol neu safleoedd trwyddedig eraill dod mewn cysylltiad â phlant felly. Mae'r Awdurdod hwn yn annog y safleoedd hynny i wyllo mas am arwyddion o gamfanteisio felly. Dylai deiliaid trwydded a staff edrych am a gofyn i'w hunain y canlynol:

- A yw'n ymddangos bod plentyn mewn perthynas â pherson hŷn?
- A yw'n ymddangos bod y plentyn dan effaith alcohol neu gyffuriau?
- A yw oedolyn yn archebu'r gwesty sy'n ceisio cuddio eu bod gyda pherson ifanc?
- Nifer o oedolion a phobl ifanc yn dod i westy nad yw'n ymddangos bod rheswm ganddynt dros fod yno, neu lefelau uchel o ymwelwyr i ystafell westai. Gyda gwesteion yn symud i mewn a mas o'r safle ar amserau anarferol.
- Gwesteion yn cyrraedd ac yn gofyn am ystafelloedd penodol heb wybod enw'r person y mae'r ystafell wedi'i harchebu oddi tano.

Oherwydd diogelwch plant, nid yw'r Cyngor yn cefnogi systemau mewngofnodi digyswllt (derbynfa rithwir) lle ni fydd aelodau o'r staff yn rhyngweithio wyneb yn wyneb â chwsmeriaid mewn gwesty.

Os oes yna bryderon, rhaid i'r deiliad trwydded a staff adrodd y mater naill ai i Diogelu Sir Fynwy ar 01291 635669 neu i Diogelu'r Heddlu ar 01495 745409. Os yw rhywun mewn perygl enbyd, dylid galw'r heddlu ar 999.

- 13.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod bod gan blant a phobl ifanc, o'u cymharu ag oedolion, risg mwy uchel yn ymwneud â defnydd alcohol, a gall yr effeithiau iechyd fod yn uwch pan fyddant yn digwydd. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn fwy bregus o ganlyniad i niweidiau penodol mewn lleoliadau trwyddedig. Yn ogystal, mae dechrau yfed yn rheolaidd yn gynharach yn cynyddu risgiau oes niweidiau sy'n ymwneud ag alcohol.

Mae gan blant a phobl ifanc nifer o elfennau bregus sy'n ymwneud â'r effaith y gall alcohol ei gael ar eu hiechyd a datblygiad. Mae ganddynt lefelau uwch o fregusrwydd a risg sy'n ymwneud â bod ar safleoedd trwyddedig y mae angen eu hystyried a rhoi sylw priodol iddynt mewn polisïau trwyddedu, arferion a phrosesau. Mae'n debygol bydd yr effaith sylweddol o blentyn neu berson ifanc yn dioddef salwch, anaf neu ddibyniaeth o ganlyniad i gyrchu alcohol ar safleoedd trwyddedig yn cwmpo ar y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn adnabod effaith ddifrifol camddefnydd alcohol rhieni ar blant o bob oedran, a'r goblygiadau hirdymor (h.y. profiadau plentyndod negyddol). Mae yna bosibilrwydd bod lefelau is o ddefnydd niweidiol alcohol gan rieni yn cael effaith fanteisiol ar leihau adfyd plentyndod yn y cartref (e.e. lleihau trais, yn enwedig trais domestig).

- 13.8 Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc yn fwy bregus nag oedolion i effeithiau negyddol alcohol oherwydd ystod o ffactorau corfforol a seico-gymdeithasol. Felly, cefnogir mentrau i atal gwerthiant a chyflenwad alcohol i blant.

13.9

Mae'r Awdurdod yn disgwyl bod safleoedd trwyddedig sy'n cymryd rhan mewn gwerthu a chyflenwi alcohol yn gweithredu mesurau dilysu oedran er mwyn sicrhau y cyflawnir yr amcan trwyddedu ar gyfer diogelu plant.

Er mwyn cefnogi'r broses dilysu oedran, mae'r Awdurdod yn argymhell yn gryf bod safleoedd yn gosod y mesurau canlynol er mwyn sicrhau dilysrwydd oedran wrth werthu -

- Y cefnogir 'Her 25' fel rhan o'r cynllun dilysu oedran sefydledig. Dylai'r cynllun ei wneud yn ofynnol bod tystiolaeth oedran yn cael ei chyflwyno gan unrhyw berson sy'n ymddangos i staff sy'n ymgymryd â gwerthu neu gyflenwi alcohol eu bod dan 25 ac yn ceisio prynu alcohol.
- Bod tystiolaeth o'r cynllun (mewn ffurf gweithdrefnau wedi'u dogfennu) yn cael ei chynnal ac ar gael ar gyfer archwiliad gan swyddogion awdurdodedig.
- Y caiff staff i gyd sy'n cymryd rhan mewn gwerthu alcohol eu hyfforddi mewn cynlluniau dilysu oedran a gwerthiannau trwy ddirprwy, pan fod person yn ceisio prynu alcohol i berson dan 18. Caiff cofnodion o hyfforddiant felly eu cadw ar y safle a'u gwneud ar gael ar gyfer archwiliad gan swyddogion awdurdodedig.
- Y caiff cofnod o ddigwyddiadau ei gynnal, a manylion o bob gwrthodiad sy'n ymwneud ag oedran eu cofnodi. Caiff y llyfr hwn ei adolygu'n fisol gan Oruchwylydd Penodedig y Safle (GPS) a gweithrediadau a gymrwyd eu cofnodi yn y llyfr a'u harwyddo gan y GPS. Caiff y cofnod ei gadw ar y safle a'i wneud ar gael ar gyfer archwiliad gan swyddogion awdurdodedig.
- Y bydd deiliad trwydded bersonol ar y safle ar bob adeg y cyflenwir alcohol.
- Y bydd y GPS yn sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol yn ymarferol, yr arddangosir alcohol mewn man y gellir ei fonitro neu ei oruchwyllo'n barhaol gan staff, ac ar wahân i nwyddau sy'n debygol o gael eu prynu gan bobl dan 18.

Gwerthu drwy ddirprwy:

Rhaid bod gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio yn y safle yn cael ei hyfforddi'n rheolaidd a'i atgoffa'n rheolaidd o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gwerthu alcohol drwy ddirprwy, a rhaid sicrhau bod pob cam a gweithdrefn resymol yn eu lle a gweithredu i atal oedolion rhag prynu alcohol i rai dan oed. Rhaid cymryd camau i sicrhau bod unrhyw oruchwylwyr mangre dynodedig ac aelodau o staff sy'n ymwneud â danfon alcohol i gyfeiriadau preswyl yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau nad oes unrhyw alcohol yn cael ei werthu i bobl dan oed.

Cyflogi Plant:

Ni chaniateir i blentyn werthu alcohol nac yn achos clwb gyflenwi alcohol oni bai ei fod wedi ei awdurdodi gan berson cyfrifol, felly ni ddylid byth gadael plentyn o'r fath ar ei ben ei hun i weini alcohol. Nid oes angen caniatâd os yw plentyn yn aros ar fwrdd lle mae alcohol yn rhan o bryd bwrdd. Mae angen trwydded gan Wasanaethau Lles Addysg Sir Fynwy ar gyfer plant sy'n cael eu cyflogi, cysylltwch â educationwelfare@monmouthshire.gov.uk. Cyfeiriwch at y [Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Plant mewn Cyflogaeth ac Adloniant](#) am ragor o wybodaeth.

14. Hawliau i gynrychioliadau

- 14.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl bod ymgeiswyr yn rhoi sylw i'r amcanion trwyddedu yn eu hamserlen weithredu gan ystyried y fath o safle, y gweithgareddau trwyddedig i'w cynnig, y gweithdrefnau gweithredol, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol. Yn y modd hwn, gall y rheini sydd â hawl i wneud cynrychioliadau neu wrthwynebiadau asesu'n llawn y ffactorau gallent eu heffeithio.
- 14.2 Gall awdurdod cyfrifol, pobl eraill neu sefydliadau sy'n eu cynrychioli gwneud cynrychioliadau perthnasol, ond dylent nodi os ydynt yn gwneud cynrychioliad ar eu rhan eu hunain neu ar ran rhywun arall.
- 14.3 Gosododd diwygiadau i'r Ddeddf y term 'person arall' yn lle 'parti sydd â diddordeb' fel rhywun medrir gwneud cynrychioliadau. Gwaredodd hefyd y prawf agosrwydd am breswylwyr a'r term penodol cynghorydd. Mae hyn yn agor lan ystod y bobl sy'n gallu gwneud cynrychioliadau ac mae'n cynnwys, er enghraifft, y canlynol:-
- Preswylwyr sy'n byw'n agos i'r safle
 - Pobl sydd â diddordeb yn y safle neu ardal gyfagos
 - Cynghorwyr lleol
 - Busnesau sydd â diddordeb yn y safle neu ardal gyfagos
 - Sefydliadau sydd â diddordeb yn yr ardal gyfagos, y safle neu weithgareddau trwyddedadwy.

Bydd rhaid i'r Cyngor benderfynu os yw'r cynrychioliad yn berthnasol a/neu'n rhesymol, ac wrth wneud yr asesiad hwnnw byddant yn asesu'r person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cynrychioliad a'u perthynas â'r safle a/neu'r ardal gyfagos.

- 14.4 Caiff cynrychioliadau perthnasol eu hystyried fel rheini sy'n ymwneud ag egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Trwyddedu, felly bydd angen i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n dymuno gwrthwynebu unrhyw gais nodi os ydynt yn gwneud felly ar sail:
- Atal trosedd ac anhrefn;
 - Diogelwch cyhoeddus;
 - Atal niwsans cyhoeddus;
 - Diogelu plant rhag niwed.
- 14.5 Caiff cynrychioliadau anrhesymol, gwamal neu flinderus eu diystyru. Efallai caiff cynrychioliadau sydd wedi'u gwneud a'u hystyried mewn man arall, er enghraifft fel gwrthwynebiad i gais cynllunio, hefyd eu diystyru lle y buasai ystyriaeth o gynrychioliadau felly yn ddyblygiad.
- 14.6 Efallai caiff deisebau eu derbyn os yw'r Awdurdod yn credu bod pawb oedd wedi arwyddo'r ddeiseb yn deall goblygiadau'r hyn yr oeddent yn eu harwyddo. Cyfeiriwch at 29.24 isod am arweiniad pellach.

15. Awdurdodau cyfrifol

- 15.1 Mae'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd yn nodi pwy yw'r awdurdodau cyfrifol gallent wneud cynrychioliadau ar geisiadau neu geisio am adolygiad o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb, a rheini yw:
- Prif Swyddog yr Heddlu
 - Yr Awdurdod Tân
 - Yr awdurdod gorfodi am lechyd a Diogelwch yn y Gwaith
 - Yr awdurdod cynllunio lleol
 - Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal y risg o lygru'r amgylchedd neu o niwed i iechyd dynol
 - Yr awdurdod lleol dros bwysau a mesurau
 - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r corff sy'n cynrychioli materion yn ymwneud â diogelu plant rhag niwed, sef y Bwrdd Diogelu Plant ar hyn o bryd
 - Mewn perthynas â llong: awdurdod mordwyaeth; yr Asiantaeth Amgylcheddol; neu Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain
 - Y Bwrdd Iechyd Lleol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)
 - Yr Awdurdod Trwyddedu (Y Cyngor)
 - Mewnfudo (Gorfodaeth Mewnfudo'r Swyddfa Gartref)

16. Personau eraill

- 16.1 Mae newidiadau i'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn rhinwedd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn awr wedi cael gwared ar y prawf "agosrwydd" o'r Ddeddf 2003 ac, o ganlyniad, nid yw categorïau "parti sydd â diddordeb" bellach yn bodoli.
- 16.2 Felly, gall unrhyw berson wneud cynrychioliadau yn ymwneud â mathau penodol o geisiadau fel "Person Arall", serch hynny rhaid i bob cynrychioliad ymwneud â'r amcanion trwyddedu ac ni allent fod yn wamal neu'n flinderus.

17. Integreiddio strategaethau

- 17.1 Mae Canllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Ddeddf 2003 yn nodi y dylai'r Awdurdod Trwyddedu amlinellu sut y bydd yn sicrhau integreiddiad priodol rhwng ei bolisi trwyddedu a pholisïau a strategaethau yn ymwneud ag atal trosedd lleol, cynllunio, trafnidiaeth, twristiaeth, cynlluniau cydraddoldeb, strategaethau diwylliannol ac unrhyw bolisi neu gynllun arall y cyflwynir ar gyfer rheoli canolau tref ac economïau gyda'r nos. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cytuno bod cydweithredu ac integreiddio'n hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Cyngor am economi gyda'r nos sy'n ddiogel ac yn llewyrchus. Efallai bydd darnau eraill o ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y gyfundrefn trwyddedu. Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried y canlynol pan fydd yn gweithredu ei gyfrifoldebau dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 ac mewn perthynas â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu:

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol a chyrff eraill yn ystyried lleihau trosedd ac anhrefn. Mae Adran 17 o'r Ddeddf yn nodi taw cyfrifoldeb pob awdurdod bydd gweithredu eu swyddogaethau gwahanol gan roi sylw dyledus i effaith debygol y swyddogaethau hynny ar, a'r angen i wneud popeth y gallent eu gwneud i atal, trosedd ac anhrefn o fewn eu hardal (gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n effeithio'r amgylchedd lleol yn negyddol). Mae hyn yn cysylltu'n benodol â'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn a bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried pob mesur rhesymol sy'n hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwn yn weithredol.

Y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014

Mae'r Ddeddf yn rhoi ystod eang o bwerau i awdurdodau lleol a'r heddlu i fynd i'r afael â digwyddiadau trosedd, anhrefn a niwsans efallai sy'n effeithio preswylwyr. Cyflwynodd y Ddeddf gorchmynion diogelu mannau cyhoeddus sy'n galluogi'r awdurdod lleol i ddynodi ardaloedd lle na chaniateir ymddygiad gwrthgymdeithasol megis yfed ar y stryd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i'r awdurdod lleol a'r heddlu i gau safleoedd trwyddedig lle bod niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd. Mae'r Ddeddf hon yn amlwg felly'n cefnogi ac yn hyrwyddo'n weithredol yr amcanion trwyddedu sydd wedi'u cynnwys o fewn y Ddeddf Trwyddedu 2003.

Deddf Mewnfudo 2016

Diwygiodd Adran 36 ac Amserlen 4 o'r Ddeddf Mewnfudo 2016 y Ddeddf Trwyddedu 2003 a gwnaeth Gorfodaeth Mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn Awdurdod Cyfrifol yn ymwneud â'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn. Byddant yn gweithredu eu pwerau mewn perthynas â bod yn ymgynghorai ar geisiadau trwydded newydd yn ogystal â chael hawliau mynediad i safleoedd trwyddedig gyda golwg ar weld a oes drosedd dan unrhyw un o'r Deddfau Mewnfudo'n cael ei chyflawni ar safle trwyddedig. Bydd hyn yn cynnwys yn bennaf canfod ac atal gweithio anghyfreithlon ar safleoedd sydd â thrwydded alcohol neu drwydded lluniaeth hwyrnos. Mae'r drosedd o gyflogi pobl sydd heb yr hawl i weithio yn y DU ar safleoedd trwyddedig yn awr wedi'i rhestru yng nghanllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 11.27 sy'n cwmpasu gweithgaredd troseddol y bernir ei fod yn hynod ddifrifol a lle y dylai awdurdod trwyddedu ystyried dirymu trwydded safle hyd yn oed ar yr achos cyntaf. Mae'r Ddeddf hon yn amlwg yn cefnogi ac yn hyrwyddo'n weithredol yr amcan trwyddedu atal trosedd ac anhrefn a bydd yr awdurdod trwyddedu'n gweithio â chydweithwyr yn y gwasanaeth Mewnfudo a Heddlu Gwent er mwyn gorfodi hyn.

Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae gan y Cyngor ddyletswydd dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i ddiogelu hawliau'r preswyllydd i breifatrwydd a bywyd teuluol (Erthygl 8) yn ogystal â hawliau deiliad trwydded i weithredu eu busnes heb ymyrraeth ormodol (Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf). Mae hyn yn hyrwyddo'r angen bod yr awdurdod yn cyrraedd cydbwysedd rhwng y ddwy egwyddor hyn wrth wneud penderfyniadau.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i orfod rhoi sylw i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, er mwyn symud cydraddoldeb cyfle ymlaen ac i faethu perthnasau da rhwng pobl sy'n

rhannu nodwedd sydd wedi'i ddiogelu a'r rheini sydd ddim. Mae nodweddion sydd wedi'u diogelu'n cynnwys oedran, anabledd, hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Wrth wneud penderfyniad, bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi sylw i hyn oherwydd y nod o sicrhau bod yr economi hwyrnos yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb. Deddfwriaeth arall y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ei hystyried -

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, er mwyn gweithio'n well â phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaol megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn amlwg yn cefnogi ac yn hyrwyddo'n weithredol yr amcanion trwyddedu. Mae'r Ddeddf hon yn cysylltu'n benodol i atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus. Mae'n adnabod bod yna angen i greu seinweddau priodol – yr amgylchedd acwstig cywir ar yr amser ac yn y man cywir. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried rheolaeth sŵn a seinwedd ac yn enwedig y pum ffordd o weithio sydd wedi'u cynnwys dan y Ddeddf hon, sef: i) Yr Hirdymor - pwysigrwydd cydbwysio anghenion byrdymor gydag anghenion diogelu'r gallu i gyflawni anghenion hirdymor; ii) Integreiddiad; iii) Cymryd rhan; iv) Cydweithredu a v) Atal. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru 'Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd ar gyfer 2018-2023'

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/noise-and-soundscape-action-plan.pdf>

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA neu SSSI) a hysbyswyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

Cynghorir perchnogion a meddianwyr tir y cynhelir digwyddiad arno lle mae'r tir dan sylw wedi'i gynnwys mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA neu SSSI) a hysbyswyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) i ofyn am gyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn dechrau'r digwyddiad. Bydd angen caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan CNC ar gyfer gweithrediadau neu weithgareddau a allai fod yn niweidiol i nodweddion dynodedig y Safle oni bai fel arall yn rhan o gytundeb rheoli a baratowyd yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Gall methu â chael unrhyw gydsyniad angenrheidiol ac i gadw at ei amodau heb esgus rhesymol fod yn drosedd. Person sy'n trefnu, hwyluso neu'n mynychu digwyddiad sydd, heb esgus rhesymol, yn fwriadol neu'n ddi-hid yn dinistrio neu'n niweidio'r nodwedd (au) ddynodedig o SoDdGA neu'n tarfu ar ffawna dynodedig SoDdGA yn fwriadol neu'n ddi-hid gall fod yn cyflawni trosedd. Gall y drosedd hon fod yn berthnasol i ddifrod neu aflonyddwch sy'n digwydd ar dir y tu allan i ffin y digwyddiad.

Cynghorir trefnwyr digwyddiadau i gysylltu â CNC am gyngor cyn dechrau'r digwyddiad. Cyfoeth Naturiol Cymru / Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA neu SSSI): cyfrifoldebau perchnogion a deiliaid Gellir cysylltu â CNC ar 0300 065 3000.

Bydd gan yr Awdurdod Trwyddedu hefyd gwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ganlynol pan fydd yn dewis gweithredu ei gyfrifoldebau dan y Ddeddf Trwyddedu. Nid yw'r rhestr hon yn drwyadl:-

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n delio â sŵn a niwsans
- Gorchymyn Diwygio Rheoliadol 2005 sy'n delio â diogelwch tân
- Deddf Priffyrdd 1980 sy'n delio â thrwyddedu caffis ar y palmant.

- 17.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio osgoi dyblygu cymaint ag sy'n bosib gyda chyfundrefnau rheoliadol eraill wrth ddelio â'r swyddogaeth drwyddedu. Os yw cyfraith gyfredol arall eisoes yn gosod cyfrifoldebau statudol penodol ar gyflogwr neu weithredwr safle, ni all fod yn briodol neu'n gymesur gorfodi'r un ddyletswydd neu ddyletswyddau tebygol ar ddeiliad trwydded y safle neu'r clwb. Unwaith y mae disgresiwn yr Awdurdod Trwyddedu wedi'i ymgysylltu, dim ond lle bod mesurau ychwanegol ac atodol yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yr atodir amodau priodol a chymesur i drwydded.
- 17.3 Gall polisïau, strategaethau, cyfrifoldebau a dogfennau canllaw Awdurdod Lleol a Llywodraeth eraill cyfeirio at y swyddogaeth drwyddedu yn ogystal, a gall yr Awdurdod Trwyddedu gysylltu â'r awdurdodau priodol neu gyda'i gyfarwyddiaethau mewn perthynas â rhain. Er efallai nad yw rhai o'r rheini yn ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, gallent effeithio'n anuniongyrchol arnynt.
- 17.4 Bwriad yr Awdurdod Lleol yw y bydd, trwy ei Bwyllgor Trwyddedu, yn monitro sut y mae'r materion hyn, y'u gosodir uchod, yn effeithio ar drwyddedu'r Awdurdod a swyddogaethau eraill, er mwyn iddo allu ceisio cydlynu ac integreiddio ei swyddogaeth drwyddedu gyda strategaethau eraill perthnasol.
- 17.5 Mewn perthynas â strategaethau diwylliannol, bydd yr Awdurdod Lleol, er enghraifft trwy ymgynghoriad cyfnodol gyda swyddogion Gwasanaethau Hamdden a Diwylliannol, yn ystyried a yw darpariaeth cerddoriaeth fyw a gweithgareddau diwylliannol yn cael ei rhwystro gan ofyniadau trwyddedu lleol. Pan fydd unrhyw arwydd bod hyn yn wir, efallai bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ymchwilio sut y gellir gwrthdroi'r sefyllfa, ac efallai os oes angen wrth ystyried ymchwiliadau o'r fath, yn ystyried adolygu Datganiad y Polisi Trwyddedu.

Perthynas gyda'r Broses Gynllunio

- 17.6 Dylai ceisiadau am drwyddedau safle ar gyfer safleoedd masnachol parhaol fel arfer deillio o fusnesau sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo dan sylw. Serch hynny, gellir gwneud ceisiadau am drwyddedau cyn bod unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol wedi ei geisio neu ei roddi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- 17.7 Argymhellir yn gryf bod ymgeiswyr trwydded arfaethedig yn cysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn gwneud cais trwydded er mwyn gwirio, neu geisio cyngor ynglŷn ag, unrhyw ganiatâd cynllunio neu amodau yn ymwneud â defnyddio'r safle. Mae'n amlwg yn gwneud synnwyr yn weithredol i sicrhau bod cynllunio a thrwyddedu'n cyd-fynd.
- 17.8 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n dymuno pwysleisio na fydd caniatâd gan y Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr am unrhyw amrywiad o drwydded sy'n cynnwys addasiad deunydd i adeilad yn rhyddhau angen yr ymgeisydd i geisio caniatâd cynllunio neu ganiatâd rheoli adeiladau lle bo'n briodol.
- 17.9 Bydd yr Awdurdod Lleol yn anelu at wahanu cynllunio, rheoli adeiladau a threfnau trwyddedu'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Mae'r cyfundrefnau Trwyddedu a Chynllunio'n cynnwys ystyried materion gwahanol (er eu bod yn berthnasol).
- 17.10 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n osgoi trin ceisiadau trwyddedu fel copi o geisiadau cynllunio, ac ni fyddant fel arfer yn:
- torri ar draws penderfyniadau a gymrwyd gan Bwyllgor Cynllunio'r Awdurdod Lleol neu'n dilyn penderfyniadau apêl a gymrwyd gan y Pwyllgor hwnnw; neu
 - yn gorfodi amodau trwyddedu pan fod yr un amodau neu amodau tebyg wedi'u gorfodi ar ganiatâd cynllunio.
- 17.11 Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu wedi'i ymrwymo gan benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Cynllunio, a'r gwrthwyneb.
- 17.12 Pan fod, fel amod o ganiatâd cynllunio, awr derfynol wedi'i gosod er mwyn defnyddio'r safle at ddibenion masnachol sy'n wahanol i'r oriau trwyddedu, rhaid i'r trwyddedai arsylwi'r amser cau cynharach er mwyn osgoi torri eu caniatâd cynllunio – gallant fod yn agored i'w herlyn dan gyfraith gynllunio (a'r gwrthwyneb pan fod yr oriau trwyddedu'n gorffen cyn y caniatâd cynllunio).

18. Trwydded alcohol bersonol

- 18.1 Mae'r Cyngor yn adnabod bod ganddo ychydig iawn o ddisgresiwn wrth roddi trwydded bersonol. Yn gyffredinol, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn 18 mlwydd oed neu'n hyn, bod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU, bod ganddynt gymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo, os nad ydynt wedi gorfod fforffedu trwydded bersonol o fewn 5 mlynedd o'r cais hwn ac os nad ydynt wedi derbyn euogfarnau troseddol neu gosb sifil ar ôl y 6^{ed} o Ebrill 2017 oherwydd materion mewnfudo, rhaid rhoddi'r cais.
- 18.2 Rhaid bod gan unigolion sy'n ymgeisio am drwydded bersonol yr hawl i weithio yn y DU. Ni ddylid cyflwyno trwyddedau i bobl sy'n bresennol yn anghyfreithlon yn y DU heb yr hawl i weithio, neu sydd gyda'r hawl i weithio ond sy'n ddarostyngedig i amod sy'n eu hatal rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â pharhau â gweithgaredd trwyddedig.
- 18.3 Pan fod caniatâd mewnfudo ymgeisydd i fyw ac i weithio yn y DU wedi'i gyfyngu gan amser, gellir cyflwyno trwydded bersonol ond bydd yn dod yn annilys pan fydd y caniatâd mewnfudo'n terfynu. Os bydd y Swyddfa Gartref yn torri caniatâd mewnfudo person yn fyr neu yn ei derfynu, bydd unrhyw drwydded bersonol y'i cyflwynwyd mewn perthynas â chais a wnaed ar neu ar ôl y 6^{ed} o Ebrill 2017 yn dod i ben yn awtomatig.
- 18.4 Os yw ymgeisydd yn datgan eu bod wedi derbyn cosb mewnfudo neu yn euog o drosedd mewnfudo neu drosedd tramor sy'n debyg i drosedd mewnfudo, rhaid i'r awdurdod trwyddedu hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref (trwy Orfodaeth Mewnfudo'r Swyddfa Gartref).
- 18.5 Os oes gan ymgeisydd euogfarn berthnasol, gall yr Heddlu wrthwynebu'r cais. Os yw ymgeisydd wedi derbyn cosb mewnfudo neu os ydynt yn euog o drosedd mewnfudo perthnasol ar neu ar ôl y 6^{ed} o Ebrill 2017, gall y Swyddfa Gartref gwrthwynebu'r cais. Pan gaiff gwrthwynebiad ei gyflwyno, rhaid cynnal gwrandawriad.
- 18.6 Anogir ymgeiswyr sydd ag euogfarnau sydd heb darfod am drosedd berthnasol fel y'i nodi yn y rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf i drafod eu cais yn gyntaf gyda Swyddog Trwyddedu'r Cyngor a/neu'r Heddlu.
- 18.7 Mewn gwrandawriad sy'n ymwneud â gwrthwynebiad i ganiatâd trwydded bersonol, neu ddirymiad o drwydded gyfredol, bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus a fydd caniatáu neu barhau'r drwydded yn niddordebau'r amcan atal

trosedd. Bydd yn ystyried difrifoldeb a pherthnasedd unrhyw euogfarn(au), y cyfnod sydd wedi mynd heibio ers cyflawni'r trosedd(au) ac unrhyw amgylchiadau lliniarol. Bydd y Cyngor dim ond yn rhoddi'r cais os yw'n fodlon y bydd gwneud hynny'n hyrwyddo'r amcan hwn.

18.8 Amcan y Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ogystal â chyfrifoldeb y Cyngor dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yw atal trosedd. Dylai person sy'n dal trwydded bersonol fod yn berson sydd nid yn unig wedi'u cymhwyso'n briodol, ond hefyd person bydd yn helpu gydag atal trosedd. Gall rhoddi trwydded i berson sydd â chofnod troseddol perthnasol tanseilio yn hytrach na hyrwyddo'r amcan atal trosedd.

18.9 O'r 6^{ed} o Ebrill 2017 mae'r Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau trwyddedu dirymu neu atal trwyddedau personol. Pŵer dewisol yw hwn a gellir ei weithredu pan fydd awdurdod trwyddedu yn dod yn ymwybodol bod y deiliad trwydded wedi bod yn euog o drosedd perthnasol neu drosedd dramor neu fod angen iddynt dalu cost mewnfudo ar neu ar ôl y 6^{ed} o Ebrill 2017. Rhaid i'r penderfyniad cael ei wneud gan y Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr neu is-bwyllgor a gallent ddirymu'r drwydded neu ei hatal am gyfnod o hyd at 6 mis.

18.10

Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig

18.11

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig gyflawni gweithgareddau rheoli'r eiddo o ddydd i ddydd. Mae hyn yn unol â disgwyliadau canllawiau Adran 182. Lle nad yw Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn gallu dangos yn foddhaol ei fod yn gallu gwneud hyn, byddwn yn gwahodd Deiliad Trwydded y Safle i benodi person arall priodol.

18.12

Ar ôl penodi Goruchwyliwr Safle Dynodedig, os bydd problemau'n codi yn ymwneud â'u perfformiad, gall yr heddlu ar unrhyw adeg ofyn am adolygiad o Drwydded Safle ar unrhyw sail sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu. Ni fydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn gosod amodau sy'n ymwneud â chymhwysedd rheoli Goruchwyliwr Safle Dynodedig, ac eithrio pan ystyrir ei bod yn briodol yn yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag eiddo penodol, y gallai cymhwysedd rheoli gwael arwain at faterion trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd a niwsans cyhoeddus.

18.3

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr heddlu wrthwynebu penodi unigolyn yn Oruchwyliwr Safle Dynodedig. Yn dilyn gwrthwynebiad gan yr heddlu, os yw'r awdurdod trwyddedu'n fodlon y byddai penodi person yn Oruchwyliwr Safle Dynodedig yn tanseilio'r amcan trwyddedu atal trosedd, y polisi yw gwrthod y

penodiad neu ei ddiswyddo fel y Goruchwylydd Safle Dynodedig o dan amgylchiadau. lle maent eisoes yn eu swyddi.

19. Trwydded safle

- 19.1 Rhoddir trwydded safle mewn perthynas ag unrhyw safle, ac eithrio clwb aelodau preifat neu safleoedd o'r fath, sydd wedi'u hawdurdodi am un neu fwy o weithgareddau trwyddedadwy megis cyflenwi alcohol, lluniaeth hwyrnos neu adloniant rheoledig.
- 19.2 Mae yna rai eithriadau ynglŷn â'r angen am drwydded ac maent yn cynnwys arddangos ffilmiau am resymau addysg neu hyrwyddo, ffilmiau a dangosir fel rhan o arddangosiad, a cherddoriaeth wedi'i chwyddo a'i recordio i dorfeydd o lai na 500 person rhwng oriau 8:00yb ac 11:00yh. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod trwyddedu ynglŷn ag eithriadau eraill am fwy o arweiniad.
- 19.3 Lle y cyflenwir alcohol, rhaid enwebu Goruchwyliwr Penodedig am y Safle, sydd angen bod yn ddeiliad trwydded bersonol, er mwyn awdurdodi gwerthiant alcohol ar y safle.
- 19.4 Cyflwynir trwyddedau safle i unigolion dros 18 mlwydd oed sy'n parhau, neu sy'n cynnig parhau, busnes sy'n cynnwys defnyddio'r safle ar gyfer gweithgareddau trwyddedig. Y ogystal, gall elusennau, cyrff gwasanaeth iechyd, sefydliadau addysgol a phobl o ddisgrifiadau rhagnodedig eraill ymgeisio am drwydded safle.
- 19.5 Gellir cyflwyno trwydded yn ddarostyngedig i amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw ar bob adeg y mae'r safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr amserau a nodir ar y drwydded. Gall methu â chydymffurfio â thermâu ac amodau trwydded, neu weithredu gweithgareddau trwyddedadwy heb drwydded safle, arwain at ddirwy ddiderfyn neu gyfnod yn y carchar o hyd at 6 mis, neu'r ddau.
- 19.6 Mae'r ffioedd am drwyddedau yn seiliedig ar werth cyfraddol safle ac er y cyflwynir trwyddedau fel arfer am gyfnod amhenodol, mae ffi flynyddol yn daladwy.
- 19.7 Disgwylir y bydd deiliad trwydded y safle a goruchwyliwr penodedig y safle yn ymwybodol o'u mathau o weithgareddau trwyddedadwy a chaniateir, eu horiau a chaniateir ac amodau'r drwydded. Gall methu â dangos neu roi sylw i hyn arwain at ddiffyg hyder yn y rheolaeth gan Awdurdod Cyfrifol.

20. Tystysgrif safle clwb

- 20.1 Gall glwb cymwys, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, cymdeithas gyfeillgar a sefydliad lles sy'n cwrdd â'r meini prawf a nodir yn rhan 4 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 cynnig gweithgareddau trwyddedadwy ar gyfer eu haelodau a gwesteion aelodau sydd wedi'u hawdurdodi gan dystysgrif safle clwb (TSC).
- 20.2 Mae TSC yn awdurdodi defnyddio safle er budd ei aelodau a'i westeion yn unig ac ni ellir ei defnyddio i gynnig gweithgareddau trwyddedadwy i bobl nad ydynt yn aelodau. Os yw'r safle i gael ei ddefnyddio i gynnig gweithgareddau trwyddedadwy ar gyfer pobl nad ydynt yn aelodau yna bydd angen awdurdodiad ychwanegol. Gall hyn fod yn drwydded safle (TS) neu hysbysiad digwyddiad dros dro (HDDD).
- 20.3 Mae safle sy'n gweithredu dan awdurdodiad TSC yn mwynhau breintiau arbennig. Os yw safle clwb yn gweithredu dan awdurdodiad TS neu HDDD nid yw'r breintiau'n gymwys. Mae'r breintiau'n cynnwys: hawliau mynediad cyfyngedig; ac nid oes angen person cymwysedig i awdurdodi gwerthiant alcohol. Ystyriaethau eraill byddai rheolau treth gwahanol. Dylid ceisio cyngor o HMRC.
- 20.4 Disgwylir y bydd deiliad TSC yn ymwybodol o'u mathau o weithgareddau trwyddedadwy a chaniateir, eu horiau a chaniateir ac amodau'r drwydded. Gall methu â dangos neu roi sylw i hyn arwain at ddiffyg hyder yn y rheolaeth gan Awdurdod Cyfrifol.
- 20.5 "Trwyddedau Cysgodol"

Nid oes dim yn Neddf 2003 sy'n atal dau awdurdodiad neu fwy rhag cael effaith ar yr un pryd mewn perthynas â'r cyfan neu ran o'r un fangre neu mewn perthynas â'r un person. (Adran 2, Deddf Trwyddedu 2003). Mae'r Canllawiau Adran 182 yn darparu ymhellach ym mharagraff 8.19 "Nid oes dim yn Neddf 2003 sy'n atal cais rhag cael ei wneud am drwydded mangre mewn mangre lle mae trwydded safle eisoes yn cael ei dal." Gall trwyddedau cysgodol ddigwydd lle mae landlord, er enghraifft, yn ceisio diogelu'r Drwydded Safle trwy greu "trwydded gysgodol" lle mae'r drwydded yn cael ei gweithredu gan denant. Fel arfer caiff trwydded gysgodol ei chreu ar yr un telerau â'r drwydded safle bresennol. Wrth roi trwydded ar safle sydd eisoes yn dal trwydded mangre, gall yr awdurdodau cyfrifol geisio ychwanegu amodau at y drwydded ychwanegol, sy'n adlewyrchu'r drwydded mangre gyfredol.

Mae awdurdodau cyfrifol hefyd yn gallu adolygu'r drwydded gysgodol pryd bynnag y bydd y drwydded wreiddiol yn cael ei hadolygu. Rhaid ei bod yn glir bob amser i'r awdurdodau cyfrifol pa drwydded sy'n weithredol er mwyn osgoi dau unigolyn rhag masnachu o fewn yr un ardal drwyddedig ar yr un pryd o dan drwyddedau mangre gwahanol.

21. Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro

- 21.1 Gellir defnyddio Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (HDDD) er mwyn galluogi bod gweithgareddau trwyddedadwy'n cael eu gweithredu ar sail untro neu achlysurol. Rhain yw'r math mwyaf priodol o awdurdodiad ar gyfer digwyddiadau untro ar raddfa fach, megis digwyddiadau codi arian cymunedol, ysgol ac elusennol, y bwriedir iddynt:
- werthi neu gyflenwi alcohol;
 - cynnig adloniant rheoledig; neu
 - werthu bwyd poeth/diod rhwng 11yh a 5yb.
- 21.2 Os bostiwch, rhaid danfon HDDD i'r awdurdod trwyddedu perthnasol, i'r Heddlu ac i'r awdurdod lleol sy'n gweithredu swyddogaethau ieuchyd amgylcheddol o leiaf deg diwrnod gweithio cyn y digwyddiad. Os caiff ei anfon yn electronig, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymgynghori â'r ymgynghorwyr perthnasol ar ran yr ymgeisydd.
- 21.3 Gall yr Heddlu neu awdurdod sy'n gweithredu swyddogaethau ieuchyd amgylcheddol ymyrryd er mwyn cyfyngu'r digwyddiad neu atal y digwyddiad rhag digwydd. Efallai y byddant yn cytuno addasiad i'r HDDD yn uniongyrchol â'r defnyddiwr HDDD. Wrth roi HDDD, dylai'r defnyddiwr safle ystyried hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.
- 21.4 Mae yna dau fath o HDDD: HDDD cyffredinol a HDDD hwyr. Rhwir hysbysiad cyffredinol nid yn hwyrach na deg diwrnod gweithio cyn y digwyddiad y mae'n ymwneud â, a rhwir hysbysiad hwyr nid yn gynharach na naw ac nid yn hwyrach na deg diwrnod gweithio cyn y digwyddiad. Mae'r cyfnod yn eithrio'r diwrnod y derbynnir yr hysbysiad a diwrnod cyntaf y digwyddiad. Bwriad HDDD hwyr yw helpu defnyddwyr sydd angen cyflwyno hysbysiad ar fyr rybudd oherwydd rhesymau y tu fas i'w rheolaeth.
- 21.5 Mae gan yr Heddlu ac awdurdod sy'n gweithredu swyddogaethau ieuchyd amgylcheddol gyfnod o dri diwrnod gweithio o bryd maent yn derbyn yr hysbysiad i'w wrthwynebu ar sail unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

- 21.6 Os derbynnir hysbysiad gwrthwynebu sy'n ymwneud â HDDD cyffredinol yna mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawriad er mwyn ystyried y gwrthwynebiad, oni bai bod pob parti'n cytuno nad oes angen gwrandawriad.
- 21.7 Os derbynnir hysbysiad gwrthwynebu sy'n ymwneud â HDDD hwyr, ni fydd yr hysbysiad yn ddilys ac ni chaniateir y digwyddiad gan nad oes posibilrwydd am wrandawriad neu i osod unrhyw amodau trwydded cyfredol ar yr hysbysiad.
- 21.8 Gosodir nifer o gyfyngiadau ar ddefnydd HDDD gan y Ddeddf Trwyddedu 2003. Cynghorir rhoddwyr hysbysiadau i gysylltu â'r awdurdod trwyddedu am fwy o wybodaeth.
- 21.9 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n argymhell bod unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, yn enwedig pan fod hyn yn cynnwys darpariaeth adloniant rheoledig, yn rhoi cymaint o rybudd i'r Awdurdod â phosib er mwyn sicrhau y gellir rhoi cyngor priodol a datrys unrhyw broblemau disgwylidig mewn modd sydd wedi'i gynllunio ac sy'n amserol. Er y gellir cyflwyno hysbysiadau'n gyfreithiol gyda 10 diwrnod gweithio neu hysbysiad hwyr gyda 5 diwrnod cyn i'r digwyddiad digwydd, argymhellir cyfnod o 12 wythnos am ddigwyddiadau mwy.
- 21.10 Gall yr Awdurdod Trwyddedu hysbysu Grŵp Cyngori Diogelwch Digwyddiadau'r Cyngor (GCDD) ynglŷn ag unrhyw Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro sy'n cynnwys darpariaeth adloniant rheoledig. Mae'r Panel hwn yn dod â'r cyrff gorfodaeth gwahanol efallai bydd yn gyfrifol am orfodaeth yn ymwneud â'r digwyddiad at ei gilydd, yn ogystal ag unrhyw ymgeiswyr a threfnwyr eraill, ac mae'n galluogi bod cytundeb yn cael ei gyrraedd ynglŷn â'r ffordd y caiff y digwyddiad ei drefnu ayyb. Argymhellir bod pob ymgeisydd sy'n cyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro'n mynd trwy'r Panel Digwyddiadau wrth ddylunio eu Hysbysiad, a bydd y Panel Digwyddiadau o gymorth arbennig i elusennau, grwpiau cymunedol a gwirfoddol a threfnwyr digwyddiadau eraill sydd efallai heb y gallu i gyrchu cyngor cyfreithiol neu adnabyddiaeth dechnegol.
- Argymhellir cysylltu â'r GCDD o fewn amser digonol er mwyn cynnwys posibilrwydd bod gwrthwynebiadau i drwydded neu ddigwyddiad dros dro ac amserlen y gwrandawriad. Felly, argymhellir cysylltu â'r GCDD am ddigwyddiadau dan 500 o bobl 24 diwrnod gweithio cyn y digwyddiad a 68 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad am ddigwyddiadau i dros 500 o bobl. Argymhellir hyn pan fod alcohol, adloniant rheoledig a/neu luniaeth hwyrnos yn digwydd.
- 21.11 Bydd mannau allanol a digwyddiadau awyr agored fel arfer yn cael eu cyfyngu i 08.00 – 22.00 o'r gloch oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu dangos bod mesurau

rheoli cynhwysfawr wedi'u gweithredu sy'n sicrhau bod yr amcanion trwyddedadwy yn cael eu hyrwyddo, yn enwedig yr amcan niwsans cyhoeddus.

21.12 Digwyddiadau ar Raddfa Fawr

Mae'r rhain yn ddigwyddiadau dros dro ond mae disgwyl i fwy na 499 o bobl fynychu. Gall torfeydd llawer mwy gael eu denu i ddigwyddiadau ar raddfa fawr a gall y risg i ddiogelwch y cyhoedd ac i drosedd ac anhrefn, yn ogystal â niwsans cyhoeddus, fod yn sylweddol. Dylid rhoi'r cyfle cyntaf i'r awdurdod trwyddedu a'r holl ymgylgoreion statudol eraill, i rybuddio digwyddiadau mawr o'r fath, i drafod amserlenni gweithredu gyda'r trefnydd, cyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno. Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad / ymgeisydd yw rhoi hysbysiad i'r awdurdod trwyddedu a'r holl ymgylgoreion statudol eraill, cyn gynted â phosibl, am ddigwyddiadau mawr o'r fath. Bydd hyn yn galluogi trafodaeth am amserlenni gweithredu cyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno. Disgwylir y bydd yr ymgeisydd yn ystyried sut y bydd eu digwyddiad yn cael ei gynnal yn ddiogel a sut y bydd yn effeithio ar yr ardal gyfagos. Ar gyfer digwyddiadau mawr fel gwyliau bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl derbyn cynllun rheoli digwyddiad i'w gyflwyno gyda'u cais am drwydded. Dylai cynllun rheoli digwyddiad fod yn ddogfen waith sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n amlinellu sut y caiff y safle ei redeg yn ystod y digwyddiad.

22. Gwerthu a chyflenwi alcohol

- 22.1 Dylid caniatáu fel arfer bod siopau ac archfarchnadoedd yn gwerthu alcohol i'w hyfed oddi ar y safle yn ystod yr oriau arferol maent yn bwriadu agor ar gyfer siopa. Serch hynny, yn achos safleoedd unigol sy'n cael eu hadnabod fel ffocws neu achos anhrefn ac aflonyddwch yna efallai bydd, yn ddarostyngedig i gynrychioliadau o'r heddlu ac awdurdodau cyfrifol eraill, cyfyngiad ar oriau trwyddedu'n briodol.
- 22.2 Rhaid i safleoedd trwyddedig sydd wedi'u hawdurdodi dan y Ddeddf i werthu a/neu i gyflenwi alcohol ystyried eu cyfrifoldebau yn ymwneud ag i bwy ydynt yn cyflenwi diodydd alcohol, yn enwedig:
- Gwerthu i bobl dan 18 mlwydd oed
 - Gwerthu i bobl sy'n mynd ag alcohol i bobl dan 18 mlwydd oed
 - Gwerthu i bobl feddw
- 22.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n annog yn weithredol y dylid terfynu gwerthu neu gyflenwi alcohol o leiaf tri deg munud cyn amser cau'r safle. Mae hyn yn cynnig

cyfnod 'pwylo' priodol a gwasgariad mwy araf o gwsmeriaid. Byddai disgwyl cyfnod dirwyn i ben hirach ar gyfer digwyddiadau mawr.

- 22.4 Mae'r cyngor yn argymhell bod gan unrhyw safle trwyddedig sydd wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol bolisi sy'n gosod sut y rheolir gwerthiant neu gyflenwad alcohol a rhaid iddo gynnwys anghenion hyfforddi staff. Dylid cadw cofnodion ysgrifenedig o'r hyfforddiant a ddarperir i gyd ac unrhyw ddigwyddiad e.e. gwrthod gwerthu a'r rhesymau dros hynny.

23. Adloniant rheoledig

- 23.1 Mae Amserlen 1 i'r Ddeddf 2003 yn gosod pa weithgareddau yr ystyrir fel darpariaeth adloniant rheoledig a phryd maent yn drwyddedadwy, yn ogystal â'r rheini sydd ddim ac sydd felly wedi'u heithrio o'r gyfundrefn adloniant rheoledig (argymhellir yn gryf bod ymgeiswyr yn adolygu Canllawiau Adran 182 y Swyddfa Gartref o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ymwneud ag Adloniant Rheoledig).

Disgrifiadau'r gweithgareddau adloniant sy'n drwyddedadwy dan y Ddeddf 2003 yw:

- Perfformiad drama;
- Arddangosiad ffilm;
- Digwyddiad chwaraeon dan do;
- Adloniant bocsi neu reslo;
- Perfformiad cerddoriaeth fyw;
- Unrhyw chwarae o gerddoriaeth sydd wedi'u recordio;
- Perfformiad dawn; ac
- Adloniant o ddisgrifiad tebyg i berfformiad cerddoriaeth fyw, unrhyw chwarae o gerddoriaeth sydd wedi'i recordio neu berfformiad dawn.

I fod yn drwyddedadwy, rhaid bod un neu fwy o'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnig at ddiben (o leiaf yn rhannol) adlonni torf; rhaid eu cynnal ar safle sydd ar gael at ddiben galluogi'r gweithgareddau hynny; a rhaid iddynt hefyd naill ai:

- Digwydd ym mhresenoldeb cynulleidfya gyhoeddus, neu
- Pan fod y gweithgaredd hwnnw'n digwydd yn breifat, ei fod yn ymwneud â chost a wneir gan roi sylw at elw.

23.2 Cynulleidfya Gyhoeddus

At ddibenion adloniant rheoledig, mae'r term "cynulleidfya" yn cyfeirio at unrhyw berson y cynigir unrhyw weithgaredd trwyddedadwy ar gyfer eu hadloniant (o

leiaf yn rhannol). Nid oes angen bod aelod o'r gynulleidfa'n cael neu'n dymuno cael adloniant: beth sy'n bwysig yw bod cynulleidfa'n bresennol a taw diben y gweithgaredd trwyddedadwy (o leiaf yn rhannol) yw bwriadu rhoi adloniant i unrhyw berson sy'n bresennol. Ni fydd y gynulleidfa'n cynnwys perfformwyr, yn ogystal ag unrhyw berson sy'n cyfrannu sgiliau technegol mewn cymorth sylweddol i berfformiwr (er enghraifft, peiriannydd sain neu dechnegwr llwyfan) yn ystod unrhyw weithgaredd cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys sefydlu pethau cyn yr adloniant, toriadau rhesymol (gan gynnwys egwyl) rhwng gweithgareddau a phacio lan ar ôl. Yn yr un modd, ni fydd staff diogelwch a gweithwyr bar yn ffurfio rhan o'r gynulleidfa wrth ymgymryd â'u dyletswyddau.

Gellir cynnal mwy nag un gweithgaredd adloniant (neu weithgaredd sengl, mwy nag un perfformiad neu ddigwyddiad) ar yr un pryd, ar yr amod nad yw'r gynulleidfa am bob perfformiad neu ddigwyddiad felly'n uwch na'r trothwy y mae perfformiad neu ddigwyddiad yn dod yn drwyddedadwy arno. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yna wahaniaeth clir rhwng perfformiadau neu ddigwyddiadau; er enghraifft, rhai sy'n digwydd mewn ystafelloedd ar wahân neu ar loriau ar wahân. Serch hynny, bydd rhaid i drefnwyr sicrhau nad yw cynulleidfaoedd yn tyfu neu'n mudo, fel bod y gynulleidfa'n mynd dros y cyfyngiad perthnasol am unrhyw berfformiad neu ddigwyddiad unigol ar unrhyw adeg. Os oes yna bosibilrwydd bod y gynulleidfa'n mudo, efallai budd yn haws ac yn fwy hyblyg sicrhau awdurdodiad priodol.

23.3 **Trosolwg o amgylchiadau pan nad oes modd trwyddedu gweithgareddau adloniant**

Mae yna nifer o eithriadau sy'n meddwl nid oes angen trwydded (neu awdurdodiad arall) dan y Ddeddf 2003. Ni all y Polisi hwn rhoi enghreifftiau o bob digwyddiad neu weithgaredd adloniant posib nad ydynt yn drwyddedadwy. Serch hynny, enghreifftiau yw'r canlynol o adloniant nad yw'n drwyddedadwy:

- Gweithgareddau sy'n cynnwys cymryd rhan mewn gweithredoedd addoli mewn cyd-destun crefyddol;
- Gweithgareddau mewn mannau addoli crefyddol cyhoeddus;
- Addysg – dysgu plant i berfformio cerddoriaeth neu i ddawnsio;
- Arddangosiad o gynnyrch – er enghraifft gitâr – mewn siop gerddoriaeth;
- Ymarfer drama neu berfformiad cerddoriaeth ar gyfer cynulleidfa pan ni chodir cost at ddiben gwneud elw;
- Dawnsio Morris (neu debyg);
- Cerddoriaeth atodol – perfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio os ydynt yn atodol i weithgaredd arall;
- Perfformiad digymell o gerddoriaeth, canu neu ddawnsio;

- Ffeiriau gardd neu debyg os nad ydynt yn cael eu hyrwyddo neu eu cynnal at ddiben budd preifat;
- Ffilmiau ar gyfer hysbysebu, rhoi gwybodaeth, addysg neu mewn amgueddfeydd neu orielau celf;
- Darllediad teledu neu radio – cyn belled â bod y rhaglen yn fyw ac yn digwydd ar yn un pryd;
- Cerbydau sy'n symud – ar unrhyw adeg nad yw'r cerbyd wedi'i barcio'n barhaol neu dros dro;
- Gemau a chwaraeir mewn tafarnau, clybiau ieuenctid ayyb (e.e. pŵl, dartiau neu denis bwrdd);
- Comedi standup; a
- Darpariaeth cyfleusterau adloniant (e.e. lloriau dawns)

23.4 Newidiadau dadreoleiddio lle nad oes angen trwydded

O ganlyniad i newidiadau dadreoleiddio sydd wedi diwygio'r Ddeddf 2003, nid oes angen trwydded am y gweithgareddau canlynol:

- **Dramâu:** nid oes angen trwydded am berfformiadau rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500.
- **Dawns:** nid oes angen trwydded am berfformiadau rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500.
- **Ffilmiau:** nid oes angen trwydded am ffilm 'nid-er-elw' a gynhelir ar safle cyhoeddus rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 a bod y trefnydd (a) yn ennill caniatâd i sgrinio gan berson sy'n gyfrifol am y safle a (b) yn sicrhau bod sgrinio felly'n cydymffurfio â graddfeydd dosbarthu oedran.
- **Digwyddiadau chwaraeon dan do:** nid oes angen trwydded am ddigwyddiad rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 1000.
- **Adloniant bocsio neu reslo:** nid oes angen trwydded am arddangosiad gornest neu arddangosiad o reslo Greco-Rufeinig, neu arddull rydd rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 1000.
- **Cerddoriaeth sydd heb ei chwyddo:** Nid oes angen trwydded am berfformiad o gerddoriaeth fyw sydd heb ei chwyddo rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, ar unrhyw safle.
- **Cerddoriaeth fyw sydd wedi'i chwyddo:** Nid oes angen trwydded am berfformiad o gerddoriaeth fyw sydd wedi'i chwyddo rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod
 - ar safle sydd wedi'i awdurdodi i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500.
 - Mewn gweithle sydd heb drwydded, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500.

- Mewn neuadd eglwys, neuadd bentref, neuadd gymunedol, neu safle cymunedol tebyg, sydd heb eu trwyddedu gan drwydded safle i werthu alcohol, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500, a (b) bod y trefnwr yn cael caniatâd ar gyfer y perfformiad ar y safle perthnasol oddi wrth (i) yr awdurdod lleol perthnasol, neu (ii) yr ysgol, neu (iii) y darparwr gofal iechyd ar gyfer yr ysbyty.
- **Cerddoriaeth wedi'i recordio:** Nid oes angen trwydded i chwarae unrhyw gerddoriaeth sydd wedi'i recordio rhwng 8:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod
 - Ar safle sydd wedi'i awdurdodi i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500.
 - Mewn neuadd eglwys, neuadd bentref, neuadd gymunedol, neu safle cymunedol tebyg, sydd heb eu trwyddedu gan drwydded safle i werthu alcohol, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500, a (b) bod y trefnwr yn cael caniatâd ar gyfer y perfformiad ar y safle perthnasol oddi wrth berson sy'n gyfrifol am y safle.
 - Yn safle dibreswyl (i) awdurdod lleol, neu (ii) ysgol, neu (iii) ysbyty, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500, a (b) mae'r trefnwyr yn cael caniatâd am y perfformiad ar y safle perthnasol oddi wrth: (i) yr awdurdod lleol perthnasol, neu (ii) perchennog yr ysgol, neu (iii) y darparwr gofal am yr ysbyty.
- **Eithriadau Traws-weithgaredd:** Nid oes angen trwydded rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, gyda dim cyfyngiad ar faint y gynulleidfa ar gyfer:
 - Unrhyw adloniant sy'n digwydd ar safle'r awdurdod lleol pan ddarparir yr adloniant gan neu ar ran yr awdurdod lleol;
 - Unrhyw adloniant sy'n digwydd ar safle ysbyty'r darparydd gofal iechyd pan ddarparir yr adloniant gan neu ar ran y darparydd gofal iechyd;
 - Unrhyw adloniant sy'n digwydd ar safle'r ysgol pan ddarparir yr adloniant gan neu ar ran yr ysgol; ac
 - Unrhyw adloniant (ac eithrio ffilmiau ac adloniant bocsio neu reslo) sy'n digwydd mewn syrcaes deithiol, ar yr amod (a) y mae'n digwydd o fewn adeiladwaith symudol sy'n cynnal y gynulleidfa, a (b) nid yw'r syrcaes deithiol wedi'i lleoli ar yr un safle am fwy na 28 diwrnod yn olynol.

Os yw trefnwyr yn ansicr ynglŷn â maint y gynulleidfa neu os yw'r gynulleidfa'n debygol o fudo, efallai bydd yn haws ac yn fwy hyblyg sicrhau awdurdodiad priodol.

Enghreifftiau o phryd efallai bydd dal angen Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (HDDD) yw os y gweithgaredd yw cerddoriaeth wedi'i recordio neu arddangosiad ffilm oedd angen awdurdodiad; neu os nad yw'r adloniant wedi'i awdurdodi gan drwydded gyfredol neu dystysgrif a'u hamodau.

Wrth gwrs, rhaid i unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn trefnu neu ddarparu gweithgareddau adloniant – os yw gweithgaredd o'r fath yn drwyddedadwy dan y Ddeddf 2003 ai peidio – cydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol efallai y gosodir gan ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â'r digwyddiad (e.e. mewn meysydd megis trosedd ac anhrefn, tân, iechedd a diogelwch, sŵn, niwsans a chynllunio). Dylai berson felly cymryd camau i fod yn ymwybodol o'r arferion gorau perthnasol, ac efallai byddant yn darganfod bod yr awdurdodau cyfrifol yn ffynhonnell ddefnyddiol o gymorth a chynghor arbenigol.

23.5 **Amgylchiadau pan nad yw gweithgareddau adloniant bellach yn drwyddedadwy**

Awdurdodau Lleol, darparwyr gofal iechedd ysbyty a pherchnogion ysgol: eithriad gweithgareddau traws-adloniant

Nid oes angen trwydded am unrhyw adloniant a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol, darparydd gofal iechedd, neu berchennog ysgol i'r graddau ei fod yn digwydd ar safle diffiniedig, rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod ar yr amod:

- Am adloniant y darparir gan, neu ar ran, awdurdod lleol, ei fod yn digwydd ar safleoedd lle bod gan yr awdurdod ddiddordeb eiddo perthnasol, neu'n ei feddiannu'n gyfreithlon.
- Am adloniant a darperir gan, neu ar ran, darparwr gofal iechedd, ar yr amod ei fod yn digwydd ar unrhyw safle sy'n ffurfio rhan o ysbyty lle bod gan y darparydd ddiddordeb eiddo perthnasol, neu'n ei feddiannu'n gyfreithlon; ac
- Am adloniant y darparir gan, neu ar ran, perchennog ysgol, ei fod yn digwydd ar safle'r ysgol.

Ni all y polisi hwn roi enghreifftiau o bob digwyddiad posib lle nad yw adloniant yn drwyddedadwy dan yr eithriad hwn trwy gael ei ddarparu "gan neu ar ran". Bydd yn dibynnu ar ffeithiau pob achos.

Serch hynny, enghreifftiau yw'r canlynol o weithgareddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn drwyddedadwy dan yr eithriad hwn:

- Unrhyw weithgaredd adloniant a gynhelir gan awdurdod lleol ar eu safle eu hun pan fod yna berthynas sylweddol rhwng yr awdurdod lleol a darparydd yr adloniant (e.e. pennaeth ac asiant);
- Unrhyw weithgaredd adloniant a drefnir ar ran awdurdod lleol ar safle'r awdurdod lleol hwnnw gan ymddiriedolaeth ddiwylliannol wrth weithredu pŵer dewisol awdurdod lleol i drefnu darpariaeth adloniant a chefnogaeth am y celfyddydau, gan gynnwys gwyliau a dathliadau.

- Unrhyw weithgaredd adloniant a drefnir gan ddarparwydd gofal iechyd ar eu safle ysbyty eu hun mewn partneriaeth ag elusen ysbyty.
- Unrhyw ddigwyddiad adloniant ar safle ysgol a drefnir gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) er mwyn cefnogi'r ysgol.

Dewis yr awdurdod lleol, y darparwydd gofal iechyd neu berchennog ysgol yw e i benderfynu os, ac ar ba sail, y gallent (neu y dymunent) ddarparu gweithgaredd adloniant dan yr eithriad hwn, gan gynnwys ystyried materion ynghylch codi arian, gwneud elw, llywodraethu neu ddefnyddio arian cyhoeddus. Serch hynny, nid yw llog pur y safle gan drydydd barti'n cyfri fel darparu digwyddiad adloniant "ar ran" awdurdod lleol, darparwydd gofal iechyd, neu berchennog ysgol ac nid felly yw adloniant masnachol y mae'r awdurdod lleol yn galluogi trwy gynnig man cyhoeddus yn unig.

Diffinnir y termau i gyd y defnyddiwyd yn yr eithriad hwn megis "awdurdod lleol", "gofal iechyd", "darparwydd gofal iechyd", "ysbyty", "ysgol", "safle ysgol", "berchennog ysgol", "safle domestig" a "diddordeb eiddo perthnasol" yn y Gorchymyn 2014.

Awdurdod lleol, ysbyty a safle ysgol: adloniant cerddorol trydydd parti

Nid oes angen trwydded i berfformio cerddoriaeth fyw neu i chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio ar safleoedd awdurdod lleol, ysbyty neu ysgol, nad ydynt yn safleoedd domestig, rhwng 08:00 – 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod;

- Y caiff ei berfformio o flaen cynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl; a
- Bod person sy'n berthnasol i drefniant neu reolaeth yr adloniant cerddoriaeth wedi cael caniatâd ysgrifenedig blaenorol yr awdurdod lleol, darparwydd gofal iechyd neu berchennog ysgol (fel bo'n briodol) er mwyn i'r adloniant hwnnw ddigwydd. Dewis y "darparwyr dibynadwy" hyn yw penderfynu os ydynt, neu os na ydynt, yn dymuno gwneud eu safle ar gael am adloniant cerddorol gan drydydd parti ac ar ba delerau maent yn eu hystyried yn briodol.

Safle cymunedol: adloniant cerddorol

Nid oes angen trwydded i berfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio ar safle cymunedol rhwng 08:00 – 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod;

- Nad yw'r safle cymunedol wedi'i awdurdodi gan drwydded safle neu dystysgrif safle clwb i'w ddefnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle;

- Bod yr adloniant cerddorol ym mhresenoldeb cynulleidfa o ddim mwy na 500 person; a
- Bod person sy'n berthnasol i drefniad neu reolaeth yr adloniant cerddorol wedi cael caniatâd ysgrifenedig blaenorol y pwyllgor sy'n rheoli'r safle, neu os nad oes pwyllgor rheoli, yna person sy'n rheoli'r safle mewn cysylltiad â pharhau masnach, busnes neu weithred arall gan y person hwnnw, neu os na, person sydd â diddordeb eiddo perthnasol yn y safle.

Safle cymunedol: arddangos ffilm

Nid oes angen trwydded i arddangos ffilm ar safle cymunedol rhwng 08:00-23:00 ar unrhyw ddiwrnod ar yr amod:

- Nad yw'r adloniant ffilm yn cael ei gynnig er mwyn cael elw;
- Bod yr adloniant ffilm ym mhresenoldeb cynulleidfa o ddim mwy na 500 person;
- Bod mynediad plant yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau hynny sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r argymhelliad a gyflwynir gan y BBFC neu awdurdod trwyddedu perthnasol yn ymwneud â mynediad plant; a
- Bod person sy'n berthnasol i drefniad neu reolaeth yr arddangosiad ffilm wedi cael caniatâd ysgrifenedig blaenorol y pwyllgor sy'n rheoli'r safle, neu os nad oes pwyllgor rheoli, yna person sy'n rheoli'r safle mewn cysylltiad â pharhau masnach, busnes neu weithred arall gan y person hwnnw, neu os na, person sydd â diddordeb eiddo perthnasol yn y safle.

Dan yr eithriad hwn, un amod yw nad yw'r adloniant ffilm yn cael ei ddarparu gyda'r bwriad o wneud elw. Nid yw cost mynediad ynddo'i hun yn gwneud yr adloniant ffilm yn drwyddedadwy; dim ond os yw'r trefnwyr yn bwriadu gwneud elw (sy'n cynnwys codi arian am elusen). Mae cost neu gyfraniad a wneir er mwyn cwrdd â chostau sgrinio'r ffilm yn unig yn gyson â 'heb ei ddarparu gyda'r bwriad o wneud elw'. Mae'r amod 'heb fwriadu gwneud elw' yn berthnasol i weithred arddangos y ffilm dan yr eithriad hwn yn unig. Gellir codi tâl gyda'r bwriad o wneud elw yn gyfreithlon am unrhyw weithgaredd arall neu ddigwyddiad sy'n wahanol i fynediad y ffilm, megis cynnig lluniaeth, sgysiau am y ffilm, neu ddigwyddiad cymdeithasol.

Mae'r eithriad ffilm gymunedol hwn hefyd yn amodol ar y rheini sy'n gyfrifol yn gweithredu trefniadau sy'n sicrhau y gorfodir gradd oedran y ffilm trwy bolisi mynediad plant priodol. Sut y cyflawnir hyn yw mater am y sefydliad neu grŵp cymdeithasol sy'n arddangos y ffilm. Er enghraifft, gallent weithredu cynllun tanysgrifiad aelodaeth sy'n talu am fynediad i bob teitl mewn tymor ac sydd i oedolion yn unig. Gallai fod yn glwb ffilm i blant gyda pholisi o ddangos ffilmiau sy'n addas i bawb yn unig oherwydd iddynt dderbyn 'U' gan y BBFC. Fel arall,

gall y trefnwyr gwerthu tocynnau i'r cyhoedd a sicrhau bod plant dim ond yn cael caniatâd i fynychu yn unol ag unrhyw raddfa oedran ar gyfer y ffilm – h.y. polisi mynediad ar y drws sydd gysylltiedig â phrawf oedran.

Syracasau Teithiol

Pan fod y mathau o adloniant yn bodoli mewn perfformiad gan syrcas deithiol, ni fyddant yn drwyddedadwy ar yr amod y cyflawnir amodau cymhwyso penodol. Yr amodau cymhwyso yw:

- Nid arddangosiad o ffilm neu adloniant bocsio neu reslo yw'r adloniant;
- Mae'r adloniant yn digwydd rhwng 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod;
- Mae'r adloniant i gyd yn digwydd o fewn adeiladwaith symudol a chynhelir y gynulleidfa sy'n bresennol i gyd o fewn yr adeiladwaith symudol hwnnw; ac
- Nid yw'r syrcas deithiol wedi'i lleoli ar yr un safle am fwy na 28 diwrnod yn olynol.

Cerddoriaeth Fyw

Mae cerddoriaeth fyw'n drwyddedadwy:

- Pan fod perfformiad o gerddoriaeth fyw – wedi'i neu heb ei chwyddo – yn digwydd cyn 08:00 neu ar ôl 23:00 ar unrhyw ddiwrnod;
- Pan nad yw perfformiad o gerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo'n digwydd naill ai ar safle trwyddedig perthnasol, neu mewn gweithle sydd heb ei drwyddedu ac eithrio ar gyfer darparu lluniaeth hwyrnos;
- Pan fod perfformiad o gerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo'n digwydd ar amser lle nad yw'r safle trwyddedig perthnasol ar agor at ddibenion cael eu defnyddio i werthu neu i gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle;
- Pan fod perfformiad o gerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo'n digwydd ar safle trwyddedig perthnasol, neu weithle, ym mhresenoldeb cynulleidfa o dros 500 o bobl; neu
- Pan fod awdurdod trwyddedu'n cael gwared yn fwriadol ar effaith y dadreoleiddio y darperir ar ei gyfer gan y Ddeddf 2003 trwy orfodi amod ar drwydded safle neu dystysgrif safle clwb o ganlyniad i adolygiad trwydded.

Mewn unrhyw un o'r amgylchiadau uchod, oni bai bod y perfformiad o gerddoriaeth fyw wedi'i awdurdodi'n briodol gan drwydded safle, dystysgrif safle clwb neu HDDD, gall ei alluogi i ddigwydd arwain at gamau gorfodi a, lle bo'n briodol, adolygiad o'r drwydded neu thystysgrif alcohol.

Nid oes angen trwydded bellach ar berfformiad cyhoeddus o gerddoriaeth fyw heb ei chwyddo sy'n digwydd rhwng 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod dan y Ddeddf 2003 mewn unrhyw leoliad. Eithriad i hyn yw pan fod amod benodol sy'n ymwneud â cherddoriaeth fyw yn cael ei chynnwys yn dilyn adolygiad o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb sy'n ymwneud â safleoedd trwyddedig perthnasol.

Termau allweddol a ddefnyddir mewn perthynas â cherddoriaeth fyw

Dan y darpariaethau cerddoriaeth fyw, mae "cerddoriaeth" yn cynnwys cerddoriaeth leisiol neu offerynnol neu unrhyw gyfuniad o'r ddau. "Cerddoriaeth fyw" yw perfformiad o gerddoriaeth fyw ym mhresenoldeb cynulleidfya y mae'n bwriadu adlonni. Er y gall perfformiad o gerddoriaeth fyw gynnwys chwarae rhywfaint o gerddoriaeth wedi'i recordio, mae cerddoriaeth 'fyw' yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r perfformiad cynnwys chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio'n gyfan gwbl heb unrhyw gyfraniad creadigol ychwanegol (sylweddol a pharhaol). Felly, er enghraifft, buasai peiriant drwm neu drac yn y cefndir a ddefnyddir i gyd-fynd â chanwr neu fand yn rhan o berfformiad cerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo. Ni fyddai perfformiad DJ sy'n chwarae traciau yn unig yn cael ei ddynodi fel cerddoriaeth fyw, ond efallai byddai os oedd ef neu hi'n perfformio set oedd yn cynnwys cymysgu cerddoriaeth mewn perfformiad byw i greu synau newydd yn bennaf. Mae'n anochel y bydd yna rywfaint o ddyfarniad ynglŷn ag os taw cerddoriaeth fyw (neu gerddoriaeth wedi'i recordio) yw perfformiad a dylai trefnwyr digwyddiadau wirio gyda'u hawdurdod trwyddedu am os yw'r ystyriaeth hon yn berthnasol ynglŷn ag awdurdodi'r gweithgaredd gan drwydded neu dystysgrif. Mewn achos anghydfod ynglŷn ag os taw cerddoriaeth fyw yw perfformiad ai peidio, penderfyniad i'r awdurdod trwyddedu y bydd yn flaenorol ac, yn y pen draw, i'r llysoedd yn amgylchiadau unigol unrhyw achos.

Mae "gweithle" fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992, sef unrhyw le sydd ar gael i unrhyw berson fel man gwaith. Term eang iawn yw e gall gynnwys mannau awyr agored yn ogystal â moddau mynediad a gadael.

"Safle trwyddedig perthnasol" at ddibenion y bennod hon yw un sydd wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle gan drwydded safle neu dystysgrif safle clwb. Ni all safleoedd manteisio o'r dadreoleiddio a gyflwynwyd gan y Ddeddf 2012 yn rhinwedd dal awdurdodiad i werthu neu gyflenwi alcohol dan HDDD.

Cerddoriaeth wedi'i Recordio

Nid oes angen trwydded am gerddoriaeth wedi'i recordio pan yw'n digwydd ar safleoedd sydd wedi'u hawdurdodi gan drwydded safle neu dystysgrif safle clwb i'w defnyddio er mwyn cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle; Serch hynny, mae cerddoriaeth wedi'i recordio yn parhau i fod yn drwyddedadwy:

- Pan fod chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio'n digwydd cyn 8:00 neu ar ôl 23:00 ar unrhyw ddiwrnod;
- Pan fod chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio'n digwydd ar amser pan nad yw'r safleoedd trwyddedig perthnasol ar agor at ddibenion cael eu defnyddio i werthu neu i gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle;
- Pan fod chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio'n digwydd ar safle trwyddedig perthnasol ym mhresenoldeb cynulleidfa o dros 500 o bobl; a
- Pan fod awdurdod trwyddedu'n cael gwared yn bwrpasol ar effaith y dadreoleiddio y darperir ar ei gyfer gan y Ddeddf 2003 (fel y'i diwygiwyd).

Dramâu a Dawns

Nid oes angen trwydded am berfformiad o ddrama neu ddawns i'r graddau bod amodau cymhwyso penodol wedi'u bodloni. Serch hynny, mae perfformiad o ddrama neu ddawns yn parhau i fod yn drwyddedadwy;

- Pan fod y perfformiad yn digwydd cyn 8:00 neu ar ôl 23:00 ar unrhyw ddiwrnod; neu
- Pan fod y perfformiad yn digwydd ym mhresenoldeb cynulleidfa o dros 500 o bobl.

Chwaraeon Dan Do

Nid oes angen trwydded am ddigwyddiad chwaraeon dan do i'r raddau bod amodau cymhwyso penodol wedi'u bodloni. Serch hynny, mae digwyddiad chwaraeon dan do yn parhau i fod yn drwyddedadwy:

- Pan fo'r perfformiad yn digwydd cyn 8:00 neu ar ôl 23:00 ar unrhyw ddiwrnod; neu
- Pan fo'r digwyddiad yn digwydd ym mhresenoldeb mwy na 1000 o wylwyr.

23.6 Amodau Trwydded

Cerddoriaeth Fyw neu Gerddoriaeth wedi'i Recordio

Mae unrhyw amodau trwydded cyfredol, neu amodau a ychwanegir at benderfyniad o gais am drwydded neu dystysgrif safle clwb sy'n ymwneud â cherddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio yn parhau i weithredu, ond

byddant yn cael eu hatal rhwng oriau 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod pan gyflawnir yr amodau canlynol:

- Ar amser yr adloniant cerddoriaeth, bod y safle ar agor at ddibenion cael ei ddefnyddio i werthu neu i gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle;
- Os yw'r gerddoriaeth wedi'i chwyddo, ei fod yn digwydd o flaen cynulleidfa o ddim mwy na 500 person; a
- Bod yr adloniant yn digwydd rhwng 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod.

Mater ffeithiau unigryw pob achos bydd os yw amod trwydded yn ymwneud â cherddoriaeth fyw neu wedi'i recordio. Mewn rhai achosion, bydd yn amlwg bod amod yn ymwneud â cherddoriaeth ac y caiff ei hatal, er enghraifft "yn ystod perfformiadau cerddoriaeth fyw rhaid i ddrysau a ffenestri i gyd aros ar gau". Mewn achosion eraill, efallai ni fyddai mor amlwg: er enghraifft, buasai amod sy'n datgan "yn ystod perfformiadau adloniant rheoledig rhaid i ddrysau a ffenestri i gyd aros ar gau" yn cael ei atal i'r graddau y mae'n ymwneud â cherddoriaeth rhwng 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod i gynulleidfa o hyd at 500, ond buasai'r amod yn parhau i fod yn gymwys os oedd yna adloniant rheoledig ar ôl 23:00.

Bydd amodau trwydded mwy cyffredin (e.e. y rheini sy'n ymwneud â rheolaeth gyffredinol o niwsans sŵn posib) nad ydynt yn ymwneud yn benodol â darpariaeth adloniant (e.e. arwyddion sy'n gofyn i bobl adael yn dawel) yn parhau i gael effaith.

Caiff yr amodau hyn eu hatal i bob pwrpas rhwng 08:00 a 23:00 os yw perfformiad o gerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio'n digwydd o flaen cynulleidfa o 500 person neu lai, ond bydd yn parhau ar wyneb y drwydded am pan fydd y gweithgareddau hyn efallai'n digwydd dan amodau gwahanol.

Pan na fydd perfformiad o gerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio ar safle trwyddedig perthnasol yn drwyddedadwy, mae'r posibilrwydd yn parhau bod unrhyw un yn ceisio am adolygiad o drwydded neu dystysgrif, os oes yna sail briodol dros wneud hynny.

Gerddi Cwrw

Mae gerddi cwrw'n cael eu cynnwys yn aml fel rhan o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb. Mae cerddoriaeth wedi'i chwyddo sy'n digwydd mewn gardd gwrw wedi'i heithrio o ofynion trwyddedu, ar yr amod bod yr ardd gwrw wedi'i chynnwys yn y drwydded neu dystysgrif sy'n ymwneud â'r safle

trwyddedig perthnasol, a bod y perfformiad yn digwydd rhwng 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod o flaen cynulleidfa o 500 person neu lai.

Pan na fydd gardd gwrw'n ffurfio rhan o'r safle trwyddedig perthnasol ac felly na fydd wedi'i chynnwys yn y cynlluniau a atodir i drwydded safle neu dystysgrif safle clwb, mae'n debygol iawn taw gweithle y bydd. O'r herwydd, rhaid cynnwys cynllun yr ardd gwrw er mwyn dangos ardal y gweithle.

Mae Paragraff 12B o Amserlen 1 i'r Ddeddf 2003 yn nodi nad adloniant rheoledig yw perfformiad o gerddoriaeth fyw mewn gweithle sydd heb drwydded (ac eithrio er mwyn cynnig lluniaeth hwyrnos) os yw'n digwydd rhwng 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod o flaen cynulleidfa o ddim mwy na 500 person. Nodwch nad yw'r eithriad ym mharagraff 12B yn berthnasol i chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio.

Serch hynny, gall awdurdod trwyddedu, lle y gellir ei gyfiawnhau, gosod amod trwydded sy'n ymwneud â pherfformio cerddoriaeth fyw mewn gardd gwrw didrwydded a weinir gan unrhyw drwydded safle neu dystysgrif safle clwb cysylltiedig. Ar yr amod y gosodir amod felly'n gyfreithlon, daw i rym yn unol â'i delerau.

Dramâu, dawns a chwaraeon dan do

Pan fydd amodau cymhwyso wedi'u bodloni, ni chaiff amod drwydded gyfredol sy'n ymwneud â pherfformiad drama neu ddawns, neu ddigwyddiad chwaraeon nad oes angen trwydded ar ei gyfer bellach unrhyw effaith (ac eithrio dan yr amgylchiadau a ddiffinnir yn y paragraff nesaf).

Pan fydd, fodd bynnag, yr amodau nad ydynt yn drwyddedadwy'n digwydd ar yr un pryd â gweithgareddau arall sydd angen trwydded (e.e. gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle), gall amodau a gynhwysir mewn trwydded bod yn berthnasol serch hynny i'r gweithgareddau nad ydynt yn drwyddedadwy dan yr amgylchiadau a nodir uchod.

Mae dawns sy'n ddigon rhywiol ei natur yn parhau i gael ei rheoli. Nid yw perfformiadau dawns sy'n "adloniant perthnasol" o fewn ystyr y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982") yn cael eu dadreoleiddio, waeth beth yw maint y gynulleidfa neu amser y diwrnod. Diffinnir "adloniant perthnasol" yn y Ddeddf 1982 fel perfformiad fyw neu arddangosiad byw o noethni gellir tybio, gan anwybyddu budd ariannol, eu bod yn cael eu darparu yn unig neu'n bennaf at ddibenion ysgogi unrhyw aelod o'r gynulleidfa'n rhywiol.

Mewn bron bob achos pan yw'n bosib bod perfformiad o ddawns yn drwyddedadwy fel darpariaeth adloniant perthnasol (dan y Ddeddf 1982) yn ogystal ag adloniant rheoledig (dan y Ddeddf 2003), mae'r Ddeddf 1982 yn anghymwyso'r gyfundrefn trwyddedu adloniant yn y Ddeddf 2003 o blaid ei chyfundrefn lymach ar gyfer rheoli sefydliadau rhyw. Serch hynny, bydd dal angen awdurdodiad dan y Ddeddf 2003 yn hytrach na'r Ddeddf 1982 pan:

- Nad yw'r safle'n drwyddedig fel lleoliad adloniant rhyw dan y Ddeddf 1982; a
- Pan fod adloniant perthnasol wedi'i ddarparu ar y safle hwnnw ar ddim mwy nag 11 achlysur mewn unrhyw gyfnod 12 mis, gyda dim o'r achlysuron hynny'n para dros 24 awr neu'n digwydd o fewn mis o unrhyw achlysur felly.

Adloniant bocsio neu reslo ac amodau sy'n ymwneud â chwaraeon ymladd cymysg

Ni all adloniant bocsio neu reslo dan do fod yn ddigwyddiad chwaraeon dan do yn ogystal, ac adloniant bocsio neu reslo yw unrhyw ornest, arddangosfa neu arddangosiad sy'n cyfuno bocsio neu reslo ag un neu mwy o grefftau ymladd ('chwaraeon ymladd cymysg') os yw dan do ai peidio.

Pan fydd trwydded safle neu dystysgrif safle clwb yn honni awdurdodi adloniant bocsio neu reslo neu chwaraeon ymladd cymysg fel 'digwyddiad chwaraeon dan do', darparir y Gorchymyn 2013 y caiff yr awdurdodiad ei drin fel ei fod wedi awdurdodi'r gweithgareddau hynny fel adloniant bocsio neu reslo. Bydd y gweithgareddau hynny'n parhau i fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau perthnasol sydd wedi'u hatodi i'r awdurdodiad hwnnw.

Nid oes angen trwydded ar ornest, arddangosfa neu arddangosiad o reslo Greco-Rufeinig, neu reslo arddull rydd, rhwng dau gyfranogwr (waeth beth fo'u rhyw) ar yr amod y cyflawnir amodau cymhwysio penodol. Rhain yw:

- Ei fod yn digwydd ym mhresenoldeb dim mwy na 1,000 o wylwyr;
- Ei fod yn digwydd rhwng 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod; ac
- Ei fod yn digwydd o fewn adeilad yn gyfan gwbl ac y cynhalir gwylwyr sy'n bresennol am yr adloniant hwnnw yn gyfan gwbl o fewn yr adeilad hwnnw.

23.7 Amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau eraill na ellir eu trwyddedu

Os yw'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, ac os oes yna gysylltiad â gweithgareddau trwyddedadwy sydd ar ôl, gellir ychwanegu neu addasu amodau yn ymwneud â gweithgareddau na ellir eu trwyddedu ar y drwydded safle neu'r dystysgrif safle clwb honno yn yr adolygiad yn dilyn problemau sy'n digwydd ar y safle. Nodwedd amodau trwyddedu yw hwn ers i'r

Ddeddf 2003 ddod i rym. Gall esiampyl berthnasol o hyn fod defnydd amodau yn ymwneud â darllediadau sgrin fawr o ddigwyddiadau chwaraeon penodol gall, ynghyd ag yfed alcohol, creu risg go iawn i hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu. Nid yw'n anghyffredin yn ogystal bod amodau trwyddedu yn ymwneud â gwerthu alcohol yn cyfyngu mynediad i fannau awyr agored, megis gerddi cwrw didrwydded, ar ôl amser penodol.

Yn yr un modd, er nad oes angen trwyddedu bellach gan garioci fel darpariaeth cymwysterau adloniant (a chaiff ei ddynodi'n gyffredinol fel perfformiad o gerddoriaeth fyw) efallai, er enghraifft, y bydd yn bosib wedi adolygiad i gyfyngu defnydd neu gryfder meicroffon sydd ar gael i gwsmeriaid ar noson 'meic agored' (sy'n cynnwys mwy na cherddoriaeth fyw yn unig) os oes problem wedi digwydd o ganlyniad i gwsmeriaid sy'n prynu alcohol i'w yfed ar y safle yn dod yn fwy swnllyd ac yn llai ymwybodol o achosi niwsans sŵn yn hwyrach yn y noswaith. Enghraifft arall efallai bydd amod sy'n cyfyngu mynediad i lawr dawns ar adegau penodol, pan fod presenoldeb cwsmeriaid sy'n agos i'w gilydd sydd wedi bod yn yfed alcohol ar y safle'n arwain at anhrefn difrifol. Yn yr achos cyntaf, dewis yr awdurdod trwyddedu yw e i fodloni ei hun bod amod penodol yn briodol ac yn gyfreithlon ym mhob achos.

23.8 **Cerddoriaeth atodol**

Nid adloniant rheoledig yw perfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio dan y Ddeddf 2003 os yw hyn yn 'atodol' i weithgaredd arall "nad yw ynddo'i hun yn ddisgrifiad o adloniant sy'n cwmpo o fewn paragraff 2" o Amserlen 1 i'r Ddeddf 2003. 16.58 Gall yr eithriad cerddoriaeth atodol fod yn berthnasol i ddigwyddiad chwaraeon dan do neu i berfformiad drama neu ddawns pan nad oes angen trwydded, gan eu bod yn digwydd rhwng 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod ac o flaen cynulleidfa nad yw'n fwy na'r cyfyngiad perthnasol. Mae hyn oherwydd nad yw gweithgaredd felly bellach yn ddisgrifiad o adloniant o fewn ystyr paragraff 2 o Amserlen 1 i'r Ddeddf 2003. Golygir hyn efallai y gall, er na all perfformiad o gerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio fod yn atodol i adloniant bocsio neu reslo, cerddoriaeth o'r fath bod o fewn cwmpas yr eithriad cerddoriaeth atodol ar gyfer digwyddiad chwaraeon dan do neu berfformiad drama neu ddawns pan nad oes angen trwydded.

Bydd p'un a yw cerddoriaeth yn "atodol" i weithgaredd arall ai peidio yn dibynnu ar ffeithiau pob achos. Wrth ystyried os yw cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n atodol ai peidio, efallai un ffactor perthnasol fydd, yn erbyn cefndir y gweithgareddau sy'n digwydd eisoes, a yw ychwanegu cerddoriaeth yn creu'r posibilrwydd o danseilio'r hyrwyddiad o un neu mwy o bedwar amcan

trwyddedu'n Ddeddf 2003. Efallai bydd ffactorau eraill yn cynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Ai'r prif reswm, neu un o'r prif resymau, y mae pobl yn mynychu'r safle ac yn talu yw'r gerddoriaeth?
- A yw'r gerddoriaeth wedi'i hysbysebu fel y prif atyniad?
- A yw cryfder y gerddoriaeth yn torri ar draws neu yn dominyddu gweithgareddau eraill, neu gellir ei diffinio fel cerddoriaeth "yn y cefndir"?

I'r gwrthwyneb, mae ffactorau nad ydynt fel arfer yn berthnasol ar ben eu hunain yn cynnwys:

- Nifer y cerddorion e.e. cerddorfa sy'n darparu cerddoriaeth atodol mewn arddangosfa fawr;
- Os yw'r cerddorion yn cael eu talu;
- Os yw'r perfformiad wedi'i drefnu o flaen llaw; ac
- Os godir tâl am fynediad i'r safle.

Mewn unrhyw achos dadleuol, dewis yr awdurdod trwyddedu yn flaenorol ac, yn y pen draw, i'r llysoedd y bydd i benderfynu a yw'r gerddoriaeth yn "atodol" yn amgylchiadau penodol unrhyw achos.

23.9 Cael gwared ar amodau trwyddedu

Ar adolygiad o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb, mae adran 177A(3) o'r Ddeddf 2003 yn caniatáu bod awdurdod trwyddedu'n codi'r ataliad ac yn rhoi effaith o'r newydd i amod sy'n bodoli eisoes yn ymwneud â cherddoriaeth. Yn yr un modd, dan adran 177A(4), gall awdurdod trwyddedu ychwanegu amod sy'n ymwneud â cherddoriaeth fel petai adloniant rheoledig yw cerddoriaeth, ac fel petai'r drwydded safle neu dystysgrif safle clwb wedi trwyddedu'r gerddoriaeth. Yn y ddau achos, dylai'r amod gynnwys datganiad nad yw Adran 177A yn berthnasol i'r amod.

Gall awdurdod lleol, unrhyw awdurdod cyfrifol neu unrhyw berson arall wneud cais am adolygiad mewn perthynas â safle perthnasol. Rhaid bod ceisiadau am adolygiad dal yn berthnasol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu ac yn cwrdd â nifer o ofynion pellach.

23.10 Perfformio yn y stryd

Canu yn y stryd neu berfformiad stryd yw'r arfer o berfformio mewn mannau cyhoeddus am arian. Nid yw perfformiadau wedi'u cyfyngu i gerddoriaeth neu

ganu a gallent gymryd ffurf ystod eang o weithgareddau y mae pobl yn cael adloniant ohonynt.

Nid yw canu yn y stryd fel arfer yn drwyddedadwy dan y Ddeddf 2003 oherwydd

- Ei fod yn aml yn digwydd mewn man nad yw'n safle sydd ar gael (o leiaf yn rhannol) at ddibenion cynnig adloniant.
- Mae'r adloniant fel arfer yn atodol i weithgaredd arall, megis siopa neu weld atyniadau, gan nad oes llawer o amgylchiadau pan fuasai unrhyw yn mynd mas yn benodol i wyllo perfformwyr stryd; a
- Nid yw cerddoriaeth fyw heb ei chwyddo'n drwyddedadwy rhwng 08:00 a 23:00.

Mae gan Sir Fynwy bolisi perfformio ar y stryd sy'n ymwneud â lle fydd yn addas gwneud gweithgaredd o'r fath a gellir dod o hyd i hwn yma www.monmouthshire.gov.uk/licensing

23.11 **Ffilm Atodol**

Nid adloniant rheoledig yw arddangosiad ffilm o fewn paragraff 15 o Amserlen 1 i'r Ddeddf 2003 os yw hyn yn 'atodol' i weithgaredd arall "nad yw ynddo'i hun yn ddisgrifiad o adloniant sy'n cwmpo o fewn paragraff 2" o Amserlen 1 i'r Ddeddf 2003.

Gall yr eithriad ffilm atodol fod yn berthnasol i ddigwyddiad chwaraeon dan do neu berfformiad drama neu ddawns pan nad oes angen trwydded gan eu bod yn digwydd rhwng 08:00 a 23:00 ar yr un diwrnod ac o flaen cynulleidfa nad yw'n fwy na'r cyfyngiad perthnasol. Mae hyn oherwydd nad yw gweithgaredd felly bellach yn ddisgrifiad o adloniant o fewn ystyr paragraff 2 o Amserlen 1 i'r Ddeddf 2003.

Golygir hyn, er na all arddangosiad o luniau sy'n symud fod yn atodol i adloniant bocsio neu reslo, efallai bydd arddangosiadau ffilm o'r fath o fewn cwmpas yr eithriad ffilm atodol am ddigwyddiad chwaraeon dan do neu berfformiad o ddrama neu ddawns nad oedd angen trwydded arnynt.

Bydd p'un a yw cerddoriaeth yn "atodol" i weithgaredd arall ai peidio yn dibynnu ar ffeithiau pob achos. Wrth ystyried os yw cerddoriaeth ffilm yn atodol ai peidio, efallai un ffactor perthnasol fydd, yn erbyn cefndir y gweithgareddau sy'n digwydd eisoes, a yw ychwanegu arddangosiad o luniau sy'n symud yn creu'r posibilrwydd o danseilio'r hyrwyddiad o un neu mwy o bedwar amcan trwyddedu'r Ddeddf 2003. Golygir hyn, os yw'r BBFC neu awdurdod trwyddedu perthnasol wedi rhoi graddfa oedran i ffilm, fideo neu fideo cerddoriaeth, yna

bydd angen cyfyngu mynediad plant i'r safle yn ôl y raddfa oedran perthnasol er mwyn bod yn gymwys am yr eithriad trwyddedu "ffilm atodol". Serch hynny, un agwedd o un ffactor berthnasol yw honno. Efallai bydd ffactorau eraill i'w hystyried wrth asesu a yw ffilm yn atodol gan gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Ai'r prif reswm, neu un o'r prif resymau, y mae pobl yn mynychu'r safle ac yn talu yw'r ffilm?
- A yw'r ffilm wedi'i hysbysebu fel y prif atyniad?
- A yw sgrinio'r ffilm yn dominyddu dros weithgareddau eraill, neu gellir ei disgrifio fel delweddau "yn y cefndir"?
- A yw presenoldeb delweddau sy'n symud o fewn gweithgaredd adloniant arall nad oes angen trwydded ar ei gyfer (e.e. perfformiad drama neu ddawns) yn tanseilio hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu?

23.12 **Gweithgaredd adloniant sy'n cael ei gynnig fel rhan o ofal plant**

Ni fydd gweithgaredd a ddarperir fel rhan o ofal plant fel arfer yn drwyddedadwy. Mae hyn y cynnwys gweithgaredd adloniant mewn meithrinfa neu gartref preifat. Yn ogystal, mae paragraff 5 o Amserlen 1 i'r Ddeddf 2003 yn cynnwys eithriad trwyddedu ar gyfer arddangosiad ffilm pan y prif fwriad fydd darparu addysg. Bydd addysg yn gyffredinol yn cynnwys ffurfiau gofal cyn ysgol plant a gofal diwrnod i gyd. Ymhellach, bydd arddangosiad ffilm, neu chwarae cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio, fel arfer yn atodol i'r gweithgaredd gofal plant ac felly bydd yr eithriad cerddoriaeth a ffilm ym mharagraff 7 o Amserlen 1 hefyd yn berthnasol. Yn gyffredinol, bydd hyn yn wir am unrhyw weithgaredd a drefnir fel rhan o ofal plant cofleidiol, gan gynnwys clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol neu glybiau gwyliau sy'n gysylltiedig i ysgol y plentyn neu sydd wedi'u lleoli yn y gymuned leol.

23.13 **Perfformwyr sy'n Blant**

Mae deddfwriaeth perfformio plant yn ei gwneud hi'n ofynnol bod rhaid cael trwydded o awdurdod lleol cartref y plentyn cyn i blentyn allu cymryd rhan mewn rhai mathau o berfformiad a gweithgareddau. Efallai bydd angen trwydded os gwneir taliad am y plentyn i berfformio ai peidio. Nid yw dadreoleiddio trwyddedu adloniant yn newid y rheoliadau ynghylch pryd y gall plant gymryd rhan mewn perfformiadau. I gael rhagor o wybodaeth am y drwydded ar gyfer Perfformwyr sy'n Blant, cysylltwch â Gwasanaethau Lles Addysg Sir Fynwy i blant yn educationwelfare@monmouthshire.gov.uk. Cyfeiriwch at y [Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Plant mewn Cyflogaeth ac Adloniant](#) am ragor o wybodaeth..

24. Gweinyddiaeth

Mae tîm trwyddedu'r cyngor yn gweinyddu pob agwedd o'r Ddeddf Trwyddedu 2003, gan gynnwys ceisiadau, cynrychioliadau a cheisiadau am gymorth a chynghor. Mae gan wefan y cyngor wybodaeth fanwl ynglŷn â'r gwasanaethau i gyd y mae'n eu cynnig i drwyddedai, ymgeiswyr, achwynwyr a phob ymholiad arall. Gellir lawrlwytho gwybodaeth a ffurflenni cais o'n gwefan. Gellir cysylltu â'r timau trwyddedu trwy unrhyw un o'r moddau canlynol:-

Adran Trwyddedu
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA
E-bost: licensing@monmouthshire.gov.uk
Ffôn: 01873 735420
Ffacs: 01633 644878
Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk/licensing

25. Gweithdrefnau ymgeisio

- 25.1 Argymhellir yn gryf bod ymgeiswyr arfaethedig yn ceisio cyngor cyn ymgeisio. Rhoddir cyngor ynglŷn â'r broses gais, ond ni fydd yr Awdurdod Lleol ar unrhyw adeg yn cwblhau'r ffurflen gais ar ran ymgeisydd. Mae gan wefan y cyngor wybodaeth fanwl ynglŷn â'r gwasanaethau i gyd y mae'n eu cynnig i drwyddedai, ymgeiswyr, achwynwyr a phob ymholiad arall. Yn ogystal, gellir defnyddio'r wefan i archwilio trwyddedau sy'n bodoli eisoes er mwyn gweld gweithgareddau, amserau ac amodau ac mae ar gael yma www.monmouthshire.gov.uk/licensing.
- 25.2 Yn unol â Rheoliadau Darpariaeth Gwasanaethau 2009, mae cyfleusterau ymgeisio electronig am drwyddedau safle ar gael a gellir dod o hyd iddynt ar GOV.UK neu www.monmouthshire.gov.uk/licensing. Mae ceisiadau am gategoriâu eraill o drwyddedau ac awdurdodiadau hefyd ar gael ar y safleoedd hyn. Caiff ceisiadau a wneir ar ffurf electronig neu drwy GOV.UK eu hanfon i'r awdurdodau cyfrifol gan yr awdurdod trwyddedu. Os yw'r ymgeisydd yn cyflwyno eu cais yn ysgrifenedig, byddant yn parhau i fod yn gyfrifol am ei gopïo i'r awdurdodau cyfrifol.

- 25.3 Mae manylion o geisiadau ar gael trwy wefan Cyngor Sir Fynwy yma:
www.monmouthshire.gov.uk/licensing.
- 25.4 Rhaid gwneud ceisiadau am bob trwydded ac awdurdodiad sydd ar gael dan y Ddeddf 2003 ar y ffurflen berthnasol sydd wedi'i rhagnodi dan reoliadau eilaidd. Ni chaiff ceisiadau eu symud ymlaen hyd nes bod y ffurflen wedi'i chwblhau'n llawn a'i derbyn, ynghyd â'r ffi(oedd) perthnasol a phob gwybodaeth arall sydd ei hangen, gan yr Awdurdod Trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol perthnasol.
- 25.5 Lle y gwneir ceisiadau electronig, ystyrir bod y cais wedi'i 'roi' pan fydd yr ymgeisydd wedi cyflwyno ffurflen gais gyflawn ac wedi cyflwyno'r ffi.
- 25.6 **Yr Awdurdodau Cyfrifol yw:**

Awdurdod Cyfrifol	Manylion cyswllt
Awdurdod Trwyddedu	Trwyddedu Cyngor Sir Fynwy Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA. licensing@monmouthshire.gov.uk
Yr Awdurdod Iechyd Amgylcheddol	Iechyd Amgylcheddol – Iechyd Cyhoeddus Cyngor Sir Fynwy Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA. .
Iechyd a Diogelwch	Iechyd Amgylcheddol – Tîm Masnachol Cyngor Sir Fynwy Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA.
Safonau Masnach	Safonau Masnach Cyngor Sir Fynwy Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA.
Awdurdod Diogelu Plant	Cydlynnydd Diogelu Plant Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA. jessicascarisbrick@monmouthshire.gov.uk
Yr Awdurdod Cynllunio	Cynllunio Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA. (Am geisiadau yn ardal Bannau Brycheiniog, bydd angen i chi gyflwyno'r cais i

	Wasanaethau Cynllunio, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu
Heddlu Gwent	Yr Adran Drwyddedu, Trwyddedu Awdurdodau Cynllunio Lleol y Dwyrain, Gorsaf Heddlu Casnewydd Canolog, 1-3 Heol Caerdydd, Casnewydd NP20 2EH. safetysouth@southwales-fire.gov.uk
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Forest View Business, Llantrisant, Pont-y-clun CF72 8LX
Iechyd Cyhoeddus	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus – Arweiniad Trwyddedu Alcohol, Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Aneurin Bevan, Ysbyty Sant Cadog, Adeilad y Pencadlys, Heol Lodge, Caerleon NP18 3XQ.
Swyddfa Gartref (Gorfodaeth Mewnfudo)	Swyddfa Gartref, Gorfodi Mewnfudo, Tîm Cydymffurfiaeth Drwyddedu (LCT), 2 Sgwâr Ruskin, Ffordd Dingwall, Croydon CR0 2WF. IE.ceisiadau.drwyddedu@swyddfa-gartref.gov.uk
Cychod yn unig	Mae'r Ymgynghorai'n dibynnu ar y ddyfrffordd y gofynnir am y drwydded ynddi ac felly cyfeiriwch at licensing@monmouthshire.gov.uk am gymorth ynglŷn â phwy i ymgynghori.

25.7 Y camau am ystyried cais trwyddedu, amrywiad trwyddedu a thystysgrif safle clwb yw:

- Os na wneir cynrychioliadau i gais, rhaid bod yr Awdurdod yn ei roddi'n llawn.
- Gwelwch ein gwefan am fwy o wybodaeth, os gwelwch yn dda www.monmouthshire.gov.uk/licensing.
- Pan wneir cais, a gwneir cynrychioliad perthnasol i'r Awdurdod, rhaid iddo gynnal gwrandawriad o'r Cymhwyster a Chymdeithas Gamblo Is-bwyllgor(oni bai bod y rheini sydd wedi gwneud cynrychioliadau yn cytuno o flaen llaw bod hyn yn ddiangen).
- Bydd yr Cymhwyster a Chymdeithas Gamblo Is-bwyllgorwedyd yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr a gan y rheini sy'n gwneud cynrychioliadau, y ddeddfwriaeth a Chanllawiau sy'n cyd-fynd, Datganiad y Polisi Trwyddedu ac unrhyw ddata perthnasol eraill.

- e) Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'n barnu'r cais a bydd yn cymryd unrhyw gamau y mae'n ystyried sy'n briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- f) Efallai caiff amodau ar y drwydded, sy'n ychwanegol i'r rheini a gynigir gan yr ymgeisydd, eu hystyried.
- g) Bydd amodau priodol yn ffocysu ar faterion sydd o fewn rheol trwyddedai unigol ac sydd hefyd yn ymwneud â'r safleoedd neu'r mannau y defnyddir ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy ac effaith y gweithgareddau hynny ar yr ardal gyfagos. Os yw sefyllfaoedd yn codi lle bod yr amcanion trwyddedu dan fygythiad ond ni ellir mynd i'r afael â nhw trwy ddefnyddio amodau priodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried a yw'n briodol cyflwyno trwydded neu bod y safle yn parhau i weithredu.

25.8 Amodau ar drwydded:

- Rhaid eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu;
- Rhaid eu bod yn fanwl gywir a bod modd eu gorfodi;
- Rhaid eu bod yn ddiamwys ac yn glir yn yr hyn maent yn bwriadu eu cyflawni;
- Ni ddylent ddyblygu gofyniadau statudol eraill neu ddyletswyddau neu gyfrifoldebau eraill a osodir ar y cyflogwr gan ddeddfwriaeth arall;
- Rhaid eu teilwra i'r fath, y lleoliad a nodweddion unigol y safle a'r digwyddiadau dan sylw;
- Ni ddylid eu safoni ac efallai ni fydd yn gyfreithlon pan ni ellir dangos eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu mewn achos unigol;
- Ni ddylid dyblygu troseddau a nodir yn y Ddeddf 2003 neu ddeddfwriaeth arall;
- Dylent fod yn gymesur, yn gyfiawnadwy ac yn bosib eu cyflawni;
- Ni allent geisio rheoli ymddygiad cwsmeriaid unwaith iddynt fynd y tu hwnt i reoliad uniongyrchol y deiliad trwydded a'i staff, ond gallent effeithio ymddygiad cwsmeriaid yn ardal gyfagos y safle neu wrth iddynt cael mynediad neu wrth adael; a
- Dylid eu hysgrifennu mewn fformat rhagnodol.

25.8 Rhaid bod gan unigolion sy'n ymgeisio am drwydded bersonol yr hawl i weithio yn y DU. Diwygiodd y Ddeddf Mewnfudo 2016 y Ddeddf Trwyddedu 2003 daeth i rym ar y 6^{ed} o Ebrill 2017 fel bod rhaid gwrthod cais a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw gan rywun sydd heb yr hawl i weithio yn y DU. Ni ddylid cyflwyno trwyddedu i bobl sy'n bresennol yn anghyfreithlon yn y DU sydd heb yr hawl i weithio, neu sydd gyda'r hawl i weithio ond sy'n ddarostyngedig i amod sy'n eu hatal rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â pharhau â gweithgaredd trwyddedig. Er mwyn gweithredu'r ddyletswydd hon, rhaid bod yr Awdurdod yn fodlon bod gan ymgeisydd yr hawl i weithio yn y DU, er mwyn dangos bod gan yr ymgeisydd

ganiatâd i fod yn y DU a bod ganddynt ganiatâd i ymgymryd â gwaith mewn gweithgaredd trwyddedadwy. Mae hyn yn berthnasol hefyd i unigolion sy'n ymgeisio am drwyddedau safle. Diben hyn yw atal gweithio anghyfreithlon yn y DU.

- 25.9 Mae person hefyd yn anghymwys i ddal trwydded os ydynt yn ddarostyngedig i amod ar eu caniatâd i weithio yn y DU sy'n eu rhwystro rhag dal trwydded, er enghraifft os ydynt yn ddarostyngedig i gyfyngiad mewnfudo nad yw'n caniatáu iddynt weithio.

26. Amserlen weithredu

- 26.1 Dylai pob cais newydd ac amrywiol ymgorffori 'amserlen weithredu' sy'n amlinellu sut y caiff y safle ei weithredu. Dylai hyn gynnwys manylion ynglŷn â sut fydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol bosib o weithredu eu busnes ar y gymuned leol, yn dibynnu ar fath y safle, y lleoliad a phroffil y cwsmeriaid. Bydd y cynigion sy'n cael eu cynnwys yn yr amserlen weithredu'n ffurfio prif gorff yr amodau i'w gosod ar y drwydded, yn ogystal ag unrhyw amodau gorfodol perthnasol, unrhyw amodau a gytunwyd gydag awdurdodau cyfrifol yn ystod y broses gais ac unrhyw amodau a orfodir gan Cymhwyster a Chymdeithas Gamblo Is-bwyllgorpan fod cynrychioliadau wedi'u gwneud.
- 26.2 Pan fyddant yn cwblhau amserlen weithredu, disgwylir bod ymgeiswyr yn rhoi sylw i'r datganiad hwn o bolisi trwyddedu ac yn dangos adnabyddiaeth briodol o'u hardal leol wrth ddisgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.
- 26.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cynnig cyngor cyffredinol ynglŷn â drafftio amserlenni gweithredu ac argymhellir yn gryf bod ymgeiswyr yn trafod eu hamserlenni gweithredu gyda'r Awdurdod Trwyddedu ac Awdurdodau Cyfrifol eraill cyn iddynt eu cyflwyno.
- 26.4 Bydd y cymhlethdod a'r manylder sydd eu hangen yn yr amserlen weithredu'n dibynnu ar natur a defnydd y safleoedd dan sylw. Am safleoedd megis tai cyhoeddus lle ni ddarperir adloniant rheoledig, efallai y bydd angen ddogfen gymharol syml yn unig. Serch hynny, am amserlen weithredu sy'n cyd-fynd â chais am leoliad neu ddigwyddiad adloniant mawr, disgwylir y bydd sylw manwl yn cael ei roi i faterion megis diogelwch cyhoeddus ac atal trosedd ac anhrefn.
- 26.5 Rhaid gosod yr amserlen weithredu ar y ffurflen ragnodedig a chynnwys datganiad o'r canlynol:-

- Manylion llawn o'r gweithgareddau trwyddedadwy i'w gweithredu ar yn ogystal â defnydd arfaethedig y safle;
- Yr amserau bydd y gweithgareddau trwyddedadwy'n digwydd;
- Unrhyw amserau eraill pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd;
- Pan fydd angen y drwydded am gyfnod cyfyngedig yn unig, y cyfnod hwnnw;
- Pan fydd gweithgareddau trwyddedadwy'n cynnwys cyflenwi alcohol, enw a chyfeiriad yr unigolyn i'w nodi fel goruchwylwr penodedig y safle;
- Os caiff alcohol ei gyflenwi i'w yfed ar neu oddi ar y safle neu'r ddau;
- Y camau y mae'r ymgeisydd yn eu cynnig er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

26.6 Am rai safleoedd, mae'n bosib na fydd mesurau'n ymroi i hyrwyddo un neu fwy o'r Amcanion Trwyddedu, er enghraifft, gan eu bod wedi'u cwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth arall gyfredol. Mae'n bwysig serch hynny y dylai pob amserlen:

- Bod yn fanwl gywir ac bod modd eu gorfodi;
- Bod yn ddiamwys
- Peidio â dyblygu darpariaethau statudol eraill
- Bod yn glir yn yr hyn y maent yn bwriadu eu cyflawni; a
- Bod yn briodol, yn gymesur ac yn gyfiawnadwy.

26.7 Er mwyn helpu ymgeiswyr, mae'r awdurdod wedi darparu Cod arferion da ar gyfer safleoedd trwyddedig. Gellir dod o hyd i'r cod cyfredol yn Atodiad A o'r polisi hwn. Dylid nodi nad yw'r cod yn ffurfio unrhyw ran o'r polisi hwn a rhoddir y canllawiau ac esiamplau'r mesurau rheoli er mwyn helpu ymgeiswyr paratoi amserlenni gweithredu a rhedeg safle trwyddedig yn barhaol yn unig. Nid yw'r cod yn drwyadl ac ni ddylid ei ystyried mewn unrhyw fodd fel amodau safon neu ofynion gorfodol.

27. Amodau

- 27.1 Mae'r Ddeddf Trwyddedu 2003, fel y'i diwygiwyd, yn gosod nifer o amodau gorfodol ar drwyddedau. Mae gan y cyngor y pŵer i osod amodau ychwanegol os ydynt yn ystyried eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- 27.2 Caiff amodau sydd ynghlwm i drwyddedau neu dystysgrifau eu teilwra i arddull a nodweddion unigol y safle, y gweithgareddau a/neu'r digwyddiadau penodol a ddarperir ar y safle. Nid yw'r polisi'n darparu am unrhyw amod safonol,

cyffredinol neu hollgynhwysol, ac ni fydd yn gosod gofynion anghymesur a beichus.

- 27.3 Gall ymgeiswyr gynnig amodau yn yr amserlen weithredu fel rhan o'u cais; gall y cyngor cael gwared ar neu aileirio unrhyw un o'r amodau hyn os ystyrir eu bod yn aneglur, yn ddiamwys neu fod dim modd eu gorfodi, gyda chytundeb yr ymgeisydd. Bydd hyn yn sicrhau bod y partïon i gyd yn deall yn llwyr eu cyfrifoldebau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- 27.4 Mae'r cyngor yn cydnabod mai dim ond os derbynnir sylwadau perthnasol y gallant osod amodau ac os ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Pan fydd awdurdod cyfrifol yn rhoi tystiolaeth ei fod yn briodol gosod amodau penodol, caiff y cais ei ystyried gan y cyngor efallai bydd yn awgrymu geiriad yr amod er mwyn sicrhau ei fod yn eglur, yn berthnasol a bod modd ei orfodi.
- 27.5 Wrth atodi amodau, bydd y cyngor hefyd yn ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau efallai bydd yn rhwystro cerddoriaeth fyw, dawnio neu theatr gan osod costau o natur sylweddol nad ydynt yn gymesur â'r risgiau.

28. Ceisiadau pan dderbynnir cynrychioliadau

- 28.1 Pan wneir cais am grant, amrywiad neu adolygiad o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb, gall yr awdurdodau cyfrifol neu bobl eraill wneud cynrychioliadau ynglŷn â'r cais. Serch hynny, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn rhoi pwysau mwy i gynrychioliadau a wneir gan bobl gall ddangos y byddant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan barhad gweithgareddau trwyddedadwy ar y safle dan sylw.
- 28.2 Rhaid gwneud cynrychioliadau i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r Awdurdod Trwyddedu dderbyn yr ymgais perthnasol. Rhaid gwneud cynrychioliadau yn ysgrifenedig.
- 28.3 Gellir gwneud cynrychioliadau naill ai mewn cefnogaeth i gais neu i fynegi gwrthwynebiadau i roddi cais. Serch hynny, gall yr Awdurdod Trwyddedu dderbyn "cynrychioliadau perthnasol" yn unig. Mae cynrychioliad yn "berthnasol" os yw'n ymwneud ag effaith debygol rhoddi'r drwydded ar hyrwyddiad o leiaf un o'r Amcanion Trwyddedu.
- 28.4 Enghraifft o gynrychioliad na fydd yn berthnasol buasai cynrychioliad o berson busnes lleol ynglŷn â'r niwed masnachol y buasai cystadleuaeth oddi wrth safle trwyddedig newydd yn ei gwneud i'w busnes ei hun. Ar y llaw arall, buasai

cynrychioliad o berson busnes y bydd niwsans a achosir gan safle newydd yn rhwystro cwsmeriaid rhag dod i mewn i'r ardal leol, a bod y camau a gynigir gan yr ymgeisydd i atal y niwsans hwnnw'n annigonol, yn gynrychioliad perthnasol.

- 28.5 Yn nhermau eraill, dylai cynrychioliadau ymwneud ag effaith gweithgareddau trwyddedadwy a pharheir o safleoedd ar yr Amcanion Trwyddedu.
- 28.6 Er mwyn bod cynrychioliadau sy'n ymwneud ag amrywiadau'n berthnasol, dylid eu cyfyngu i bwnc uniongyrchol yr amrywiad.
- 28.7 Er nad yw'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl bod cynrychioliadau'n seiliedig ar dystiolaeth, nid oes ofyniad bod Awdurdod Cyfrifol neu berson arall yn cynhyrchu hanes wedi'i gofnodi o broblemau ar safle i gefnogi eu cynrychioliadau, ac adnabyddir y ffaith na fydd hyn yn bosib am safleoedd newydd.
- 28.8 Grŵp o gyrff cyhoeddus yw awdurdodau lleol y dylid eu hysbysu'n llawn o unrhyw geisiadau ac sydd â'r hawl i wneud cynrychioliadau i'r Awdurdod Trwyddedu yn ymwneud â chais i roddi, amrywio neu adolygu trwydded safle neu dystysgrif safle clwb. Darperir rhestr lawn o fanylion cyswllt am yr awdurdodau cyfrifol ar wefan yr Awdurdod Trwyddedu.
- 28.9 Er gall pob awdurdod cyfrifol wneud cynrychioliadau ynglŷn â cheisiadau am drwyddedau a thystysgrifau safle clwb a cheisiadau amrywiad llawn, cyfrifoldeb pob Awdurdod Cyfrifol yw e i benderfynu os oes ganddynt sail briodol dros wneud hynny.
- 28.10 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod gall bob Awdurdod Cyfrifol wneud cynrychioliadau yn ymwneud ag unrhyw un o'r pedwar Amcan Trwyddedu. Serch hynny, buasai'r Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn disgwyl bod cynrychioliadau yn ymwneud â hyrwyddo Amcanion Trwyddedu unigol yn dod o'r Awdurdod Cyfrifol mwyaf perthnasol gydag arbenigedd yn y maes penodol hwnnw. Er enghraifft, buasai'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl bod cynrychioliadau ynglŷn ag atal trosedd ac anhrefn yn dod yn bennaf o'r heddlu a bod cynrychioliadau ynglŷn ag atal niwsans cyhoeddus yn dod yn bennaf o iechyd amgylcheddol.
- 28.11 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod taw yr heddlu dylai fod ei brif ffynhonnell cyngor ynglŷn â materion sy'n ymwneud â hyrwyddo'r amcan trwyddedu trosedd ac anhrefn, ond efallai bydd hefyd modd iddynt wneud cynrychioliadau yn ymwneud â'r Amcanion Trwyddedu eraill os oes ganddynt dystiolaeth i gefnogi cynrychioliadau o'r fath.

- 28.12 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n derbyn pob cynrychioliad rhesymol a chymesur a wneir gan yr heddlu oni bai bod ganddo dystiolaeth na fydd wneud hynny'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Serch hynny, bydd yr Awdurdod Trwyddedu dal yn disgwyl bod unrhyw gynrychioliad gan yr heddlu'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn gallu gwrthsefyll archwiliad mewn gwrandawriad.
- 28.13 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod gwasanaethau plant Cyngor Sir Fynwy fel y corff sy'n gymwys i'w gynghori ynglŷn â'r amcan trwyddedu diogelu plant rhag niwed.
- 28.14 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n adnabod, er nad amcan trwyddedu yw iechyd cyhoeddus, gall cyrff iechyd dal gwybodaeth nad yw awdurdodau cyfrifol eraill yn eu dal, ond bydd yn helpu'r Awdurdod Trwyddedu wrth ymarfer ei swyddogaethau.
- 28.15 Er enghraifft, gall meddwdod arwain at ddamweiniau ac anafiadau oherwydd trais, sy'n arwain at dderbyniadau i adrannau argyfwng a defnydd gwasanaethau ambiwlans. Caiff rhai o'r digwyddiadau hyn eu hadrodd i'r heddlu, ond ni chaiff nifer ohonynt. Efallai y bydd gwybodaeth felly'n berthnasol i'r amcan diogelwch cyhoeddus ac mewn rhai achosion yr amcan trosedd ac anhrefn.
- 28.16 O ganlyniad i'r Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'r Awdurdod Trwyddedu nawr yn Awdurdod Cyfrifol ac felly gall wneud cynrychioliadau os yw'n ystyried ei fod yn briodol gwneud hynny.
- 28.17 Serch hynny, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn ymddwyn fel Awdurdod Cyfrifol ar ran partïon eraill (er enghraifft, preswylwyr lleol, cynghorwyr lleol neu grwpiau cymunedol) er bod yna achlysuron pan efallai bydd yr awdurdod yn penderfynu gwneud hynny.
- 28.18 Gall partïon felly wneud cynrychioliadau perthnasol i'r Awdurdod Trwyddedu yn eu rhinwedd eu hunain, ac mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl eu bod yn gwneud cynrychioliadau eu hunain pan fod modd rhesymol iddynt wneud hynny.
- 28.19 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn disgwyl y dylai awdurdodau cyfrifol eraill ymyrryd pan fydd sail yr ymyriad yn cwmpo o fewn cylch gwaith yr Awdurdod Cyfrifol hwnnw. Mae gan bob Awdurdod Cyfrifol safle cyfartal dan y Ddeddf 2003 a gallent ymddwyn yn annibynnol heb aros am gynrychioliadau oddi wrth unrhyw Awdurdod Cyfrifol arall.
- 28.20 Yn yr achos bod Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ymddwyn fel Awdurdod Cyfrifol mewn perthynas â'r un broses, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio cyflawni gwahaniad o gyfrifoldebau o fewn yr awdurdod er mwyn sicrhau tegwch

gweithdrefnol ac i gael gwared ar wrthdaro buddiannau. Caiff hyn ei gyflawni trwy ddyrannu'r cyfrifoldebau gwahanol i swyddogion trwyddedu gwahanol neu i swyddogion eraill o fewn yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau gwahaniad priodol o gyfrifoldebau.

- 28.21 Gall unrhyw berson arall wneud cynrychioliadau perthnasol ynglŷn â cheisiadau, waeth beth yw eu safle daearyddol mewn perthynas â'r safle perthnasol. Serch hynny, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn rhoi pwysau mwy i gynrychioliadau a wneir gan bobl gall ddangos y byddant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan barhad gweithgareddau trwyddedadwy ar y safle dan sylw.
- 28.22 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn gwrthod fel annilys unrhyw gynrychioliadau o bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn wamal neu'n flinderus. Efallai ystyrir bod cynrychioliad yn flinderus os yw'n ymddangos taw ei fwriad yw achosi cythruddo neu annifyrrwch tuag at gystadleuydd neu berson arall heb achos rhesymol. Caiff cynrychioliadau gwamal eu categoreiddio gan ddiffyg difrifoldeb yn y bôn. Buasai cynrychioliadau gwamal yn ymwneud â materion sydd, ar y mwyaf, yn fach ac ni fuasai camau adfer yn haeddiannol neu'n gymesur mewn perthynas â nhw.
- 28.23 Caiff penderfyniadau ynglŷn â dilysrwydd cynrychioliadau fel arfer eu gwneud gan swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu. Mewn achosion cael â chael, rhoir budd yr amheuaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o gynrychioliad i'r person sy'n gwneud y cynrychioliad hwnnw. Buasai'r gwrandawriad dilynol wedyn yn cynnig y cyfle i'r person neu'r corff sy'n gwneud y cynrychioliad i'w chwyddo ac i'w egluro.
- 28.24 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n derbyn deisebau, ond mae yna rhai ffactorau pwysig i ystyried cyn trefnu deiseb:
- Rydym yn gofyn bod trefnydd y ddeiseb yn enwi ei hun fel pwynt cyswllt canolog. Efallai bydd angen i ni gysylltu er mwyn gwirio materion penodol. Os na allwn wneud hyn gall annilysu'r ddeiseb.
 - Dylai pob tudalen yn y ddeiseb cynnwys gwybodaeth ynglŷn â diben y ddeiseb fel bod pawb yn gwybod beth maent yn ei arwyddo.
 - Rhaid cyflwyno enwau a chyfeiriadau llawn
 - Rhaid gwneud pob llofnodydd yn ymwybodol y caiff gopi o'r ddeiseb ei gyflwyno i'r ymgeisydd a chaiff ei gadw o fewn papurau'r pwyllgor, felly bydd eu manylion personol yn dod yn wybodaeth gyhoeddus.

Ni fyddwn yn ysgrifennu at bob llofnodwr ar wahân, ond byddwn yn cymryd yn ganiataol y bydd y trefnydd yn hysbysu pob llofnodydd ynglŷn â dyddiad y gwrandawriad a chanlyniad terfynol y cais. Disgwylir y bydd y trefnydd yn cynrychioli'r llofnodwyr yn y gwrandawriad ac yn siarad ar eu cyfer. Wrth wneud

penderfyniad, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi pwysau priodol i ddeiseb. Dylai'r rheini sy'n dymuno gwneud cynrychioliadau gwerthfawrogi taw ystyriaeth bwysig yw ansawdd y cynrychioliadau a dderbyniwn wrth wneud penderfyniad.

- 28.25 Gall unrhyw berson a dramgwyddir gan wrthodiad o'u cynrychioliadau ar unrhyw un o'r seiliau hyn cyflwyno cwyn trwy weithdrefn cwyno gorfforaethol yr awdurdod. Gall rhywun herio penderfyniad felly trwy adolygiad barnwrol yn ogystal.
- 28.26 Pan roir hysbysiad o wrandawriad i ymgeisydd, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu darparu copïau o'r cynrychioliadau perthnasol a wnaed i'r ymgeisydd.
- 28.27 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn darparu copïau o'r cynrychioliadau perthnasol i'r ymgeisydd yn llawn a heb eu golygu. Serch hynny, mewn amgylchiadau eithriadol, pan fod person yn bodloni'r Awdurdod Trwyddedu bod ganddynt resymau dilys dros ofni bygythiad neu drais os ddatgelir eu manylion cyswllt megis enw neu gyfeiriad i'r ymgeisydd, efallai caiff copïau o'r cynrychioliadau eu golygu yn unol â hynny.
- 28.28 Mewn amgylchiadau felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu dal yn darparu rhai manylion i'r ymgeisydd (megis enw'r stryd neu leoliad cyffredinol o fewn stryd) fel y gall yr ymgeisydd paratoi eu hymateb yn llawn i unrhyw gynrychioliad penodol.
- 28.29 Fel arall, efallai bydd personau'n dymuno cysylltu â'r Awdurdod Cyfrifol perthnasol neu â'u Cynghorydd lleol gyda manylion ynglŷn a sut ydynt yn ystyried bod yr Amcanion Trwyddedu'n cael eu tanseilio fel bod modd i'r Awdurdod Cyfrifol wneud cynrychioliadau ar eu rhan os yw'n briodol ac yn gyfiawn.
- 28.30 Darperir mwy o wybodaeth ynglŷn â gwneud cynrychioliadau ar wefan yr Awdurdod Trwyddedu.

29. Ymarfer a dirprwyo swyddogaethau

- 29.1 Mae'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn ymddwyn fel yr Awdurdod Trwyddedu ac yn sefydlu Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr i fod yn gyfrifol am bob mater yn ymwneud â'r Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr 'n dirprwyo'n bellach i Is-bwyllgorau Trwyddedu (Paneli), neu drwy un neu fwy o swyddogion yn gweithredu dan awdurdod dirprwyedig.

- 29.2 Ystyrir y bydd nifer o'r swyddogaethau yn weinyddol eu natur yn bennaf heb feysydd cynnen i'w canfod. Er budd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cost, gweithredir y rhain yn bennaf gan swyddogion. Bydd gan yr Awdurdod Trwyddedu, pan fydd yn ymddwyn fel Awdurdod Cyfrifol yn gwneud sylwadau ynglŷn â cheisiadau Trwydded, rolau gwahanol ar gyfer swyddogion. Bydd angen un aelod staff er mwyn gweinyddu'r cais a bydd aelod arall o staff yn ymddwyn fel yr Awdurdod Cyfrifol yn gwneud sylwadau ynglŷn â'r cais.
- 29.3 Mae Amserlen isod yn gosod dirprwyo tybiedig swyddogaethau a phenderfyniadau. Er gwaethaf y rhagdybiaeth o ddirprwyo hon, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyfeirio unrhyw fater i'r Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr neu'r is-bwyllgor.

29.4 **Amserlen dirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau trwyddedu**

Mater i'w ddelio ag ef	Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr	Cymhwyster a Chymdeithas Gamblo Is-bwyllgor(pane li)	Swyddogion
Cais am drwydded bersonol		Os oes gwrthwynebiad gan yr heddlu	Os nad oes gwrthwynebiad
Cais am drwydded bersonol gydag euogfarnau sydd heb ddarfod		Pob achos	
Cais am drwydded safle/tystysgrif safle clwb		Os wnaed cynrychioliad perthnasol sydd heb ei dynnu yn ôl	Os na wnaed cynrychioliad perthnasol neu os dynnwyd cynrychioliad yn ôl
Cais am ddatganiad dros dro		Os wnaed cynrychioliad perthnasol sydd heb ei dynnu yn ôl	Os na wnaed cynrychioliad perthnasol neu os dynnwyd cynrychioliad yn ôl
Cais i amrywio trwydded		Os wnaed cynrychioliad perthnasol	Os na wnaed cynrychioliad perthnasol neu

safle/tystysgrif safle clwb		sydd heb ei dynnu yn ôl	os dynnwyd cynrychioliad yn ôl
Cais i amrywio goruchwyliwr penodedig y safle		Os oes gwrthwynebiad gan yr heddlu	Pob achos arall
Cais am fân amrywiad			Pob achos
Cais i amrywio trwydded ar safle cymunedol i gynnwys amod trwydded amgen		Os oes gwrthwynebiad gan yr heddlu	Pob achos arall
Ceisiadau i gael gwared ar oruchwyliwr penodedig y safle			Pob achos
Cais i drosglwyddo trwydded safle		Os oes gwrthwynebiad gan yr heddlu	Pob achos arall
Cais am awdurdodau dros dro		Os oes gwrthwynebiad gan yr heddlu	Pob achos arall
Cais i adolygu trwydded safle/tystysgrif safle clwb		Pob achos	
Penderfyniad ynglŷn ag a yw cwyn yn amherthnasol, gwamal, blinderus ayyb			Pob achos
Penderfynu ar wrthwynebiad heddlu neu iechyd amgylcheddol i hysbysiad digwyddiad dros dro		Mewn pob achos os ni chaiff ei dynnu yn ôl	
Atal trwyddedau am beidio â thalu ffioedd blynyddol			Pob achos

30. Adolygiadau o drwyddedau

30.1 Gall y cyngor adolygu trwydded pan yr honnir gan "awdurdod cyfrifol", neu unrhyw berson arall y torrir yr amcanion trwyddedu yn unig. Bydd awdurdodau cyfrifol yn anelu at roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded ynglŷn ag unrhyw bryderon a nodir ar y safle. Awdurdodau cyfrifol neu bersonau eraill (e.e. preswylwyr lleol, sefydliadau lleol a chynghorwyr) yn unig gall ymgeisio am adolygiad trwydded a phenderfynu ei ganlyniad mewn gwrandawriad lle y cyflwynir sail dystiolaethol am yr honiadau a wnaed. Mae'n ystyried ceisiadau am adolygiad unrhyw drwydded safle'n ddifrifol sy'n cynnwys:

- defnydd y safle trwyddedig ar gyfer gwerthu a dosbarthu cyffuriau rheoledig a gwyngalchu enillion troseddau cyffuriau;
- defnydd y safle er mwyn gwerthu a dosbarthu drylliau anghyfreithlon;
- osgoi hawlfraint mewn perthynas â ffilmiau a cherddoriaeth sydd wedi'u lladrata;
- prynu ac yfed alcohol dan oedran;
- defnydd y safle trwyddedig ar gyfer puteindra neu i werthu pornograffi anghyfreithlon;
- defnydd y safle trwyddedig ar gyfer hapchwarae anghyfreithlon;
- defnydd y safle trwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgaredd trosedd cyfundrefnol;
- defnydd y safle trwyddedig er mwyn trefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hilio, homoffobaidd neu rywiol;
- defnydd y safle trwyddedig er mwyn gwerthu tybaco neu nwyddau wedi'u smyglo;
- defnydd y safle trwyddedig er mwyn storio neu werthu nwyddau sydd wedi'u dwyn;
- galw'r heddlu'n aml er mwyn mynd i'r afael ag achosion o anhrefn;
- achosion hirfaith a/neu aml o niwsans cyhoeddus;
- bod risg ddifrifol i ddiogelwch cyhoeddus wedi'i hadnabod ac nid yw'r rheolaeth yn gallu neu'n awyddus i'w chywiro;
- risg difrifol i blant.

30.2 Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'n ystyried y dystiolaeth i gyd a ddarperir yn y gwrandawriad ac yn gosod pwys priodol i'r dystiolaeth honno wrth wneud ei benderfyniad.

30.3 Bydd yr is-bwyllgor trwyddedu'n ystyried y sancsiynau i gyd sydd ar gael iddo a ddarperir yn y Ddeddf a'r canllawiau, gan gynnwys peidio â gweithredu os yw'n

briodol. Mewn achosion lle bod amcan trwyddedu wedi'i danseilio'n ddifrifol, caiff ddirymiad o'r drwydded, hyd yn oes yn yr achos cyntaf, ei ystyried lle bo'n briodol er mwyn sicrhau hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu.

- 30.4 Mewn achosion lle bod amcan trwyddedu wedi'i danseilio'n ddifrifol, caiff ddirymiad o'r drwydded, hyd yn oes yn yr achos cyntaf, ei ystyried lle bo'n briodol er mwyn sicrhau hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu.

31. Asesiad Effaith Gronnus

- 31.1 Dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, mae gan Awdurdodau Trwyddedu'r pŵer i gyflwyno polisi effaith gronnus pan fod yna dystiolaeth yn dangos bod nifer sylweddol o safleoedd mewn un ardal wedi arwain at gynnydd mewn; trosedd ac anhrefn, niwsans cyhoeddus neu'r ddau. Pan yw'n cael ei fabwysiadu, mae Polisi Effaith Cronnus yn creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy y caiff trwyddedau safle, tystysgrifau safle clwb neu amrywiadau newydd sy'n debygol o ychwanegu at yr effaith gronnus gyfredol fel arfer eu gwrthod.
- 31.2 Mae'r Canllawiau Statudol yn gosod y camau i'w dilyn wrth ystyried a ddylid mabwysiadu polisi arbennig o fewn y Polisi. Mae'r rhain yn cynnwys -
- a) Nodi pryder ynglŷn â throedd ac anhrefn; diogelwch cyhoeddus; niwsans cyhoeddus; neu ddiogelu plant rhag niwed
 - b) Ystyried a oes dystiolaeth dda bod trosedd ac anhrefn neu niwsans yn digwydd, neu a oes gweithgareddau sy'n peri bygythiad i ddiogelwch cyhoeddus neu ddiogelu plant rhag niwed
 - c) Os yw problemau o'r fath yn digwydd, nodi os achosir y problemau hyn gan gwsmeriaid y safle trwyddedig, neu os yw'r risg o effaith gronnus ar fin digwydd
 - d) Nodi ffiniau'r ardal y mae problemau'n digwydd
 - e) Ymgynghori â'r rheini a nodir yn Adran 5(3) o'r Ddeddf Trwyddedu ac, yn ôl canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, cynnwys a chyhoeddi manylion o unrhyw bolisi arbennig yn y datganiad polisi trwyddedu.
- 31.3 Ym mis Ebrill 2018, cyflwynodd Adran 141 o'r Ddeddf Plismona a Throsedd 2018 Adran 5A newydd i'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ymwneud ag Asesiadau Effaith Gronnus (AEG). Cyn y gellir cyflwyno ardal asesiad Effaith, rhaid i'r Awdurdod rhoi rhesymau pam eu bod yn ystyried AEG, pa rannau maent yn ystyried i fod yn AEG ac os ydynt yn ystyried bod yr AEG yn berthnasol i bob trwydded neu'r rheini o fath penodol. Felly, rhaid i'r Awdurdod ymgymryd ag asesiad trylwyr ac os cyflwynir AEG, rhaid ei adolygu pob 3 mlynedd o leiaf.

- 31.4 Ar ôl ystyried y Canllawiau Statudol, asesiad yn unol â 31.3 uchod a chanllawiau Heddlu Gwent, penderfynwyd cael gwared ar ardal Effaith Gronnus Cas-gwent o'u polisi trwyddedu.
- 31.5 Mae'r awdurdod trwyddedu'n adnabod bod yna nifer o fesurau sy'n bodoli eisoes ar gael sy'n berthnasol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad anghyfreithlon a gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig, gan gynnwys:
- Rheoliadau cynllunio
 - Mesurau positif i greu awyrgylch diogel a glan mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr trafndiaeth ac adrannau eraill o'r awdurdod lleol
 - Darpariaeth gwyliadwriaeth CCTV, safle tacsis, darpariaeth o gyfleusterau cyhoeddus sydd ar agor yn hwyr yn y nos, patrolau glanhau stryd a sbwriel
 - Pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o'r ardal awdurdod lleol fel mannau na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus
 - Atafaelu alcohol o oedolion a phlant mewn mannau penodedig
 - Gorfodaeth heddlu o'r gyfraith gyffredinol yn ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys mater hysbysiadau cosb benodedig
 - Erlyn am y drosedd o werthu alcohol i rywun sy'n feddw (neu ganiatáu gwerthu o'r fath) – pwerau heddlu i gau lawr unrhyw safle trwyddedig neu ddigwyddiad dros dro yn syth am hyd at 24 awr (sy'n estynadwy i 48 awr) ar sail anhrefn, tebygolrwydd anhrefn neu sŵn sy'n deillio o'r safle sy'n achosi aflonyddwch
 - Amodau cadarn ar y ddeddf yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu
 - Pŵer yr heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu unrhyw berson i geisio adolygiad o'r drwydded neu dystysgrif
 - Cyfarfodydd Awdurdod Cyfrifol misol, er mwyn i bartïon sydd â diddordeb gwneud sylwadau arnynt, ac sy'n cynnig cynllun gweithredu wrth ddelio â safleoedd ac ardaloedd sy'n peri problem.

32. Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus

- 32.1 Dechreuodd y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Plismona Troseddau 2014, ym mis Hydref 2014, a chyflwynodd y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO). Mae GDMC wedi'i gynllunio i atal unigolion neu grwpiau rhag cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus lle mae'r ymddygiad yn cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal ac mae'r ymddygiad yn neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal a bod yr ymddygiad yn barhaus neu'n debygol o fod yn barhaus neu'n barhaus ei natur.

Argymhellion i'r Pwyllgor. Gofynnir i'r Pwyllgor (i) Ystyried pa mor briodol yw amodau'r Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus a'r newidiadau a wnaed. (ii) Penderfynu a yw'r Pwyllgor yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau neu argymhellion mewn perthynas ag amodau'r GDMC a'r newidiadau a wnaed, a bod yn afresymol. Mae'r pwerau i wneud Gorchymyn yn nwylo'r awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â'r Heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a chyrrff perthnasol eraill y gallai'r Gorchymyn effeithio arnynt.

Mae'r GDMC yn nodi bod yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus wedi cael neu'n debygol o gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal a ddisgrifir yn yr ardal gyfyngedig neu ei bod yn debygol y bydd gweithgareddau o'r fath yn cael eu cynnal yn yr ardal honno ac cael y fath effaith. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais am drwydded yn yr ardal PSPO neu sy'n agos at y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ddangos yn eu cais sut na fydd effeithiau'r drwydded yn cael effaith andwyol ar y GDMC.

Mae manylion llawn y gorchymyn(ion) i'w gweld ar [Wefan y Cyngor](#).

33. Gorchmynion cyfyngu yn gynnar yn y bore (GCGB)

- 33.1 Ystyriodd yr Awdurdod y goblygiadau y buasai hyn yn ei gael ar yr economi hwyrnos ac maent yn adnabod y buasai'r cyfyngiad yn berthnasol i werthu alcohol ac nid adloniant. Edrychodd ar gydbwysedd cynnig cymuned fywiog a'r elfen negyddol o drosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud ag alcohol. Edrychodd hefyd ar y mesur cyfredol sydd wedi'i osod i ddelio â materion felly.
- 32.2 Mae GCGB yn cyfyngu'r amser y gellir cyflenwi alcohol. Gellir rhwystro cyflenwad alcohol rhwng 0000-0600 ac mae'r berthnasol i Drwyddedau Safle, Tystysgrifau Safle Clwb a Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro. Nid oes eithriadau

heblaw am y rheini sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol i breswylwyr sydd â llety dros nos trwy minibariau a gwasanaeth ystafell.

- 32.2 Ystyriodd yr Awdurdod popeth uchod a phenderfynodd peidio â mabwysiadu GCGB yn ei gyfarfod Cyngor Llawr a gynhaliwyd ar y 26^{ain} o Fedi 2013. Serch hynny, bydd yr Awdurdod yn ystyried yr arddull hon ar unrhyw adeg os yw'n dod yn briodol ac yn angenrheidiol a bydd yn cynnal ymgynghoriad llawn cyn ystyried y ddarpariaeth.

33. Gwrandawiadau

- 33.1 Caiff ceisiadau am drwyddedau a thystysgrifau eu penderfynu yn dilyn ymgynghoriad gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol. Pan ni dderbynnir cynrychioliadau, byddant yn cael eu cyflwyno'r weinyddol gan y Tîm Trwyddedu. Serch hynny, rhaid cyfeirio ceisiadau dadleuol i Is-bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor (panel) i'w penderfynu, oni bai bod pob parti'n cytuno nad oes angen gwrandawriad.
- 33.2 Mae'r cyfnod o rybudd am wrandawriad sydd angen ei roi i bob parti perthnasol, a'r gwybodaeth y gellir ei datgelu, yn amrywio yn dibynnu ar y math o gais, ac ar rheoliadau. Bydd Cymhwyster a Chymdeithas Gamblo Is-bwyllgor(panel) o dri Aelod Etholedig yn penderfynu cais dadleuol a byddant naill ai'n rhoddi trwydded, yn rhoddi trwydded gyda diwygiadau neu'n gwrthod cais. Gall unrhyw bartio apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor i Lys Ynadon.
- 33.3 Ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod trwydded, gall unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson arall ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif. Caiff pob cais am adolygiad eu penderfynu gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu.

34. Apeliadau

- 34.1 Nodir yr hawliau i apelio ar gyfer partïon sydd wedi'u tramgwyddo gan benderfyniadau'r Cyngor yn Amserlen 5 o'r Ddeddf. Heblaw am achos trwyddedau personol, rhaid gwneud apêl i'r Llys Ynadon lleol. Yn achos trwyddedau personol, rhaid gwneud yr apêl i'r Llys Ynadon am yr ardal y mae'r awdurdod trwyddedu sydd wedi ystyried y cais (neu unrhyw ran ohono) wedi'i leoli ynddi.
- 34.2 Rhaid dechrau cais gan roi hysbysiad o'r apêl gan yr apelydd i
Clerc yr Ynadon
Llys Ynadon Casnewydd
Llysoedd y Gyfraith

Heol Faulkner
Casnewydd
Gwent
NP20 4PR

DX 311301 Casnewydd (Gwent) 19,

O fewn cyfnod o 21 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y nodwyd yr apelydd gan y Cyngor o'r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn.

34.3 Wrth benderfynu apêl, gall y Llys:

- gwrthod yr apêl
- amnewid unrhyw benderfyniad arall y gallwyd ei wneud gan y cyngor, neu
- dychwelyd yr achos i'r Cyngor i'w waredu yn unol ag arweiniad y Llys.

Gall y Llys wneud unrhyw gorchymyn ynglŷn â chostau y mae'n ystyried sy'n briodol.

34.4 Gan ragweld apeliadau felly, bydd y Cyngor yn rhoi rhesymau cynhwysfawr am ei benderfyniadau. Wrth wneud darganfyddiadau'r ffeithiau yn ei resymau, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod wedi rhoi sylw i safon y profi a'r baich profi y mae wedi mabwysiadu. Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi sylw i ba raddau y gwnaed penderfyniadau yn ymwneud â'i ddatganiad o bolisi trwyddedu a'r Canllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 182 Gweithredu penderfyniad y Llysoedd Ynadon

34.5 Lle bo'n briodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n darparu gwybodaeth i ymgeiswyr a gwrthwynebwyr ynglŷn â'u hawlau apelio.

34.6 Lle bo'n briodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n darparu gwybodaeth i ymgeiswyr a gwrthwynebwyr ynglŷn â'u hawlau apelio.

35. Gweithredu dyfarniad y Llys Ynadon

35.1 Cyn gynted ag y bydd dyfarniad y Llys Ynadon wedi'i basio, ni fydd y Cyngor yn oedi ei weithrediad a chaiff gweithred angenrheidiol ei gymryd ar unwaith oni bai y gorchmynnir atal gweithred o'r fath gan lys uwch (er enghraifft, o ganlyniad i Adolygiad Barnwrol parhaol). Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer apêl bellach yn erbyn dyfarniad y Llysoedd Ynadon.

36. Gorfodaeth

- 36.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi sefydlu protocolau gorfodaeth ar y cyd gyda'r heddlu ac awdurdodau gorfodaeth eraill. Bydd y protocolau hyn yn darparu ar gyfer targedu safleoedd y cytunir eu bod yn peri problem ac o risg uchel, ond gydag arddull mwy ysgafn yn cael ei gosod i safleoedd sydd â risg isel y dangosir eu bod yn cael eu rhedeg yn dda.
- 36.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n bwriadu y gwneir ymweliadau i safleoedd trwyddedig fel bo'n briodol, er mwyn sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw amod a osodir fel rhan o'r drwydded. Gall yr ymweliadau hyn naill fod yn archwiliadau rhagweithiol yn seiliedig ar y risg a berir gan y safle, hanes o beidio â chydymffurfio ayyb neu'n ymweliadau adweithiol o ganlyniad i gwynion.
- 36.3 Yn gyffredinol, cymerir camau yn unol ag egwyddorion gorfodaeth sydd wedi'u cytuno ac yn unol â pholisi gorfodaeth y Cyngor ei hun yn unig. I'r perwyl hwn caiff egwyddorion allweddol cysondeb, tryloywder a chymesuredd eu cynnal. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Pholisi Gorfodaeth Gorfforaethol y Cyngor, cyfeiriwch at <https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2013/06/Corporate-Enforcement-Policy-Final.pdf>
- 36.4 Yn gyffredinol, cymerir camau yn unol ag egwyddorion gorfodaeth sydd wedi'u cytuno ac yn unol â pholisi gorfodaeth y Cyngor ei hun yn unig. I'r perwyl hwn caiff egwyddorion allweddol cysondeb, tryloywder a chymesuredd eu cynnal.

37. Ffioedd yn Gyffredinol

- 37.1 Gosodir pob ffi ar hyn o bryd gan statud a rhaid i'r cyngor codi'r ffioedd fel y'i manylir yn y Rheoliadau Ffioedd.
- 37.2 Mae gan y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2010 darpariaethau i roi i gynghorau er mwyn iddynt osod eu ffioedd yn lleol, serch hynny ar y foment hon nid yw'r adrannau perthnasol wedi'u cychwyn. Ar ôl iddynt gychwyn bydd y cynghorau'n cyfrifo ffioedd er mwyn ailennill costau'r gwasanaeth ac yna'n ymgynghori ynglŷn â'u gweithrediad cyn gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu a Chwaraewyr cymeradwyo unrhyw newid.

38. Ffioedd Blynyddol ar gyfer Trwyddedu Safle a Thystysgrifau Safle Clwb

- 38.1 Mae'r Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau a wneir dan y Ddeddf yn gosod gofynion am ffioedd blynyddol ac yn ei gwneud yn ofynnol i dalu'r ffi ar y dyddiad dyledus sef pob blwyddyn ar ben-blwydd rhodd wreiddiol y drwydded. Gosodir y ffi ar hyn o bryd gan reoliadau, serch hynny bydd diwygiadau a wneir gan y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2010 pan fyddant yn dechrau yn rhoi'r gallu i'r cyngor gosod ffioedd yn lleol er mwyn adennill costau sy'n gysylltiedig â gweinyddiad a chydymffurfriad â'r Ddeddf.

39. Atal trwydded am beidio â thalu ffi flynyddol

- 39.1 Mae diwygiadau a wnaed i'r Ddeddf Trwyddedu 2003 gan y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2010 yn rhoi'r pŵer i gynghorau atal trwyddedau safle a thystysgrifau safle clwb pan na thalir y ffi flynyddol sydd ei hangen gan reoliadau.
- 39.2 Bydd y cyngor yn atal unrhyw drwydded neu dystysgrif pan na thalir y ffi sydd ei hangen ar y 'dyddiad dyledus', sy'n flynyddol ar ben-blwydd y dyddiad y rhoddir y drwydded yn gyntaf. Bydd y cyngor yn dilyn y weithdrefn isod:-
- 39.3 Ar ôl nodi/darganfod nad yw ffi flynyddol wedi'i thalu, bydd y cyngor yn rhoi hysbysiad i'r deiliad trwydded/tystysgrif, yn ysgrifenedig,
- y caiff y drwydded/tystysgrif eu hatal 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad.
 - Bydd hefyd yn nodi na fydd yr ataliad yn dod i rym os talir y ffi cyn y dyddiad atal.
 - Os hawlir gwall gweinyddol, efallai bydd y dyddiad atal 21 diwrnod o'r dyddiad dyledus; neu'r dyddiad atal ar yr hysbysiad 14 diwrnod, p'un bynnag sydd gynharaf.
 - Caiff copi o'r hysbysiad hefyd ei gyflwyno i'r goruchwyliwr safle/rheolwr penodedig y safle os nad nhw yw deiliad trwydded y safle.
- 39.4 Os na thalir y ffi erbyn y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad, barnir bod y drwydded/tystysgrif wedi'u hatal. Caiff y deiliad trwydded/tystysgrif a'r GPS/Rheolwr eu hysbysu'n syth ynglŷn â'r ataliad yn dod i rym, a'u hysbysu na all y safle bellach cynnig unrhyw weithgareddau trwyddedadwy hyd nes y talir y ffi a chodir yr ataliad. Pan wneir y taliad llawn, bydd y cyngor yn codi'r ataliad yn syth, ac yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

- 39.5 Pan fydd trwydded/tystysgrif yn cael eu hatal ac y cynigir gweithgareddau trwyddedadwy, bydd y cyngor yn ystyried erlyn y darparwr am droseddau dan adran 136 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003.

40. Ardollau hwyrnos

- 40.1 Pŵer dewisol yw Ardoll Hwyrnos (AH), y cyflwynwyd gan y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol sy'n galluogi'r Awdurdodau Trwyddedu (AT) i godi cyfraniad tuag at gost plismona'r economi gyda'r nos (EN) gan godi ardoll oddi wrth deiliaid Trwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb sydd wedi'u hawdurdodi i werthu alcohol. Rhaid i AH fod yn berthnasol ledled yr holl fwrdeistref ac yn berthnasol yn ogystal i drwyddedau ar ac oddi ar y safle i gyd. Nid yw HDDD yn cael eu cynnwys.
- 40.2 Mae'r Awdurdod yn ystyried buddion economi prysur gyda'r nos gan fod nifer o breswylwyr naill ai wedi'u cyflogi yn y sector hwn neu'n mwynhau'r adloniant bywiog a chymdeithasol y mae'n ei gynnig. Ystyrion nhw hefyd cydbwysedd hyn â'r effaith negyddol gall yr economi gyda'r nos ddod â yn ogystal â'r cyfyngiadau ariannol o fabwysiadu ardoll.
- 40.3 Ystyriodd yr Awdurdod popeth uchod a phenderfynodd peidio â mabwysiadu Ardoll yn ei gyfarfod Cyngor Llawr a gynhaliwyd ar y 26^{ain} o Fedi 2013. Serch hynny, bydd yr Awdurdod yn ystyried yr arddull hon ar unrhyw adeg os yw'n dod yn briodol ac yn angenrheidiol a bydd yn cynnal ymgynghoriad llawn cyn ystyried y ddarpariaeth.

41. Gwybodaeth Bellach

Gellir cael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Ddeddf Trwyddedu 2003 a pholisi trwyddedu'r Cyngor o:

Yr Adran Trwyddedu

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

NP15 1GA

Ffôn: 01873 735420

E-bost: licensing@monmouthshire.gov.uk

Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk/licensing